

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan  
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGEFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH	THE EXECUTIVE	
DYDD LLUN 25 IONAWR 2021 <b>10.00 o'r gloch</b>	<b>MONDAY 25 JANUARY 2021 10.00 am</b>	
CYFARFOD RHITHIOL	<b>VIRTUAL MEETING</b>	
Swyddog Pwyllgor	<b>Ann Holmes 01248 752518</b>	Committee Officer

## AELODAU/MEMBERS

### Plaid Cymru/Party of Wales

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS,  
Robin Wyn Williams

### Annibynnol/Independent

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

## COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hì wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.  
Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.**

## R H A G L E N

### **1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

### **2 MATERION BRYNS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

### **3 COFNODION (Tudalennau 1 - 28)**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhalwyd ar y dyddiadau canlynol:-.

- 30 Tachwedd 2020
- 14 Rhagfyr 2020
- 17 Rhagfyr 2020 (Arbennig)

### **4 COFNODION - PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL (Tudalennau 29 - 38)**

Cyflwyno i'w mabwysiadu, cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhalwyd ar 8 Rhagfyr 2020.

### **5 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 39 - 52)**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

### **6 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – AIL STRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH (Tudalennau 53 - 60)**

I gyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

### **7 STRATEGAETH TAI DROS DRO 2020/21 (Tudalennau 61 - 82)**

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

### **8 CYNLLUN BIOAMRYWIAETH (Tudalennau 83 - 110)**

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd.

### **9 CYNLLUN ARGYFWNG BWS (Tudalennau 111 - 182)**

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrrd, Gwastraff ac Eiddo.

## Y PWYLLGOR GWAITH

### Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2020

**PRESENNOL:**

Y Cyngropydd Llinos Medi (Cadeirydd)  
Y Cyngropydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones,  
Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys  
Thomas, Robin Williams

**WRTH LAW:**

Prif Weithredwr  
Dirprwy Brif Weithredwr  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog  
Monitro  
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc  
Cyfarwyddwr Dros Dro - Gwasanaethau Cymdeithasol  
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid  
Pennaeth Gwasanaethau Democraidd  
Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Oedolion  
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU:**

Dim

**HEFYD YN****BRESENNOL:**

Y Cyngorwyr Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE,  
Aled Morris Jones, G.O Jones, R. Llewelyn Jones, Dafydd  
Roberts, Rheolwr Sgriftini (AGD), Cyfreithiwr Llywodraethiant  
Corfforaethol (MY), Swyddog Cyfathrebu (GJ), Mr Gareth Wyn  
Williams (Newyddiadurwr Democraeth Leol)

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. MATERION BRYNS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Nid oedd dim materion brys i adrodd arnynt.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2020 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2020 yn gywir.**

#### **4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng mis Rhagfyr, 2020 a mis Gorffennaf, 2021 a nodwyd y newidiadau canlynol -

- Eitem 4 - Achos Busnes Chwaraeon Gogledd Cymru - eitem newydd ar gyfer cyfarfod 14 Rhagfyr, 2020
- Eitem 9 - Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20 - eitem wedi'i hailraglennu ar gyfer cyfarfod 25 Ionawr, 2021
- Eitem 10 - Cwrs Golff Llangefni - yn amodol ar gadarnhad - eitem wedi'i hailraglennu ar gyfer cyfarfod 25 Ionawr 2021.
- Eitem 27 - Cyflwyno Galw Gofal - Taliadau Cyswllt Gofal ar gyfer Tenantiaid Tai Cyngor - eitem wedi'i hailraglennu ar gyfer cyfarfod 22 Mawrth, 2021
- Cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith wedi ei gadarnhau ar gyfer 17 Rhagfyr, 2020 i ystyried Moderneiddio Ysgolion yn Ardal Llangefni.

Yn ogystal, bydd y trefniadau ar gyfer galw cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith i ddelio â phroses gosod Cyllideb 2021/22 rhwng Ionawr a Mawrth, 2021 yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd cadarnhau'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddar am y cyfnod rhwng mis Rhagfyr, 2020 a mis Gorffennaf, 2021 fel y'i cyflwynwyd.**

#### **5. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 2 2020/21**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2020/21.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor a rhoddodd drosolwg o berfformiad yn ystod y chwarter. Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol a grëwyd gan y pandemig Coronafeirws a welodd y Cyngor yn addasu'r ffordd y mae'n gweithio i ymateb i'r argyfwng, gan gynnwys darparu gwasanaethau newydd tra hefyd yn cynnal gwasanaethau rheng flaen allweddol, cynnal busnes fel arfer lle bo modd, a sicrhau iechyd a diogelwch, roedd mwyafrif (88%) y dangosyddion perfformiad sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau (Gwyrdd neu Felyn dan y Cynllun CAG). Mae hwn yn ganlyniad calonogol yng nghyd-destun blwyddyn sydd wedi bod ymhell o fod yn un normal.

Rhoddodd y Cyngorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgrivtini Corfforaethol, atborth o drafodaethau'r Pwyllgor ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 yn ei gyfarfod ar 17 Tachwedd, 2020. Ar ôl cydnabod a mynegi gwerthfawrogiad o ymdrechion ac ymrwymiad gweithlu'r Cyngor yn ystod y cyfnod, roedd y Pwyllgor wedi canolbwytio ar bocedi o danberfformiad yn y Gwasanaethau Tai, Cynllunio a Phlant a Theuluoedd a cheisiodd sicrwydd bod y materion penodol a godwyd yn cael sylw. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r camau lliniaru a gyflwynwyd ac fel yr eglurwyd hwy gan yr aelodau Portffolio a Swyddogion yn y cyfarfod ac roedd yn hapus felly i argymhell adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 2 i'r Pwyllgor Gwaith.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yr agweddau cadarnhaol niferus yr oedd y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 2 yn eu hadlewyrchu ac amlygodd strategaeth ddigidol y Cyngor fel maes sydd wedi bod yn hollbwysig yn ystod y pandemig oherwydd cau swyddfeydd y Cyngor ac ailagor agor rhai gwasanaethau'n ofalus ar ôl y cyfnod clo. Mae'r holl ddangosyddion o dan yr is-bennawd 'newid i wasanaeth digidol'

yn dangos perfformiad gwell nag yn y blynnyddoedd blaenorol. At hynny, ni fu unrhyw gwynion corfforaethol mewn perthynas â materion gwasanaethau cwsmer ac roedd nifer y cwynion ar ddiwedd Chwarter 2 (17) yn hanner yr hyn a gofnodwyd ar gyfer yr un cyfnod yn 2019/20 (35). Mae hyn yn arbennig o gadarnhaol ar adeg pan ddarparwyd llawer o wasanaethau i drigolion Ynys Môn mewn ffordd wahanol i'r arfer ac mae'n dangos hefyd bod darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

Gan gytuno bod yr adroddiad yn galonogol o ystyried y cyd-destun, ychwanegodd y Pwyllgor Gwaith ei ddiolchiadau i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled yn cynnal lefelau perfformiad yn gyffredinol. Gan gyfeirio at Ddangosydd 35 (nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety yr oedd modd eu gosod (ac eithrio rhai anodd eu gosod) a Dangosydd cysylltiedig 36 (Gwasanaethau Landlord: canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag), dywedodd yr Is-Gadeirydd, er ei fod yn cydnabod bod amgylchiadau eithriadol a allai egluro'r perfformiad islaw'r targed yn y meysydd hyn oherwydd bod staff y Gwasanaeth Tai wedi bod yn rhan o'r ymateb i'r argywng, yr hoffai weld gwelliant yn y dangosyddion hyn yn y flwyddyn newydd ac y byddai'n croesawu cael dadansoddiad manylach o sut y gellid cyflymu'r broses gosod tai, a hynny o gofio'r angen lleol am dai.

Cadarnhaodd y Cyngorydd Alun Mummery, yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnegi Cymunedau, fod y drafodaeth hon eisoes yn digwydd yn y Gwasanaeth Tai a bod dadansoddiad manylach ar y gweill. Yn y cyfamser mae unedau tai yn parhau i gael eu gosod. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y byddai mwy o wybodaeth ar gael yn Chwarter 3 a bod Archwilio Mewnol hefyd yn cynnal archwiliad o'r broses gosod tai.

Rhoddodd y Cyngorydd Richard Dew, yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, esboniad am y tanberfformiad o ran rhai agweddau ar y Gwasanaethau Cynllunio, gan nodi bod cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi cyfrannu at fethu targedau ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio ac ymchwilio i achosion gorfodaeth yn amserol, ond bod cynnydd yn cael ei wneud nawr. Yn achos apeliadau cynllunio a wrthodwyd, mae'r niferoedd y mae'r dangosydd yn berthnasol iddynt yn fach a'r rheswm am y tanberfformio yw oherwydd bod tair allan o chwe apêl wedi eu cadarnhau. Bwriedir cael trafodaeth gyda'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau / dehongliad swyddogion o geisiadau er mwyn gostwng nifer yr apeliadau cynllunio llwyddiannus.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch2 2020/21, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.**

## 6. MABWYSIADU'R DDOGfen GYFLAWNni FLYNYDDOL AR GYFER 2020-2022

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol am y deunaw 18 mis rhwng Hydref, 2020 a Mawrth, 2022 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn canolbwytio ar y gwaith y bydd yr Awdurdod yn ei wneud i gyflawni dyheadau a osodwyd yng Nghynllun y Cyngor Sir am y cyfnod 2017-22.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor gan dynnu sylw at y ffaith bod y Ddogfen yn ymwneud â chyfnod o 18 mis yn hytrach na'r 12 mis arferol. Er bod drafftio'r ddogfen mewn cyfnod o newid ac ansicrwydd wedi bod yn heriol, y nod fu datblygu rhaglen waith sy'n uchelgeisiol, yn realistig ac yn gyraeddadwy. Gan roi ei bersbectif personol, nododd yr Aelod Portffolio bod hyrwyddo economi'r Ynys trwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, cynyddu'r cyflenwad tai, moderneiddio ysgolion a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn feysydd allweddol yn ei farn ef. Mae'r Ddogfen Gyflawni hefyd yn cynnwys pedair rhaglen adfer thematig a fydd yn arwain y ffordd allan o'r pandemig ar gyfer adferiad economaidd, adfer cyrchfannau, adferiad

cymdeithasol a chymunedol ac adferiad sefydliadol; bydd y rhagleni manwl ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

Adroddodd y Cyngorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o gyfarfod y Pwyllgor ar 17 Tachwedd, 2020 lle craffwyd ar Ddogfen Gyflawni 2020-22. Roedd y Pwyllgor wedi nodi amserlen estynedig y Ddogfen ac wrth gydnabod y cyd-destun ariannol heriol, roedd wedi trafod a cheisio sicrwydd yng hylch pa mor gyraeddadwy oedd y dyheadau a oedd ynddi. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ceisio deall y berthynas rhwng y Ddogfen Gyflawni a'r pedair rhaglen adfer o ran gweithredu ac amserlenni. Ar ôl clywed y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Aelodau Portffolio a Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor argymhell y Ddogfen Gyflawni i'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd awdurdodi Swyddogion trwy'r Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor i gyflawni'r dasg o gwblhau drafft terfynol y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2020/22 ac argymhell bod y Cyngor Llawn yn ei mabwysiadu yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr, 2020.**

## 7. MONITRO'R GYLLIDEV REFENIW – CHWARTER 2 2020/21

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2020/21.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, yn seiliedig ar wybodaeth hyd yma, fod y sefyllfa ariannol a ragwelir yn gyffredinol ar gyfer 2020/21, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yn danwariant o £1.156m sef 0.81% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2020/21. Er iddo groesawu'r perfformiad y mae'r prognosis wedi'i seilio arno, rhybuddiodd yr Aelod Portffolio y gall y sefyllfa newid yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn, yn enwedig o gofio effeithiau parhaus y pandemig Coronafeirws, ac yn enwedig yr ansicrwydd yng hylch pa bryd y bydd gwasanaethau'r Cyngor yn dychwelyd i'r drefn arferol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £232m hyd yma i gynghorau yng Nghymru gwrdd â chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â delio â'r pandemig a'r incwm a gollwyd yn sgil cau gwasanaethau.

Dyweddodd y Cyngorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, fod y Panel, wrth ystyried yr adroddiad, yn teimlo ei fod yn darparu datganiad clir a hunanesboniadol o'r sefyllfa yn Chwarter 2 a nododd a chroesawodd y Panel y perfformiad cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd y Panel yn pryderu am yr ansicrwydd i'r dyfodol gan gynnwys y diffyg eglurder yng hylch cyllid y flwyddyn nesaf a'r blynnyddoedd i ddod.

Aeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 â'r Pwyllgor Gwaith trwy'r amrywiadau gwasanaeth sylweddol yn Chwarter 2, gan nodi bod disgwyl tanwariant o £1,595k yn y cyllidebau gwasanaeth oherwydd llai o alw am Wasanaethau Plant ac effaith cau ysgolion yn ystod y cyfnod Ebrill i Orffennaf, 2020 ar gyllidebau addysg ganolog. Mae cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu am incwm a gollwyd wedi'i gynnwys yng nghyfrifiadau Chwarter 2 ac mae hyn wedi cyfrannu at y sefyllfa well, yn enwedig o ran y Gwasanaeth Hamdden. Roedd disgwyl i nifer yr hawliadau am gymorth dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor godi'n sylweddol o ganlyniad i'r dirywiad economaidd yn sgil Covid - 19 ac er i'r haf weld cynnydd yn nifer yr hawlwyd mae'r sefyllfa wedi sefydlogi ers hynny ac mae nifer yr hawliadau wedi gostwng. Er y credir bod estyn y Cynllun Ffyrlo wedi helpu i leddfu'r pwysau mwyaf ar y cynllun, mae nifer yr hawliadau 2.7% yn uwch nag ar ddiwedd mis Mawrth, 2020 a bydd cost cwrdd â'r cynnydd yn nifer yr hawliadau yn disgyn ar y Cyngor. Mae incwm o'r Dreth Gyngor i lawr oddeutu 2% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd; mae'r broses orfodaeth wedi aildechrau ers hynny ond ni fydd effaith lawn peidio â thalu i'w gweld nes bod y broses casglu dyledion wedi'i chwblhau a hyd nes y bydd asesiad o ddyledion drwg wedi ei wneud.

O ran gwariant sy'n gysylltiedig â Covid-19 rhwng Ebrill a Medi, 2020 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor hyd yma wedi hawlio £3.28m am gostau ychwanegol sy'n codi o'r pandemig, ac mae Llywodraeth Cymru wedi talu £3.228m ohono. Mae'r balans sy'n weddill o £52k a ddangosir yn Nhabl 2 yr adroddiad bellach wedi'i dalu hefyd. Mae cais arall am 273k wedi'i gyflwyno ar gyfer mis Hydref, 2020. Mewn perthynas â chyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu am golli incwm o wasanaethau yn ystod y pandemig, mae balans o £591k ar ôl fel y gwelir yn nhabl 3 yr adroddiad. Fodd bynnag, dim ond ar adeg drafftio'r adroddiad y gwnaed yr hawliad ac fel arfer mae peth oedi rhwng cyflwyno cais a derbyn taliad. Gorffennodd y Swyddog trwy ddweud, er bod y sefyllfa ariannol yn galonogol ar gyfer y tymor byr iawn, fod y Cyngor yn awr yn mynd i chwarter heriol y gaeaf pan all, a phan fydd pwysau ar wasanaethau'n cynyddu - yn enwedig Gwasanaethau Priffyrrd ac Oedolion.

#### Penderfynwyd –

- **Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2020/21.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Nodi sefyllfa'r rhagleni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 yn Atodiad D yr adroddiad.**
- **Nodi monitro costau asiantaeth ac ymgynghoriaeth ar gyfer 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F yr adroddiad.**

#### 8. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2 2020/21

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2020/21.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y gwariant gwirioneddol hyd at 30 Medi, 2020 yn £10.521m yn erbyn gwariant a broffiliwyd o £13.688m, a hynny, i raddau helaeth, oherwydd effaith Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar gynnydd a'r gallu i gwblhau rhai cynlluniau. Fodd bynnag, mae mwyafrif y prosiectau ar darged i gael eu cwblhau o fewn y gyllideb. Gan gyfeirio at y broses aildendro ddiweddar ar gyfer y contract Gwastraff a ddyfarnwyd i Biffa, eglurodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid y cytunwyd fel rhan o'r trafodaethau contract y byddai'r Cyngor yn ariannu costau cyfalaf y cerbydau newydd, sef cyfanswm o £4.449m. Bydd hyn yn cael ei ariannu trwy Fenthysa Digymorth y ceisir cymeradynhaeth y Pwyllgor Gwaith ar ei gyfer, a bydd yn cynhyrchu cost refeniw blynnyddol rhwng £550k a £650k (yn dibynnu ar hyd y benthyciad) y bydd yn rhaid ei chymryd i ystyriaeth yng nghyllideb 2021/22. Mae manteision defnyddio'r dull hwn yn ddeublyg. Yn gyntaf, y Cyngor a fyddai'n parhau i fod yn berchen ar y cerbydau pe bai methiant i gwrrd â'r contract ac felly byddai modd parhau i'w defnyddio i gynnwl y gwasanaeth casglu gwastraff. Yn ail, gall y Cyngor ariannu prynu cerbydau ar gyfradd log is na'r contractwr sy'n golygu na fydd y costau benthyca yn cael eu trosglwyddo i'r trethdalwr.

Dyweddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid fod y Panel, wrth iddo ystyried sefyllfa gyfalaf Chwarter 2, wedi ymholi a fyddai'r oedi wrth symud ymlaen â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn arwain at golli cyllid grant; roedd y Panel wedi ei fodloni gan sicrwydd nad dyna fyddai'r achos.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y rhan fwyaf o'r tanwariant ar y rhaglen gyfalaf yn gysylltiedig â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion sydd wedi'i seibio hyd nes y ceir penderfyniad terfynol ar gyfluniad ysgolion yn ardal Llangefni, a'r Cyfrif Refeniw Tai lle mae'r pandemig wedi effeithio ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â thai. O ran y gweithgareddau tai, bydd y tanwariant ar wariant cyfalaf yn cario drosodd i'r flwyddyn nesaf ac yn achos y rhaglen moderneiddio ysgolion, mae llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y caniateir i gyllid nas defnyddiwyd ar gyfer rhaglen Band A lle mae un cynllun yn weddill, gael ei gario drosodd i'r rhaglen Band B. Yn ogystal â'r oedi a achosir gan y pandemig, gall tywydd gwael dros y gaeaf hefyd rwystro cynnydd ar brosiectau cyfalaf.

#### **Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn Chwarter 2.**
- **Cymeradwyo £4.449m o Fenthycia Digymorth mewn perthynas ag amodau'r Contract Gwastraff a ddyfarnwyd i Biffa yn unol â pharagraff 3.3.1 o'r adroddiad.**

#### **9. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 2 2020/21**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2020/21.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y sefyllfa refeniw ar gyfer yr ail chwarter yn dangos tanwariant o £324k. Mae'r incwm a ragwelwyd £100k yn is na'r gyllideb wreiddiol, a rhagwelir y bydd y gwariant £112k yn is na'r gyllideb wreiddiol. Mae gwariant cyfalaf £1,250k yn is na'r gyllideb broffiliadig ac mae'r gwariant a ragwelir £6,244k yn is na'r gyllideb. Mae'r diffyg a ragwelir felly (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £6,256k yn llai na'r gyllideb (gan ostwng y diffyg a gynnuniwyd i £823k) a hynny'n bennaf o ganlyniad i wariant cyfalaf is nag a gyllidebwyd. Mae'r CRT yn gyllideb sydd wedi ei chyfyngu i ddibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian ohoni i'r Gronfa Gyffredinol.

#### **Penderfynwyd nodi'r isod –**

- **Y sefyllfa a amlinellwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2020/21.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020/21.**

#### **10. SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AM 2021/22**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mewn perthynas â chyfrifo'r sylfaen dreth ar gyfer 2020/21.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y cyfrifiadau wedi'u gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddu Treth Gyngor (CT1 v.1.0) 2021/22 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn amrywiol fandiau ar y rhestr brisio ar 31 Hydref, 2020 a'u bod wedi eu crynhoi gan yr Awdurdod o dan Adran 22b(7) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cyfrifiadau'n cymryd i ystyriaeth ostyngiadau, eithriadau a phremiymau ynghyd â newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2021/22. Cyfanswm y sylfaen a gynigiwyd ar gyfer 2021/22 at ddibenion gosod treth yw 31,548.20. Mae hyn yn cymharu â 31,532.53 ar gyfer 2020/21 ac mae'n gynnydd o 0.05%.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod dwy elfen i'r cyfrifiadau, sef Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cymorth Refeniw sy'n cynnwys yr holl eiddo Treth Gyngor safonol ond nad yw'n cynnwys addasiadau ar gyfer

premiymau a gostyngiadau a roddwyd gan rai awdurdodau mewn perthynas â Dosbarthiadau A, B ac C. Cyfrifir bod y ffigwr hwn yn 30,880.22 sy'n ostyngiad o 0.15% ar ffigwr y flwyddyn flaenorol, sef 30,927.17 ac mae'r wybodaeth hon wedi'i hanfon at Lywodraeth Cymru. Yn ail, roedd cyfanswm y gostyngiad cyfwerth â band D a ddefnyddir at ddibenion gosod treth wedi'i addasu gan ddarpariaeth ar gyfer treth gyngor na fydd yn cael ei thalu, sy'n parhau i fod yn 1.5%, ac mae hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir bod y ffigwr fel y crybwylkir uchod yn 31,548.20 ac er ei fod wedi aros yn weddol sefydlog o 2020/21 mae'n gallu amrywio yn ystod y flwyddyn wrth i eiddo gael eu trosglwyddo o'r rhestr Dreth Gyngor ddomestig i'r rhestr cyfraddau busnes a hefyd wrth i anheddu gael eu prynu fel ail gartrefi lle codir premiwm ar eu cyfer. Mae nifer yr eiddo ar y rhestr Dreth Gyngor safonol wedi gostwng oherwydd cynnydd yn nifer yr ail gartrefi ac yn nifer yr eiddo gwag ac mae'r pandemig wedi cael effaith eleni ar allu pobl i osod, adnewyddu neu werthu eiddo sydd yn wag. Bydd adroddiad ar bremiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr, 2020.

### Penderfynwyd –

- **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2021/22, sef 30,880.22 (Rhan E6 o Atodiad A yn yr adroddiad).**
- **Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2021/22 (Rhan E5 o Atodiad A yn yr adroddiad).**
- **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddu) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrifo fel Sylfaen y Dreth am 2021/22 fydd 31,548.20 ac fel y nodir yn nhabl 3 am y rhannau hynny o'r ardal a restrir ynddo.**

### 11. BARGEN TWF DERFYNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Prif Weithredwr yn ymgorffori'r dogfennau allweddol sydd raid wrthynt i ddod i Gytundeb Terfynol ar gyfer Borgen Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a dywedodd fod y cam hwn yn y Cynnig Borgen Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn benllanw proses hir y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi chwarae rhan lawn ynddi.

Cytunodd y Prif Weithredwr fod hon yn garreg filltir arwyddocaol yn y broses Borgen Twf sy'n ffrwyth llawer iawn o waith dros gyfnod hir ac sydd hefyd yn dangos gwerth partneriaeth gref yn seiliedig ar gydweithrediad parod a dealltwriaeth rhwng partneriaid ar draws sectorau. Dywedodd fod diolchiadau'n ddyledus i Swyddogion sydd wedi gwasanaethu ar yr ystod o fyrrdau a oedd yn datblygu'r Cynnig Twf sydd wedi arwain at yr achlysur hanesyddol hwn; y gobaith yw y bydd y rhaglen hon o fuddsoddiad economaidd mawr y mae gwir angen amdano yn rhanbarth Gogledd Cymru yn cynhyrchu canlyniadau yn gyflym ar adeg pan fo pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddifrifol ar yr economi.

Dyweddodd y Dirprwy Brif Weithredwr, wrth gydnabod nad yw cyflogaeth a'r economi wedi'u cyfyngu i ardaloedd awdurdodau lleol a bod pobl a busnesau yn symud ar draws ffiniau, fod cynlluniau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni fwyfwy trwy strwythurau rhanbarthol. Mae cydweithio fel rhanbarth yn hwyluso denu cyllid ychwanegol ar lefel na fyddai'n bosib i'r chwe awdurdod lleol pe byddent yn gweithredu ar wahân ac ar eu pennau eu hunain. Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weithredwr at y buddion a'r buddsoddiadau economaidd a ddisgwylir i'r Ynys a'r tir mawr yn sgil y Fargen Twf, sef y rhaglen datblygu economaidd fwyaf a mwyaf arwyddocaol y mae'r rhanbarth wedi'i gweld ers dechrau'r cyfnod o lymder. Bydd y rhaglen yn canolbwytio ar gefnogi twf mewn sectorau gwerth uchel o ran cyflogaeth a'r farchnad lafur. Rhagwelir creu rhwng 3,000 a 4,000 o swyddi ychwanegol gan gynhyrchu dros £2b o Werth Ychwanegol. Gros ychwanegol y disgwylir iddo, yn ei dro, ddenu buddsoddiad o'r sector preifat gwerth £1b. Er bod nifer o brosiectau gweladwy iawn ar yr Ynys ar hyn o bryd ar ffurf Morlais, Porthladd Caergybi a Pharc Gwyddoniaeth Menai, mae yna ystod o brosiectau eraill yn y meysydd tai ac eiddo, TGCh, cludiant cynaliadwy ac ynni gwyrdd y gall yr ynys fanteisio arnynt i ddenu cyllid ychwanegol. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn llais cryf, cynhyrchiol a dylanwadol o fewn y model gweithio rhanbarthol hwn a'r gobaith yw y bydd y Flwyddyn Newydd yn gweld newid o'r cyfnod cynllunio a pharatoi i gyfnod lle bydd yr arian yn dechrau cael ei wireddu a'i wario.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 oblygiadau ariannol y Fargen Twf y mae dwy elfen iddi, sef costau refeniw rhedeg y rhaglen y cytunwyd y byddant yn cael eu rhannu rhwng y chwe awdurdod lleol a'r colegau, gyda Chyngor Ynys Môn yn cyfrannu £90k ynghyd â chynnydd blynnyddol ar gyfer chwyddiant. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi llwyddo i sicrhau cyllid Ewropeaidd sydd wedi helpu i gadw costau i lawr. Mae'r ail elfen yn cynnwys ariannu'r gwariant cyfalaf ar y prosiectau yn y rhaglen - mae bwlch cyllido dros dro tymor canol rhwng proffil gwariant disgwyliedig y Fargen Twf a phroffil disgwyliedig cyllid a dderbynir gan y Llywodraeth dros 15 mlynedd a fydd yn cael ei reoli trwy benthyca, h.y, bydd cyllid grant y Llywodraeth yn cael ei rannu dros 15 mlynedd tra bod gwariant ar y prosiectau yn debygol o ddigwydd o fewn y 6 blynedd cyntaf, gan adael bwlch cyllido a fydd yn cael ei bontio trwy benthyca. Wrth i'r cyllid ddod i mewn bydd y benthyca'n lleihau bob blwyddyn. Mae paragraff 2.5 yr adroddiad yn dangos cyfanswm cyfraniadau'r partneriaid (dros 15 mlynedd) i gwrdd â chost y benthyca gofynnol ar gyfer hwyluso'r llif arian negyddol tra bod paragraff 2.6 yn dangos cyfraniadau blynnyddol y partneriaid i gwrdd â chost benthyca gofynnol ar gyfer hwyluso'r llif arian negyddol. Mae'r cyfraniadau hyn yn ychwanegol at y cyfraniadau blynnyddol craidd ac atodol a ddangosir ym Mharagraff 2.7 o'r adroddiad (ymhelaethir ar y ffigyrâu yn y Cynllun Busnes a atodwyd). Mae amseru yn ffactor o ran benthyca, ynghyd â chyfraddau llog, sy'n golygu y gall y ffigyrâu newid; er enghraift pe bai'r Llywodraeth yn rhyddhau cyllid grant cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon neu'n gynnar yn y flwyddyn nesaf, byddai swm cyfalaf ar gael ar y cychwyn a fyddai felly'n lleihau'r gofyniad benthyca.

Amlinelloedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y goblygiadau cyfreithiol a'r trefniadau llywodraethu. Dywedodd pan fydd y Fargen Twf Derfynol yn cael ei chytuno a'i llawnodi gyda'r ddwy Lywodraeth y bydd Cytundeb Llywodraethu 2 newydd (CLI2 - a ddarparwyd yn llawn o dan Atodiad 4 gyda chrynodeb o dan Atodiad 3) yn disodli'r CLI1 cyfredol ac yn rheoleiddio'r bartneriaeth rhwng y 6 Chyngor Lleol yng Ngogledd Cymru a'r 4 Coleg trwy gydol cyfnod y Fargen Twf. Bydd y model gwleidyddol yn aros yr un fath ag ar gyfer CLI1, sef Bwrdd Uchelgais Economaidd (BUE) sy'n cynnwys Arweinyddion y 6 Chyngor yng Ngogledd Cymru ac y mae gan bob un ohonynt bleidlais. Bydd y 4 Coleg hefyd yn aelodau o'r BUE ond ni fydd ganddynt bleidlais gan fod y BUE yn gyd-bwylgor statudol. Bydd Arweinydd o bob un o'r 6 Chyngor yn cael eu penodi 'n Gadeirydd bob blwyddyn ond ni fydd ganddynt bleidlais fwrw. Os bydd anghytundeb ynghylch unrhyw eitem ar raglen y BUE bydd cyfnod cnoi cil a bydd yr eitem yn dychwelyd wedyn i'r BUE i'w hystyried ymhellach. Os na all y BUE ddod i gytundeb wedyn bydd y cynnig yn disgyn. Oherwydd y model cyd-bwylgor statudol y cytunwyd arno gan y partïon,

bydd y rhaglenni, yr adroddiadau a'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ac ar gael ar wefan y Cyngor.

O ran gweithredu, bydd y model Awdurdod Cynnal mewn grym fel y cytunwyd gan y partneriaid; Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod cynnal a bydd yn cyflawni swyddogaethau Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro yn ogystal â gwasanaethau AD, Archwilio a TGCh. Bydd y BUE yn gweithredu o dan Reolau Sefydlog a Rheolau Caffael Cyngor Gwynedd. Mae unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Busnes Cyffredinol, ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r CLI2, materion cyllidebol ac unrhyw bartneriaid sy'n ceisio gadael y BUE oll yn faterion a gedwir yn ôl a bydd angen i'r Cyngor llawn eu hystyried a'u cymeradwyo. Bydd yr aelodau etholedig ar y BUE yn dilyn eu Côd Ymddygiad Aelodau yn yr un modd ag y bydd Swyddogion a fydd yn gweithio i'r BUE yn dilyn eu côd hwythau. Bydd Polisi Gwrthdaro mewn grym ar gyfer cynrychiolwyr y Colegau gan nad oes ganddyn nhw Gôd Ymddygiad penodol. Bydd cofnodion penderfyniadau'n cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi a chyflwynir adroddiad chwarterol i bob partner a fydd yn adrodd ar gynnydd prosiectau unigol gan gynnwys eu perfformiad ariannol. Mae amodau'r Fargen Twf hefyd yn golygu bod rhaid cyflwyno adroddiad i Lywodraethau Cymru a San Steffan a bydd adroddiad blynnyddol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd. Nodir y trefniadau craffu yn Atodlen 3 CLI2 a bydd gweithdrefn galw i mewn ar waith sy'n debyg i'r un a weithredir yn y Cyngor.

Adroddodd y Cynghorydd G.O. Jones o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd ac a ystyriodd y Cynnig Bargen Twf Terfynol a lle cafwyd cyngor gan ddau gynrychiolydd o'r BUE. Trafodwyd y trefniadau ariannol, cyfreithiol a llywodraethu ac amlinellwyd y buddion a'r cyfleoedd economaidd sy'n debygol o ddeillio i Ynys Môn o'r Fargen Twf. Wrth ystyried y mater, roedd y Pwyllgor wedi codi goblygiadau Brexit a Covid 19 o ran addasiadau y gallai fod angen i'r BUE eu gwneud a cheisiodd eglurhad o ran aelodaeth y BUE ac, yn benodol, absenoldeb cynrychiolaeth o'r Undebau Llafur. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder hefyd ar y camau i'w cymryd pe bai gorwariant ar brosiect. Ar ôl derbyn sicrwydd ar y materion hyn, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r Cytundeb Cynnig Bargen Twf Terfynol.

Rhoddodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei bersbectif fel Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd a chroesawodd y cydweithrediad rhanbarthol a oedd yn sail i'r Cynnig Bargen Twf ac a oedd wedi'i wneud yn bosib, a chydnabu hefyd waith Swyddogion yn symud y Fargen ymlaen trwy wahanol gamau. Mae'r Cytundeb yn cynnig cyfleoedd ar raddfa na fyddai ar gael i'r awdurdodau pe baent yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac yn cynnig y gobaith o adfywiad economaidd ar gyfer Ynys Môn yn ogystal â'r rhanbarth ar adeg dyngedfennol.

#### **Penderfynwyd bod y Pwyllgor Gwaith –**

- **Yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol fel y ddogfen sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac yn argymhell bod y Cyngor Llawn yn ei gymeradwyo.**
- **Yn cymeradwyo'r darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 mewn perthynas â'r swyddogaethau gweithredol, ac yn argymhell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r darpariaethau mewn perthynas â swyddogaethau anweithredol, a'i fod yn benodol yn mabwysiadu'r dirprwyaethau a'r Cylch Gorchwyl yng "Nghytundeb Llywodraethu 2: Atodiad 1" ohono fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth Cymru.**
- **Yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymhell i'r Cyngor Llawn awdurdodi'r corff atebol, Cyngor Gwynedd, i arwyddo'r Llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid.**

- **Yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymhell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gost benthyca sydd ei angen er mwyn hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf ac i gynnwys darpariaeth o fewn cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi'u nodi yng Nghytundeb Llywodraethu 2 (GA2) (ac ym mharagraffau 2.5 - 2.7 yr adroddiad).**
- **Bod y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.**

## **12. CYNLLUN PEILOT CYFLENWI GWASANAETH AR Y CYD (CYLLIDEB GYFUN) CYNGOR SIR YNYS MÔN A BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR – ANABLEDDAU DYSGU**

*Oherwydd bod gan yr Arweinydd ymrwymiad arall, y Cynghorydd Ieuan Williams, yr Is-Gadeirydd, a gadeiriodd y cyfarfod am yr eitem hon a'r eitem ddilynol.*

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo ymrwymo i cynllun peilot ar gyfer cronfa gyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y gyllideb byw â chymorth i oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw yn Ynys Môn.

Amlinellwyd y cefndir gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, gan nodi bod y Cyngor yn bartner allweddol yn Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru a Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu - y Gogledd. Bydd cymeradwyo'r cynllun peilot arfaethedig yn golygu y gall y Cyngor wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni mesurau perfformiad allweddol yn llwyddiannus ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru, sef rhaglen y mae'r Strategaeth Anabledd Dysgu yn sylfaen iddi. Mae cronfeydd cyfun yn weithdrefn i sicrhau mwy o integreiddio o ran cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ac ystyrir ei bod yn arbennig o effeithiol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth. Mae'r weithdrefn gyfredol ar gyfer sicrhau cyllid iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i oedolion ag anableddau dysgu yn cynnwys dwy broses nad ydynt wedi'u halinio'n dda â'i gilydd. Y rhesymeg dros dreialu cronfa gyfun yw profi a gwerthuso a yw integreiddio'r prosesau hyn yn arwain at wasanaethau a chanlyniadau o ansawdd gwell i unigolion tra hefyd yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaeth.

O ran goblygiadau gweithredol y cynllun peilot arfaethedig, dywedodd y Swyddog y byddai cytundeb statudol Adran 33 yn cefnogi'r gronfa gyfun, ac y byddai'r cyfryw gytundeb yn amlinellu cyfrifoldebau ar y cyd, strwythurau rheoli, mesurau sicrhau perfformiad a sicrhau ansawdd, strwythurau llywodraethu ariannol a llywodraethu prosiectau. Bydd cam cyntaf y cynllun peilot yn cyfuno ymrwymiadau ariannol presennol y ddwy asiantaeth ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth i oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw yn Ynys Môn - 36 achos ar hyn o bryd. Cyfanswm y gwariant cyfredol ar gyfer BIPBC a'r Cyngor yw £3,166,201.87 - sef £1,346,723.81 i lechyd a £1,819478.06 i'r Cyngor. Bydd Rhaglen Trawsnewid Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd yn gwneud cyfraniad ariannol i'r gronfa gyfun unwaith y bydd y cynllun peilot yn weithredol er mwyn cynorthwyo i gyflawni yn y cyfnod cychwynnol. Er na fydd y goblygiadau ariannol i'r Cyngor a BIPBC yn cynyddu o ganlyniad i'r cynllun peilot, efallai y bydd raid cyfrannu at godiadau yn y maes byw â chymorth blynnyddol a'r maes anghenion cymorth gofal iechyd i unigolion fel y byddai'n digwydd waeth beth fo'r cynllun peilot. Bydd y gronfa gyfun yn cael ei dal a'i rheoli gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran y partneriaid a bydd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Anabledd Dysgu ac lechyd Meddwl yn dod yn rheolwr y gronfa gyfun sy'n gyfrifol am ddefnydd effeithiol o'r gronfa gyfun yn unol â'r Cytundeb adran 33.

Ar ôl ei lofnodi bydd y cytundeb mewn grym am un flwyddyn galendr ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw bydd yn destun adolygiad strategol ac ariannol gan Fwrdd Rheoli Partneriaeth sydd i'w sefydlu ar gyfer y cynllun peilot.

Rhoddodd y Cyngorydd G O Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio atborth o gyfarfod y Pwyllgor ar 10 Tachwedd, 2020 a oedd wedi ystyried y cynnig a dywedodd fod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros Dro ar nodau'r cynllun peilot ac amcanion cyflwyno cronfa gyfun. Esboniwyd y cefndir deddfwriaethol i'r Pwyllgor ac amlinellwyd y trefniadau llywodraethu. Nododd y Pwyllgor fod dadansoddiad risg wedi ei gynnal ar gyfer y prosiect ac y byddai'n destun proses adolygu flynyddol gan Fwrdd Rheoli Partneriaeth. Roedd y Pwyllgor wedi codi cwestiynau yngylch y gwerth ychwanegol yn sgil ymuno â'r cynllun peilot ac wedi gofyn a fyddai'n effeithio ar y gwasanaethau a dderbynir gan y 36 unigolyn y bydd y cynllun peilot yn berthnasol iddynt. Roedd y Pwyllgor wedi ceisio darganfod ymhellach a oedd unrhyw fentrau cyllido cyfun tebyg mewn grym ar hyn o bryd yng Nghymru a / neu Loegr ac a ydynt yn llwyddiannus. Ar ôl derbyn sicrwydd ar yr holl faterion a godwyd, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymhell y prosiect cronfa gyfun arfaethedig i'r Pwyllgor Gwaith.

Gan nodi sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini, roedd y Pwyllgor Gwaith yn gefnogol i'r cynllun.

#### **Penderfynwyd –**

- **Derbyn a nodi cynnwys Cynllun Peilot drafft Cyflenwi Gwasanaeth ar y Cyd (Cyllideb Gyfun) Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Anableddau Dysgu**
- **Cymeradwyo treialu cronfa gyfun rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gyflwynir gam wrth gam, ar gyfer y gyllideb byw â chymorth bresennol ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu sy'n byw ar Ynys Môn ac sy'n cael eu cyllido ar y cyd ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu cytuno ar gymeradwyo cam 1 yn y lle cyntaf.**
- **Bod adran Gyfreithiol CSYM yn darparu barn annibynnol parthed y cytundeb Adran 33.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo i'r Swyddog Monitro yr hawl i gwblhau'r cytundeb adran 33 ac i'r Swyddog 151 yr hawl i gytuno'r trefniadau ariannol gyda BIPBC i sicrhau fod yr arian yn cael ei rheoli'n gywir ac yn effeithiol.**

### **13. DIWYGGIO'R BROSES GYFANSODDIADOL MEWN PERTHYNAS Â GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â diwygio'r broses Gyfansoddiadol mewn perthynas â gosod cyllideb y Cyngor

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor y cynigir gofyn i'r Cyngor gytuno i ddiwygio'r Cyfansoddiad fel bod hyblygrwydd wedi'i ymgorffori yn yr amserlen gyfansoddiadol mewn perthynas â'r broses gosod cyllideb. Gwneir y cais yn dilyn cadarnhad y bydd y setliadau dros dro a therfynol i Lywodraeth Leol ar gyfer 2021/22 yn cael eu cyhoeddi'n hwyr eto fel yn 2020/21. Bryd hynny, cytunodd y Cyngor i atal paragraff 4.3.2.2.8 o'r Cyfansoddiad er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith lai na phythefnos cyn i'r Cyngor fabwysiadu'r gyllideb flynyddol ar 10 Mawrth, 2020. Roedd yr oedi mewn perthynas â chyhoeddi'r setliad yn golygu y bydd angen diwygio'r broses gosod cyllideb unwaith eto ar gyfer cyllideb 2021/22 gan na fydd yn ymarferol bosib dilyn yr amserlen a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae diwygio'r Cyfansoddiad fel bod

hyblygrwydd wedi'i ymgorffori yn yr amserlen gyfansoddiadol yn golygu bod yr hyblygrwydd hwn ar gael wedyn pe bai'n rhaid i'r Cyngor addasu'r broses gosod cyllideb am resymau y tu hwnt i'w reolaeth fel yn 2020/21, fel sy'n ofynnol ar gyfer 2021/22, a phe bai sefyllfa debyg yn codi yn y blynnyddoedd i ddod.

**Penderfynwyd argymhell bod y Cyngor Llawn yn cytuno -**

- Bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 9 yr adroddiad, a**
- Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r diwygiadau a gymeradwywyd yn y pwynt bwled uchod.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi  
Cadeirydd**

## Y PWYLLGOR GWAITH

### Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2020

<b>PRESENNOL:</b>	Y Cyngropydd Llinos M Huws (Cadeirydd) Y Cyngropydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)
	Y Cyngorwyr R Dew, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams.
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Pennaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Hamdden Masnachol (ar gyfer eitem 6), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Y Cyngorwyr Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, Dafydd Roberts.
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Dim

#### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus gan y Cyngropydd Richard A Dew mewn perthynas ag Eitem 5 - Premiymau Treth Gyngor - Ail Gartrefi ac Eiddo sydd wedi bod yn wag am Gyfnod Hir (Adolygiad) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

#### 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

#### 3 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ymgorffori Blaenraglen y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Ionawr ac Awst, 2021 a nodwyd y newidiadau canlynol:-

**Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Ionawr, 2021 i gwblhau cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb ddrafft i bwrpas ymgyngħori.**

**Eitemau a ailraglennwyd**

**Eitem 22 - Cyflwyno Galw Gofal - Taliadau Cyswllt Gofal ar gyfer Tenantiaid Tai Cyngor (eitem y bwriedir ei thrafod yng nghyfarfod 22 Mawrth, 2021 - i'w gadarnhau)**

**Eitem 4 - Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20** (eitem y bwriedir ei thrafod yng nghyfarfod 25 Ionawr, 2021)

**Eitem 5 - Cwrs Golff Llangefni** (eitem wedi'i hailraglennu i'w thrafod rhwng 25 Ionawr, 2021 a 15 Chwefror, 2021).

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Ionawr i Awst, 2021 fel y'i cyflwynwyd.**

#### **4 RHEOLI'R TRYSORLYS – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2020/21**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn ymgorffori Adolygiad Canol Blwyddyn mewn perthynas â Rheoli'r Trysorlys .

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod yr Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys yn cael ei gyflwyno'n unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21 (Atodiad 8 o'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21). Mae'r adroddiad yn cyfeirio at sefyllfa gwariant cyfalaf y Cyngor a'i gydymffuriaeth â dangosyddion darbodus, ynghyd â'i weithgareddau buddsoddi a benthycia hanner ffordd trwy'r flwyddyn ariannol. Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, craffwyd ar yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2020. Cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor Llawn gan gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a wneir arno gan y Pwyllgor Gwaith.

Tynnwyd sylw at y canlynol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 -

- Bod yr adroddiad adolygu canol blwyddyn wedi cael sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a bod y cyfryw bwyllgor wedi ei dderbyn heb wneud sylwadau pellach arno.
- Roedd pryderon ar ddechrau'r flwyddyn ariannol o ran llif arian oherwydd y pandemig Covid-19 a'r effaith ar allu'r Cyngor i dalu am wasanaethau. Benthycodd y Cyngor £10m ym mis Mawrth gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) i sicrhau bod adnoddau ar gael i'r Cyngor fedru gweithredu. Fodd bynnag, oherwydd cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru fe ddaru'r sefyllfa wella wrth i Lywodraeth Cymru gynnig grantiau busnes ac oherwydd bod y taliad Grant Cynnal Refeniw wedi'i wneud cyn y dyddiad cau. Oherwydd hynny bu gan y Cyngor falansau o £50m sy'n uwch na'r terfyn a gymeradwywyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a nodir yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol mae'r Cyngor wedi rhoi benthyciadau i Awdurdodau Lleol eraill fel y nodwyd yn yr adroddiad, gan mai dyma'r ffordd fwyaf diogel o fuddsoddi arian, gan sicrhau bod y symiau a adneuwyd mewn cyfrifon o fewn y terfynau a osodwyd yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli

Trysorlys ar gyfer 2020/21 a gan sicrhau enillion sy'n uwch nag a geir o'r mwyafrif o gyfrifon banc. Y balans cyfredol yw £30m ond bydd raid i'r £10m a fenthycwyd ym mis Mawrth 2020 gael ei ad-dalu ym mis Mawrth 2021.

- Rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor gael benthyg arian i dalu am gerbydau casglu gwastraff newydd fel rhan o'r contract casglu gwastraff newydd ym mis Mawrth 2021.
- Mae'r gwariant cyfalaf yn is gan nad yw prosiectau wedi symud ymlaen oherwydd y pandemig;
- Roedd y Cyngor wedi cydymffurfio â'r terfynau a'r dangosyddion darbodus a nodir yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21.

**Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Llawn heb wneud sylwadau pellach.**

## **5 PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR - AIL GARTREFI AC EIDDO SYDD WEDI BOD YN WAG AM GYFNOD HIR (ADOLYGIAD)**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn adolygu gweithrediad Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir .

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid y gwnaed penderfyniad i gynyddu swm uwch y dreth gyngor (a elwir yn bremiwm Treth Gyngor) a fyddai'n dod i rym o 1 Ebrill 2019. O'r dyddiad hwn, cytunodd y Cyngor llawn i osod premiwm Treth Gyngor a oedd yn cyfateb i 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar gyfer anheddu sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir, a 35% ar gyfer anheddu y mae pobl yn byw yn dyddiント o bryd i'w gilydd, a elwir fel arfer yn ail gartrefi. Nododd fod nifer o berchenogion eiddo yn ystod y flwyddyn hon wedi 'symud' eu tai o'r rhestr treth gyngor i'r rhestr trethi busnes, sy'n golygu na fydd y perchnogion yn gorfol talu unrhyw drethi. Mae'r Cyngor wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddi adolygu'r rheoliadau trethiant er mwyn gostwng nifer y cartrefi sy'n cael eu cofrestru ar gyfer trethi busnes ond mae LIC wedi anwybyddu'r cais gan ei bod o'r farn nad yw hon yn broblem. Galwodd yr Aelod Portffolio Cyllid ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau a diwygio'r dreth trafodion tir i sicrhau bod y lefel yn uwch ar gyfer ail gartrefi ac i ystyried treth twristiaeth fel sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r byd er mwyn denu cyllid i fedru lleihau pwysau ar wasanaethau o fewn awdurdodau lleol sy'n gweld eu poblogaethau'n cynyddu, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Nododd ymhellach gan fod cyfleusterau hunanarlwyo'n gymwys i gael Cymorth Ardrethi Busnesau Bach mae hynny'n golygu'n aml nad oes dim cyfraniad o gwbl i goffrau'r awdurdodau lleol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid mai penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yw peidio cynyddu Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer Ail Gartrefi ac Eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2021/2022, ond ei fod yn bwriadu cynyddu'r premiwm ar gyfer ail gartrefi i 50% o Ebrill 2022. Dywedodd fod angen parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r rheoliadau cyfredol ac i gyflwyno dulliau trethiant newydd er mwyn gostwng nifer yr ail gartrefi ar yr Ynys ac i ddarparu cyllid ychwanegol i helpu i gefnogi prosiectau lleol sydd â'r nod o helpu pobl ifanc Ynys Môn i allu prynu neu rentu eu cartref eu hunain ar yr Ynys.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai pwrpas yr adroddiad oedd adolygu premiwm y Dreth Gyngor ers penderfyniad diwethaf y Cyngor llawn ar 27 Chwefror, 2019 a hefyd ystyried effaith pandemig Covid-19 ar sylfaen Treth Gyngor y Cyngor a'r symudiadau o'r Rhestr Dreth Gyngor i'r Rhestr Trethi Busnes ac yn benodol ar gyfer ail gartrefi / llety gwyliau sy'n cael eu gosod. Dywedodd y bu cynnydd yn nifer y cartrefi gwag yn ystod y pandemig ond mae hyn o ganlyniad i bobl yn methu atgyweirio / gwerthu eu heiddo. Mae nifer yr ail gartrefi ar yr Ynys wedi aros yr un fath ac ar lefel gyson er gwaethaf y ffaith bod 221 eiddo wedi trosglwyddo i'r rhestr trethi busnes ac wedi cael eu tynnu oddi ar y Rhestr Treth Gyngor rhwng Ebrill - Hydref eleni. Dywedodd hefyd fod nifer yr eiddo sy'n talu'r Dreth Gyngor safonol wedi gostwng. Roedd eiddo ym Mand C ac uwch yn dod yn ail gartrefi ond roedd y gostyngiad hwn yn y niferoedd yn cael ei wrthbwys o'r rhannol gan y ffaith bod yr Awdurdod yn adeiladu tai cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd yr eiddo newydd yn tueddu i fod ym Mandiau A a B ac mae hyn wedi arwain at erydiad yn sylfaen y dreth gyngor safonol. Mae symud eiddo o'r Rhestr Treth Gyngor i'r Rhestr Trethi Busnes wedi arwain at ostyngiad tybiedig o £700,000 mewn refeniw o'r Dreth Gyngor, er bod rhan o'r swm hwn yn cynnwys ad-daliadau a wnaed i drethdalwyr am unrhyw Dreth Gyngor a dalwyd ganddynt a oedd yn ymwneud â'r cyfnod ar ôl trosglwyddo'r eiddo i'r rhestr trethi busnes. Dywedwyd hefyd nad oedd y cynnydd o 25% i 35% yn y premiwm ar gyfer ail gartrefi wedi arwain at nifer fawr o bobl yn gwrtihod talu ac mai dim ond ychydig o apeliadau a gafwyd ac nid oedd wedi arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion. Yn ystod pandemig Covid-19 bu cynnydd yn nifer y perchnogion ail gartrefi sydd wedi cyflwyno apêl gan na allant ddod i'w hail gartrefi ac sydd wedi gofyn felly i gael eu heithrio rhag talu'r premiwm dros y cyfnod clo. Barn y Cyngor oedd nad oedd methu â theithio i'w heiddo yn rheswm dilys i ganiatáu eithriad a gwrtihodwyd pob apêl. Derbyniwyd hyn gan y mwyafrif helaeth ac maent wedi parhau i dalu'r premiwm a godwyd.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ymhellach fod y Cyngor wedi cymeradwyo polisi ar gyfer gweithredu dau gynllun i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i gael troed ar yr ysgol dai, gyda'r cynlluniau'n cael eu hariannu o gyfran o'r Premiwm Treth Gyngor a godir ar dai sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Tai fod y ddau gynllun y cyfeirir atyt yn grant i helpu prynwyr tro cyntaf i brynu ac adnewyddu cartref gwag a benthyciad ecwiti i helpu prynwyr tro cyntaf i fforddio eiddo. Mae'n amlwg bod y cynlluniau wedi bod yn llwyddiannus oherwydd bod y galw wedi bod yn uwch na'r cyllid a ddyrannwyd gan y Cyngor a gwelwyd pobl ifanc yn gallu prynu cartref yn eu cymunedau lleol.

Ailadroddodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith bod angen rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r rheoliadau presennol a chyflwyno dulliau trethiant newydd i ostwng nifer yr ail gartrefi ar yr Ynys sy'n achosi i bobl ifanc Ynys Môn fethu â fforddio cartref yn eu cymunedau eu hunain.

- **Nodi cynnwys yr adroddiad sy'n adolygu gweithrediad Premiwm y Dreth Gyngor ers penderfyniad Cyngor Sir Ynys Môn ar 27 Chwefror 2019 i gynyddu premiymau Treth Gyngor o 1 Ebrill, 2019 i 100% ar gyfer eiddo gwag tymor hir a 35% ar gyfer ail gartrefi;**
- **Nodi effaith pandemig Covid-19 ar sylfaen y Dreth Gyngor a phremiymau Treth Gyngor;**
- **Parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r rheoliadau presennol ac i gyflwyno dulliau trethiant newydd er mwyn lleihau nifer yr ail gartrefi ar yr Ynys ac i ddarparu cyllid ychwanegol i helpu i gefnogi prosiectau lleol sydd â'r nod o helpu pobl ifanc Ynys Môn i allu prynu neu rentu eu cartref eu hunain ar yr Ynys;**
- **Cyhoeddi'r bwriad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i o leiaf 50% o Ebrill 2022;**
- **Y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu i'r Swyddogaeth Adnoddau er mwyn sicrhau bod yr holl berchenogion eiddo a ddylai dalu'r premiwm yn cael eu nodi a'u gwneud i dalu'r dreth yn llawn;**
- **Y bydd balans yr arian ychwanegol a gynhyrchir o gynyddu'r premiwm yn cael ei gyfeirio tuag at gynlluniau a fydd yn helpu pobl leol i allu fforddio prynu neu rentu eiddo ar yr Ynys;**
- **Y bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad llawn ar ei fwriad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 50% a'i gynlluniau ychwanegol i helpu pobl leol, gyda thrigolion Ynys Môn, perchnogion ail gartrefi ar yr Ynys a gweithredwyr llety hunanarlwyo , rhwng Ebrill a Mehefin 2021, gyda'r penderfyniad terfynol ar lefel y premiwm i'w wneud gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021.**

## **6 CHWARAEON GOGLEDD CYMRU – ACHOS BUSNES**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro yn ceisio cefnogaeth i sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru .

Dyweddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd mai hwn yw'r Achos Busnes i greu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru. Mae'r weledigaeth ar gyfer Chwaraeon Gogledd Cymru wedi'i datblygu trwy bartneriaeth gydweithredol newydd sy'n cynnwys nifer o fudiadau sydd wedi hen sefydlu ac sy'n gweithredu ledled y rhanbarth ac sy'n rhannu uchelgais i weithio gyda'i gilydd ac i wneud newid a chael effaith sylweddol a fydd o fudd i bobl Gogledd Cymru.

Dyweddodd y Rheolwr Hamdden Masnachol y rhagwelir y bydd Chwaraeon Gogledd Cymru wedi'i sefydlu'n gadarn fel corff rhanbarthol effeithiol a chryf. Bydd Chwaraeon Gogledd Cymru yn ychwanegu gwerth ac yn sbarduno newid o ran comisiynu a chyflawni cymunedol trwy weithio'n agosach gyda'r cymunedau hynny ac oddi mewn iddynt. Bydd y Bartneriaeth yn mynd i'r afael â phroblemau iechyd mewn cymunedau lleol oherwydd gordewdra ac yn enwedig gordwedra ymysg plant o oed cyn-ysgol. Nododd mai Cyngor Conwy fydd yr Awdurdod arweiniol mewn perthynas â Phartneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru a bod adran gyfreithiol yr Awdurdod hwn wedi bod yn gweithio'n agos ag ef o ran yr Achos Busnes. Dywedodd ymhellach y bydd polisi laith Cymraeg yn cael ei sefydlu gan

Bartneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru ond mae risg gan nad yw'r polisi wedi ei sefydlu ar hyn o bryd.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru ond dywedodd bod angen i bolisi iaith Gymraeg fod ar waith ac nid yw bod â Swyddogion sy'n gallu siarad Cymraeg ar hyn o bryd yn sicrhau y gellir cwrdd â'r gofynion iaith Gymraeg ar gyfer y blynnyddoedd i ddod.

- **Cefnogi, mewn egwyddor, sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru;**
- **Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro gwblhau'r Cytundeb Rhwng yr Awdurdodau mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr a dod â'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith os oes unrhyw bryder y bydd y cyfryw gytundeb yn niweidio gofynion y Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am

**Y CYNGHORYDD LLINOS M HUWS  
CADEIRYDD**

## Y PWYLLGOR GWAITH

### Cofnodion y cyfarfod arbennig rhithwir a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2020

**PRESENNOL:**

Y Cyngħorydd Llinos Medi (Cadeirydd)  
Y Cyngħorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)

Y Cyngħorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones,  
Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys  
Thomas, Robin Williams

**WRTH LAW:**

Prif Weithredwr  
Dirprwy Brif Weithredwr  
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog  
Monitro  
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid  
Pennaeth Priffyrrd, Eiddo a Gwastraff  
Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd  
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad  
Rheolwr Gwasanaethau Pensaerniol (GWT)  
Prif Swyddog Prisio (TDE)  
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU:**

Dim

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Cyngħorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor  
Li.Hughes, MBE, Aled Morris Jones, G O Jones, R. Llewelyn  
Jones, R O Jones, Dylan Rees, Cyfarwyddwr Dros Dro -  
Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwr Sgrιwtini (AGD),  
Swyddog Sgrιwtini (SR), Swyddog Cyfathrebu (GJ), Mr Gareth  
Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol).

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod arbennig rhithwir hwn o'r Pwyllgor Gwaith a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain.

#### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus gan y Cyngħorydd Richard Dew mewn perthynas ag eitemau 4 a 6 ar y rhaglen a gadawodd y cyfarfod pan ystyriwyd y materion hynny.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu gan y Cyngħorydd R.G.Parry, OBE, FRAgS mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu gan Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mewn perthynas ag eitem 3 ar y rhaglen.

## **2. MATERION BRYNS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Nid oedd unrhyw faterion brys i adrodd arnynt.

## **3. MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI (YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG)**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r rhaglen moderneiddio ysgolion ar gyfer ardal Llangefni i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ym mis Chwefror / mis Mawrth 2020 ar Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig ac yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r opsiwn a ffefrir sef *cynyddu capaciti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.*

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc a dywedodd fod yr adroddiad yn delio â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion fel y mae hi'n berthnasol i Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig a'i fod yn pwysa a mesur dyfodol y ddwy ysgol a'r effaith ar yr holl randdeiliaid o ganlyniad, ac yn arbennig ar y plant yn y ddwy ysgol. Pwysleisiodd mai buddiannau'r plant ddylai fod y brif ystyriaeth yn y mater hwn. Wrth gydnabod y gall moderneiddio ysgolion fod yn fater dadleuol a'i fod ymhliith agweddau mwyaf heriol gwaith y Cyngor, dywedodd ei fod yn deall ac yn sylweddoli pryderon rhieni ac eraill mewn perthynas â'r mater hwn. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol ysgolion dros yr 50 mlynedd nesaf ar adeg pan maent dan bwysau oherwydd toriadau cyllidebol, costau cynnal a chadw beichus, cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Newydd a sawl ffactor arall yn ogystal ag effaith Covid. Rhaid i'r Cyngor ystyried o ddifrif sut y gellir gwneud y system ysgolion yn fwy effeithiol yn yr ystyr o greu'r amodau lle gall athrawon a disgyblion ffynnu a hefyd sut y gellir ei gwneud yn fwy effeithlon o ran gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau bod pob ysgol yn derbyn ei chyfran deg o'r gyllideb. Mae strategaethau eraill yr Awdurdod y mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn gysylltiedig â hwy yn cynnwys Dogfen Gyflawni 2019/20, y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion fel y'i diwygiwyd a'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn 2018 (gyda'r cynnig cyfredol yn ffurfio rhan o Fand B y Strategaeth); Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2015-20; y Strategaeth Ynni; y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd; y Strategaeth Iaith Gymraeg a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

Rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth, 2020 cynhaliodd swyddogion y Cyngor ymgynghoriad statudol ar ddyfodol y ddwy ysgol dan sylw. Awdurdodwyd swyddogion i gynnal yr ymgynghoriad ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y papur cynnig ym mis Ionawr, 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar y diwrnod ysgol olaf cyn y cyfnod clo cyntaf o ganlyniad i'r pandemig byd-eang a drawsnewidiodd y ddarpariaeth addysg am gyfnod. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei bod yn bwysig nodi bod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rhoi estyniad i'r Cyngor tan fis Mawrth, 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig. Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 trwy gydol cyfnod y pandemig.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y gyrrwr allweddol ar gyfer newid sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018 sy'n cynnwys gwella safonau addysgol; gwella arweinyddiaeth a rheolaeth; sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas at y diben; lleihau nifer y lleoedd gweigion; lleihau cost gyffredinol addysg a'r amrywiad mewn cost fesul disgybl; cynnal a gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol.

Wrth gloi ei gyflwyniad i'r adroddiad, dywedodd yr Aelod Portffolio dros Addysg ei fod yn dymuno achub ar y cyfreith i ddioch i bawb a gymerodd ran yn y broses ymgynghori.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc sylw at brif bwyntiau'r adroddiad a dywedodd fod proses ymgynghori statudol wedi'i chynnal rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth, 2020 ar y cynnig i gynyddu capaciti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig (sef y cynnig gwreiddiol). Cadarnhaodd, yng ngleuni'r holl ymatebion ymgynghori a'r asesiadau effaith mewn perthynas â'r cynnig, yr ystyri'r mai'r cynnig hwn yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen a'r opsiwn sy'n cael ei argymhell i'r Pwyllgor Gwaith. Esboniodd fod nifer o opsiynau amgen wedi eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori ac roedd dadansoddiad ohonynt yn adran 6 yr adroddiad. Derbyniodd y Cyngor 57 o ymatebion ar-lein a 10 ymateb ar ffurf llythyrau ac e-byst gydag unigolion a sefydliadau cymunedol yn ymateb i'r ymgynghoriad (crynodeb yn adran 5 yr adroddiad ysgrifenedig). Fel rhan o'r broses derbyniwyd modelau addysgol eraill (mae adran 6.4 yr adroddiad yn cyfeirio at y rheini) ac fe'u haseswyd gan swyddogion yn erbyn meini prawf a gyrrwyr y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion gyfredol. Ar ôl ystyried yr holl ddewisiadau amgen ac yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o'u cryfderau a'u gwendidau yn erbyn gyrrwyr y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, ystyri'r mai'r cynnig gwreiddiol yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen oherwydd ei fod yn cwrdd â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig a hefyd yn bodloni'r gyrrwyr allweddol dros newid a nodir yn y Strategaeth fel a ganlyn –

- Rhaid i safonau ym mhob ysgol fod yn dda neu'n ardderchog o leiaf a byddai disgwyli iddynt fod yn y categori gwyrd sydd angen y lefel isaf o gefnogaeth. Byddai'r ysgol estynedig newydd mewn sefyllfa i gynnal y radd a ddyfarnwyd gan Estyn a chadw'r categoreiddiad gwyrd yn y tymor canol i'r tymor hir.
- Rhaid i arweinyddiaeth a rheolaeth fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Mae angen digon o amser digysyllt ar benaethiaid i gydwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth gydag ymrwymiad addysgu. Rhagwelir na fyddai gan y Pennaeth unrhyw ymrwymiad addysgu yn yr Ysgol Y Graig estynedig newydd. Byddai modd adeiladu a datblygu uwch dîm rheoli ymhellach, a allai wella arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Mae angen i adeilad yr ysgol ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog yr holl ddisgyblion i gyrraedd eu potensial ar draws pob maes dysgu a rhaid iddo gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd. Dylunmir adeilad newydd yr unfed ganrif ar hugain a chanddo gostau cynnal a chadw isel ac a fydd yn cwrdd â manylebau BREEM ac yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb, 2010. Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y ddwy ysgol, sef £408,500, yn cael eu dileu.
- Mae angen i ddigon o leoedd ysgol fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â'r galw cyfredol, y niferoedd o ddisgyblion a ragwelir i'r dyfodol ac i leihau nifer y lleoedd gweigion. Mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn a'r tu allan i'r dalgylch. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu digon o leoedd yn Ysgol y Graig yn ogystal â galluogi disgyblion o Ysgol Talwrn i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn llai. Bydd llai o ddisgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd.
- Mae angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn gost-effeithlon ac mae angen iddi hefyd leihau'r amrywiad mewn cost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol. Byddai'r gost amcanol fesul disgybl yn yr ysgol estynedig newydd o £3,436 (yn seiliédig ar gyllideb 2019/20) yn dileu'r amrywiad mewn cost fesul disgybl rhwng Ysgol Talwrn (£4,553) ac Ysgol Y Graig (£3,429) ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd Ynys Môn (£3,988). Mae'r cynnig yn golygu cost refeniw ychwanegol o oddeutu £33k y flwyddyn, (darperir manylion yn adran 7) ond mae'n dileu costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £408,500 y byddai'n costio £32,000 y flwyddyn i'r Cyngor eu hariannu trwy fenthyciad digymorth dros gyfnod o 20 mlynedd. Felly gellir dod i'r casgliad bod y cynnig yn agos at fod yn gost niwtral.
- Ar y lleiaf, byddai'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg dda bresennol yn cael ei chynnal.
- Byddai'r gymuned ehangach yn parhau i elwa o'r defnydd o'r adeilad ysgol estynedig newydd.

Adroddodd y Swyddog ymhellach fod asesiadau effaith mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb, Iaith, y Gymuned a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u cynnal a'u bod ynghlwm wrth yr adroddiad ymgynghori. Mae nifer yr ymatebion i'r cwestiwn asesiad effaith yn rhoi sicrwydd o 95% bod yr ymateb yn gywir ac yn cyd-fynd â theimladau gweddill yr ymatebwyr yr ymgynghoriad. Mae lefel hyder o 95% yn golygu pe bai'r arolwg yn cael ei gynnal 100 gwaith, byddai'r un canlyniadau'n cael eu darparu 95% o'r amser. Mae'r Asesiad Effaith yn parhau i fod yn ddogfen fyw ac fe'i diweddarwyd i gynnwys sylwadau rhanddeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol; bydd yn parhau i gael ei ddiweddarau'n rheolaidd trwy gydol y cyfnod datblygu, ac felly pe bai risg / mater arall yn codi, gall y Cyngor, mewn partneriaeth â'r gymuned leol, roi mesurau lliniaru ar waith i oresgyn y risg neu'r mater sy'n codi. Bydd y trefniant hwn mewn grym trwy gydol y cyfnod datblygu a bydd yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau.

Amcangyfrifir bod cost adeiladu'r ddarpariaeth newydd arfaethedig oddeutu £6m. Os cymeradwyir y cynnig, bydd yn cael ei ariannu gan gyfraniad o 65% gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyfraniad o 35% gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc , felly, wrth gloi, yr argymhellir cynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgylion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, adroddodd y Cyngorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriftini Corfforaethol, o gyfarfod y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr, 2020 a roddodd sylw i'r adroddiad ymgynghori a'r cynnig a argymhellir. Dywedodd y Cyngorydd Jones fod y Pwyllgor wedi clywed gan Mr Robat Idris Davies a oedd wedi cyflwyno sylwadau ar ran Ysgol Talwrn a'r gymuned i gadw'r ysgol ar agor ar y sail ei bod yn ysgol hapus a bodlon sy'n gwneud yn dda yn addysgol ac yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan ei chymuned. Roedd yr Aelod Portffolio dros Addysg a'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc wedi cyflwyno'r achos dros newid gan ddyfynnu nifer y disgylion yn Ysgol Talwrn, y cyfyngiadau amser ar gyllid grant Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a'r cyfleoedd a'r ddarpariaeth addysgol gwell a fyddai ar gael i ddisgylion o Ysgol Talwrn yn yr Ysgol Y Graig estynedig newydd ymhliith y rhesymau dros yr opsiwn a ffefrir. Codwyd pryderon ynghylch dyfodol y ddarpariaeth Cylch Meithrin a'r Eisteddfod leol pe bai Ysgol Talwrn yn cau. Trafododd y Pwyllgor y mater am gryn amser a chyflwynwyd dau gynnig, sef un i ffederalleiddio Ysgol Talwrn gydag Ysgol Y Graig neu Ysgol Corn Hir a'r llall i gefnogi'r cynnig a argymhellwyd h.y. ehangu Ysgol Y Graig i gymryd disgylion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd y ddwy ysgol; cariwyd yr olaf o'r ddua trwy bleidlais fwyafrol a gwnaed argymhelliaid i'r perwyl hwnnw i'r Pwyllgor Gwaith. Er codi ymholiad am y broses wrth symud ymlaen yn sgil cadarnhad y byddai cyfnod clo arall yn y Flwyddyn Newydd, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor na fyddai'r broses yn cael ei heffeithio.

Eglurodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod Llywodraeth Cymru, ar adeg y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 pan oedd ysgolion ar gau, wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol a oedd yn mynd trwy'r broses ad-drefnu, a bod y cyfryw ganllawiau wedi cyflwyno mân newidiadau yn y disgwyliadau mewn perthynas ag ymgynghori. Roedd y canllawiau yn weithredol hyd at 25 Gorffennaf ac mae'r ysgolion wedi ailagor ers hynny ac ni wnaed unrhyw newidiadau pellach. Yn ôl y canllawiau a dderbyniwyd, mae Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn parhau i fod yn effeithiol a dyma'r arweiniad y mae'r Awdurdod wedi bod yn ei ddilyn. Mae'n bwysig nodi, pe bai'r cynnig a argymhellir yn cael ei gymeradwyo, fod cam nesaf y broses yn cynnwys cyhoeddi rhybudd statudol yn y Flwyddyn Newydd ac ar ôl hynny bydd cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau; nid yw hyn yn cynnwys ymgynghori ac nid yw'n gyfnod ymgynghori 'chwaith. Mewn ymateb i gais gan y Cyngorydd Alun Mummary, eglurodd y Swyddog ymhellach fod y broses yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod

gyhoeddi rhybudd statudol ar wefan y Cyngor ac yn yr ysgol a sicrhau bod partneriaid a chyrrf statudol yn ymwybodol o'i gyhoeddi. Mae'r cyfnod o 28 diwrnod yn rhoi cyfle i gyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynnig ac ar ôl hynny mae disgwyli i'r Awdurdod baratoi adroddiad gwrthwynebiad (os derbyniwyd rhai) i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, ymatebodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn –

Gofynnodd y Cyngropydd Robin Williams, er budd eglurhad ac ar ôl derbyn nifer o ymholaadau gan randdeiliaid Ysgol Talwrn ar y mater, fod y Swyddogion yn darparu trosolwg o'r sefyllfa yn Ysgol Talwrn o ran niferoedd disgylion a chapasiti. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, at ddibenion ymgynghori, fod nifer y disgylion yn cael ei hystyried ar sail cyfnod o flynyddoedd yn ôl i 2015 ac yn edrych ymlaen i 2024 er mwyn sefydlu tueddiadau a phatrymau symud. Daeth yn amlwg, ar gyfer y cyfnod 2015 i 2020, fod nifer y disgylion yn Ysgol Talwrn wedi gostwng o 44 yn 2015 i 40 yn 2020 yn erbyn capasiti 'r ysgol gyfan o 49 o ddisgylion. Rhagwelir y bydd y gostyngiad hwn mewn niferoedd yn parhau yn 2022 a 2023 i 27 o ddisgylion yn 2023. Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan system rheoli gwybodaeth SIMS y Gwasanaeth Dysgu, ar hyn o bryd mae 36 o ddisgylion yn Ysgol Talwrn sy'n golygu bod lefel y lleoedd gwag yn yr ysgol oddeutu 27%.

Dyweddodd y Cyngropydd R G Parry, OBE, FRAgS, a oedd hefyd yn Aelod Lleol, ei fod wedi ei synnu gan yr ystadegau yn enwedig o ran nifer y plant o Dalwrn sy'n mynchu ysgolion mewn ardaledd eraill a'i fod hefyd yn poeni am y diffyg lle gwyrdd yn yr ysgol. Cydnabu, er bod cau ysgol yn fater o dristwch, fod yn rhaid ystyried budd gorau pob plentyn. Ar ôl gweld y tair ysgol newydd y mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion wedi'u creu ar yr Ynys hyd yn hyn a'r manteision y gallant eu cynnig roedd yn gefnogol iawn i'r rhaglen.

Adleisiodd y Cyngropydd Ieuan Williams, yr Is-Gadeirydd y sylwadau hynny, gan ddweud ei fod o'r farn bod system Addysg yr Awdurdod angen ysgolion sy'n addas i bwrcas ac sy'n ysbyrdoli addysgu a dysgu. Mae'r amgylchedd dysgu a ddarperir gan y tair ysgol newydd ar yr Ynys yn wahanol iawn i'r amgylchedd yn rhai o'r ysgolion hŷn sy'n rhan o stad ysgolion yr Awdurdod. Yn ogystal, mae'r asesiad effaith mewn perthynas â'r Gymraeg yn gadarnhaol gan nodi y bydd yr iaith mewn lle gwell wrth symud ymlaen gyda'r cynlluniau a argymhellir.

Tynnodd y Cyngropydd Richard Dew sylw at y ffaith fod y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion bellach wedi bod mewn grym ers nifer o flynyddoedd a bod yr ysgolion newydd a adeiladwyd o dan ei nawdd wedi cael eu croesawu gan rieni yr oedd llawer ohonynt yn wreiddiol yn eu gwrthwynebu. Mae'r rhaglen yn golygu bod rhai o ysgolion llai yr Awdurdod wedi gorfol cau sydd, yn naturiol, wedi denu rhywfaint o wrthwynebiad yn yr un modd ag y mae eraill wedi cefnogi. Er bod penderfyniad heddiw yn un anodd ei wneud mae'n bwysig bod y rhaglen yn cael ei symud ymlaen.

Cyfeiriodd y Cyngropydd Alun Mummery at y negeseuon e-bost yr oedd wedi eu derbyn gan nodi nad oeddent yn codi unrhyw faterion newydd. Dywedodd y Cyngropydd R. Meirion Jones, yr Aelod Portffolio dros Addysg, ei fod wedi anfon ymlaen y negeseuon yr oedd wedi eu derbyn i sylw'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau, a Phobl Ifanc a gadarnhaodd nad oeddent yn codi unrhyw faterion nad oeddent wedi cael sylw eisoes.

Cyfeiriodd y Cyngropydd Dafydd Rhys Thomas at yr Ysgol Cybi newydd y mae canmoliaeth iddi bellach er y bu gwrthwynebiadau lleol i'r ysgol ar y cychwyn.

Gan gyfeirio at y drafodaeth yn y Pwyllgor Sgriftini Corfforaethol a oedd wedi codi'r posibilrwydd o ffederaliiddio, gofynnodd y Cyngropydd Carwyn Jones i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc egluro pam nad yw'r opsiwn hwn yn cael ei gefnogi i'r ddwy ysgol dan sylw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yn rhaid ystyried pob achos i newid trefniadaeth sefydliadol ysgol yn unigol; mae pob sefyllfa yn wahanol ac mae'n rhaid ystyried y ffactorau unigryw sy'n berthnasol i bob un. Er bod

ffederalleiddio yn opsiwn sydd wedi'i weithredu yn Ynys Môn, fe wnaed hynny mewn gwahanol amgylchiadau i'r rhai yn yr achos hwn. Yn ei farn broffesiynol, nid oedd yn ystyried mai ffederalleiddio oedd y ffordd fwyaf effeithiol ymlaen yn y sefyllfa bresennol - mae'r cynnig a argymhellir, yn ogystal â gwneud mwy o synnwyr, yn cynnig darpariaeth fwy effeithiol i'r plant a'r bobl ifanc. Mae ffederalleiddio yn dod â nifer o heriau ychwanegol gan gynnwys i'r Pennaeth ac, o gymryd yr holl ffactorau I ystyriaeth, mae'r opsiwn a argymhellir yn fwy ymarferol o ran cwrdd â'r gofynion a sicrhau dyfodol llewyrchus i'r plant a'r bobl ifanc dan sylw.

Wrth gloi, siaradodd yr Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Sgiliau a Phobl Ifanc am y nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion fel rhan o'r rhaglen foderneiddio a chydhabu fod cynnig i gau yn gynnig anodd iawn. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn adlewyrchu sefyllfa lle mae nifer o ddisgyblion o'r pentref yn mynuchu ysgolion mewn ardaloedd eraill a bod nifer o ddisgyblion yr ysgol yn dod o'r tu allan i'r dalgylch. Er y gall y Gwasanaeth Dysgu gyfrannu at y gymuned, nid cyfrifoldeb y Gwasanaeth yw sicrhau ei bod yn parhau i fod yn hyfyw. Mae'r mater hwn wedi bod yn cael sylw ers cryn amser ac fe graffwyd arno'n fanwl; gyda hynny mewn cof, cynigiodd argymhelliad yr adroddiad. Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ogystal â'r atborth a'r argymhelliad gan y Pwyllgor Sgriwtini, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gefnogi'r cynnig.

#### Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r cynnig i gynyddu capaciti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.**
- **Awdurdodi Swyddogion i symud i ran nesaf y broses a nodir yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 a chyhoeddi rhybudd statudol am gyfnod o 28 diwrnod yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.**
- **Awdurdodi Swyddogion i ymgymryd ag ymatebion i'r rhybudd statudol gan lunio adroddiad gwrthwynebiadau (os oes gwrthwynebiadau) i'w ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Gwaith yn y Flwyddyn Newydd.**
- **Awdurdodi Swyddogion i ailgyhoeddi'r Asesiad Effaith ar y cynnig fel rhan o asesu effaith barhaus y cynnig ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned.**

#### 4. MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI (YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR)

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r rhaglen moderneiddio ysgolion ar gyfer ardal Llangefni i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ym mis Chwefror / Mawrth 2020 ar Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r dewis rhesymol arall, sef *adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae gan mai dyna'r ffordd fwyaf priodol ymlaen o ran y ddwy ysgol.*

*Ar ôl datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn yr eitem hon ac eitem 6 ar y rhaglen, gadawodd y Cynghorydd Richard Dew ac ni fu'n bresennol am weddill y cyfarfod.*

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc a dywedodd fod y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn yr achos hwn yn cynnwys pwysa a mesur dyfodol Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd Talwrn a'r effaith ar yr holl randdeiliaid o ganlyniad, ac yn arbennig y plant yn y ddwy ysgol y dylai eu buddiannau a'u llesiant fod y brif ystyriaeth yn y mater hwn. Ailadroddodd y gall moderneiddio ysgolion fod yn fater dadleuol a'i fod ymhliith agweddau mwyaf heriol gwaith y Cyngor, dywedodd ei fod yn deall ac yn sylweddoli pryderon rhieni ac eraill mewn

perthynas â'r mater hwn yn llawn. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol ysgolion dros yr 50 mlynedd nesaf ar adeg pan maent dan bwysau oherwydd toriadau cyllidebol, costau cynnal a chadw beichus, cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Newydd a sawl ffactor arall yn ogystal ag effaith Covid. Rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellir gwneud y system ysgolion yn fwy effeithiol yn yr ystyr o greu'r amodau lle gall athrawon a disgyblion ffynnu a hefyd sut y gellir ei gwneud yn fwy effeithlon o ran gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau bod pob ysgol yn derbyn ei chyfran deg o'r gyllideb. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at brif strategaethau a chynlluniau'r Cyngor y mae Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018 yn gysylltiedig â hwy.

Rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth, 2020 cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar ddyfodol Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd. Awdurdodwyd swyddogion i gynnal yr ymgynghoriad ar ôl i'r Pwyllgor Sgriftini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y papur cynnig ym mis Ionawr, 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar y diwrnod ysgol olaf cyn y cyfnod clo cyntaf o ganlyniad i'r pandemig byd-eang a drawsnewidiodd y ddarpariaeth addysg am gyfnod. Dylid nodi bod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rhoi estyniad i'r Cyngor tan fis Mawrth, 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig. Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 trwy gydol y cyfnod pandemig.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y gyrwyr allweddol ar gyfer newid sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018 sy'n cynnwys gwella safonau addysgol; gwella arweinyddiaeth a rheolaeth; sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas at y diben; lleihau nifer y lleoedd gwag (yn achos ardal Llangefni sichau bod digon o gapasiti) lleihau cost gyffredinol addysg a'r amrywiad mewn cost fesul disgybl; cynnal a gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol.

Fel o'r blaen, diolchodd yr Aelod Portffolio i bawb a gymerodd ran yn y broses ymgynghori.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc sylw at brif bwyntiau'r adroddiad a dywedodd y cynhaliwyd ymgynghoriad statudol rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth, 2020 a oedd yn ystyried nifer o gynigion (enghrefftiau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig) gan gynnwys cynnig gwreiddiol y Cyngor ar gyfer y ddwy ysgol, *sef ail-leoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion o Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgyrchoeedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.* Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, y cynnig sy'n cael ei argymhell i'r Pwyllgor Gwaith yw'r dewis arall rhesymol, *sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.*

Cafwyd 823 o ymatebion ar-lein ac ar bapur i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd ymatebion gan staff, rhieni, llywodraethwyr a phlant mewn perthynas â'r ddwy ysgol yn ogystal â chan unigolion a sefydliadau (darperir crynodeb yn adran 5 yr adroddiad ysgrifenedig). Cadarnhaodd yr atborth sylweddol gan fwyafri y rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â'r ddwy ysgol eu bod yn derbyn y cynnig gwreiddiol mewn perthynas â'r angen am ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ond roeddent yn cwestiynu pam y dylai hyn fod ar draul Ysgol Bodffordd. Fel rhan o'r broses, cyflwynwyd modelau addysgol eraill ac fe'u haseswyd gan swyddogion yn erbyn meini prawf a gyrrwr y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion gyfredol (cyfeiriad yn adran 6.4 o'r adroddiad). Ar ôl ystyried yr holl ddewisiadau amgen ac yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o'u cryfderau a'u gwendidau yn erbyn gyrrwr y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, ystyrir mai'r dewis arall rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen oherwydd ei fod yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd. Byddai hyn yn cyfateb i weithredu'r cynnig gwreiddiol yn rhannol h.y. byddai adeilad newydd yn cael ei ddarparu ar gyfer Ysgol Corn Hir, ond ni fyddai Ysgol Bodffordd yn cau ac ni fyddai ei disgyblion yn cael eu symud i adeilad yr ysgol newydd. Mae'r cynnig wedi newid am y rhesymau canlynol -

- Safonau yn Ysgol Bodffordd - mae Ysgol Bodffordd wedi gwella o ran ei chategori gan iddi symud i fyny o Ambr yn 2015 i Melyn (B) yn 2019.
- Cyflawni'r Cwricwlwm - mae Ysgol Bodffordd mewn sefyllfa gref i gydweithio ag ysgolion eraill yn yr ardal leol i gyflawni'r cwricwlwm.
- Y Gymraeg - gyda 60 o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd (85%) a 138 o ddisgyblion yn Ysgol Corn Hir (61%) yn siarad Cymraeg gartref (PLASC 2019) mae gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir y potensial i gynnal a datblygu ymhellach y Ddarpariaeth Gymraeg gyfredol.
- Capasiti - mae'r dewis arall rhesymol yn cwrdd â'r anghenion capasiti dan sylw fel rhan o'r cynnig gwreiddiol ac felly'n cwrdd â'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion yn y dyfodol.
- Trefniadau teithio - mae'r dewis arall rhesymol yn annhebygol o newid trefniadau teithio cyfredol disgyblion. Mae disgyblion o Fodffordd, sydd ar hyn o bryd yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol yn debygol o allu parhau i wneud hynny heb newidiadau tebygol i'r ôl- troed carbon.
- Canolfan Gymunedol Bodffordd - ni fydd unrhyw newidiadau. O ganlyniad, gellir parhau i ddefnyddio'r canolfan gymunedol yn Ysgol Bodffordd fel y gwneir ar hyn o bryd.
- Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 - mae Ysgol Bodffordd wedi'i nodi yn y Côd fel Ysgol Wledig, ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi dilyn set fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio'r dewis arall rhesymol. (Fodd bynnag, mae'r Côd yn nodi nad yw rhagdybiaeth o blaid ysgolion gwledig yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau).

Cyfeiriodd y Swyddog at yr asesiadau effaith mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb, Iaith, y Gymuned a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd wedi'u cynnal a bod eu canlyniadau ynghlwm yn yr atodiad i'r adroddiad ymgynghori. Mae nifer yr ymatebion i'r cwestiwn asesiad effaith yn rhoi sicrwydd o 95% bod yr ymateb yn gywir ac yn cyd-fynd â theimladau gweddill yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Mae lefel hyder o 95% yn golygu pe bai'r arolwg yn cael ei gynnal 100 gwaith, byddai'r un canlyniadau'n cael eu darparu 95% o'r amser. Mae'r Asesiad Effaith yn ddogfen fyw ac fe'i diweddarwyd i gynnwys sylwadau rhanddeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol; mae'r asesiad cyfredol yn cynnwys asesiad sy'n ymwneud â'r cynnig newydd a argymhellir i'w weithredu. Bydd yr Asesiad Effaith yn parhau i gael ei ddiweddarwyo'n rheolaidd trwy gydol y cyfnod datblygu a phe bai risg / mater arall yn codi, gall y Cyngor, mewn partneriaeth â'r gymuned leol, roi mesurau lliniaru ar waith i oresgyn y risg neu'r mater sy'n codi. Bydd y trefniant hwn mewn grym trwy gydol y cyfnod datblygu a bydd yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau.

Amcangyfrifir bod y gost o adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir oddeutu £9m i £10m. Os caiff ei gymeradwyo, bydd yn cael ei ariannu gan gyfraniad o 50% gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Band A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn cyfrannu'r 50% arall.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc wrth gloi yr argymhellir felly adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a bod Ysgol Bodffordd yn cael ei gadael fel y mae.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, adroddodd y Cyngorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgrinwini Corfforaethol o gyfarfod y Pwyllgor yn gynharach yn y prynhawn a oedd wedi ystyried yr adroddiad ymgynghori a'r cynnig a argymhellir. Clywodd y Pwyllgor sylwadau gan Mr Dafydd Jones, Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir a chan Mr Gareth Parry, aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Bodffordd ac roedd yn ddiolchgar i'r ddau am eu mewnbwn. Clywodd y Pwyllgor am y diffyg lle ac effaith hynny ar yr amgylchedd dysgu ac addysgu yn Ysgol Corn Hir a nododd fod yr ysgol ar hyn o bryd 17% dros gapasiti. Nododd y Pwyllgor ymhellach argaeledd cyllid grant Llywodraeth Cymru o dan

Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r cyfle yn ei sgil i gael ysgol fodern addas i'r pwrrpas ar gyfer Ysgol Corn Hir a gefnogir yn eang gan y gymuned. Nododd y Pwyllgor hefyd y gefnogaeth gref gan randdeiliaid i gadw Ysgol Bodffordd ar agar yn ogystal â'r rhesymau pam roedd hyn bellach yn cael ei gynnig. Roedd y Pwyllgor yn unfrydol yn ei gefnogaeth i'r dewis rhesymol arall a gyflwynwyd ac argymhellodd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Sgriwtini am ei waith mewn perthynas â'r mater dan sylw a'r mater blaenorol, ac yn arbennig am gyflwyno perspectif gwahanol a her gadarn i'r drafodaeth ac fe adleisiwyd sylwadau'r Cadeirydd yn hynny o beth gan y Pwyllgor Gwaith cyfan.

Roedd consensws ymhliith aelodau'r Pwyllgor Gwaith ynghylch pwysigrwydd dod â chyfleusterau modern i stoc ysgolion yr Awdurdod sy'n darparu'r amgylchedd dysgu, yr adnoddau a'r lle iawn i gwrdd â gofynion y dyfodol, gan gynnwys rhoi'r cwricwlwm newydd. Yr un mor bwysig yw'r angen i gael system addysg gynaliadwy a chost effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion disgylion yn gyfartal. Wrth ystyried y dewis arall rhesymol fel y'i cyflwynwyd a'r hyn y mae'n ei olygu o ran sicrhau ansawdd a safonau addysg yn Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd yn ogystal â'r rhesymau dros newid y cynnig, ac ar ôl nodi'r atborth a'r argymhelliaid gan y Pwyllgor Sgriwtini, roedd y Pwyllgor Gwaith yn fodlon, ac yn gytûn mai'r dewis arall rhesymol fel yr argymhellir yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen yn yr achos hwn.

#### Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r cynnig i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.**
- **Awdurdodi Swyddogion i weithredu'r penderfyniad cyn gynted ag y bo modd a nodi bod ei weithrediad y tu allan i ddisgwyliadau'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (011/18).**
- **Awdurdodi Swyddogion i ailgyhoeddi'r Asesiad Effaith ar y cynnig fel rhan o asesu effaith barhaus y cynnig ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned.**

#### 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig."

#### 6. YN AMODOL AR Y PENDERFYNIAID AR EITEM 4 - YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR, CEISIO AWDURDOD GAN Y PWYLLGOR GWAITH I BRYNU TIR I DDATBLYGU YSGOL GYNRADD CORN HIR NEWYDD, LLANGEFNI

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mewn perthynas â chaffael tir ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, Llangefni.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Gwaith am y broses aml-adrannol ar gyfer dewis safle a arweiniodd at nodi safle a fyddai'n addas ar gyfer datblygu Ysgol Gynradd Corn Hir newydd yn Llangefni. Cyflwynwyd gwybodaeth amlinellol ynghylch y lleoliad a ffefrir ynghyd â'r telerau arfaethedig ar gyfer caffael y tir, a rhoddwyd sicrwydd bod y broses wedi'i chynnal yn unol â chyngor ac arweiniad Prif Swyddog Prisia'r Cyngor. Ar ôl nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a'r rhesymau pam yr ystyriwyd bod yr opsiwn yn well na dull amgen o weithredu, roedd y Pwyllgor Gwaith yn fodlon mai'r opsiwn fel y'i hargymhellwyd yw'r ffordd orau ymlaen.

Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliaid yr adroddiad ynglŷn â phrynu tir i adeiladu ysgol gynradd newydd.

**Y Cynghorydd Llinos Medi  
Cadeirydd**

DRAFT

## PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

### Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2020

**YN BRESENNOL:** Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio dros Wasanaethau Cymdeithasol)  
Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau)  
Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)  
Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio)  
Y Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Craffu Corfforaethol)  
Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)  
Janw Hughes Evans (Pennaeth Nrysio - Gwasanaethau Plant) (BIPBC)  
Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol)  
Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)  
Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)  
Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Lles Addysg)  
Keith Walters (Rheolwr Tîm Lleoli Plant)  
Saul Ainsworth (Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu)  
Melanie Jones (Rheolwr Integredig – Gwasanaethau Plant)  
Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal)  
Llinos Edwards (Nrys Plant sy'n Derbyn Gofal)  
Llinos Williams (Rheolwr Gwasanaethau Tai)  
Marion Pryor (Pennaeth Archwilio a Risg (Ar gyfer Eitem 5)  
Nanette Williams (Prif Archwylodd Mewnol) (ar gyfer eitem 5)  
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Dawn Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol) Liz Fletcher (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir cyntaf hwn o'r Panel Rhiantu Corfforaethol a chyflwynodd pawb eu hunain. Roedd cyfarfodydd y Panel wedi'u gohirio yn ystod argyfwng Covid-19 ond y bwriad yn awr oedd ail-barhau â chyfarfodydd y Panel yn unol ag amserlen cyfarfodydd y Cyngor.

#### 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

#### 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2019 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Darparwyd diweddariadau ar faterion sy'n codi o gyfarfod diwethaf y Panel fel a ganlyn -

- Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i ddiweddaru asesiadau ers cyfarfod blaenorol y Panel ac o'r 99 o blant yr adroddwyd nad yw eu hasesiadau'n gyfredol, dim ond 11 sydd heb eu cwblhau bellach; bwriedir gweithio ar y rhain dros gyfnod y Nadolig. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn anelu at ddiweddaru polisi a chanllawiau o ran amlder asesiadau gyda'r bwriad o gyflwyno polisi drafft i gyfarfod y Panel ym mis Mawrth 2021.

**Croesawodd y Panel yr wybodaeth a'r cynnydd a wnaed a nododd y byddai'r polisi a'r canllawiau drafft yn cael eu diweddar u'w cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.**

- O ran bod y Gwasanaethau Dysgu a Phlant a Theuluoedd yn mabwysiadu dull ar y cyd o gyflwyno gwybodaeth am gyflawniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal, cadarnhawyd a **nododd y Panel** mai'r adroddiad o dan eitem 7 ar yr agenda yw'r adroddiad cydweithredol cyntaf mewn perthynas â chyflawniadau addysgol disgryblion sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn yn seiliedig ar ddata o flwyddyn academaidd 2019/20.
- O ran sut y caiff gwybodaeth ei rhannu rhwng lechyd a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a ph'un ai a yw'n cael ei chefnogi gan broses ffurfiol, cadarnhaodd Janw Hughes Evans, oedd yn lle Liz Fletcher, BIPBC yn y cyfarfod hwn o'r Panel, y byddai'n cyfleu'r mater i Liz Fletcher er mwyn diweddar u'r Panel yn y cyfarfod nesaf.
- O ran gwahodd y Gwasanaeth Mabwysiadu i gyfarfod o'r Panel, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'n trefnu gwahoddiad o fewn rhaglen gyfarfodydd y Panel ar gyfer y flwyddyn.

### 3 GWEITHREDIADAU GWASANAETH YN YSTOD PANDEMIC COVID-19

Rhoddodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad llafar i'r Panel wedi'i ategu gan gyflwyniad Powerpoint ar sut yr oedd y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd wedi gweithredu yn ystod y pandemig a thynnodd sylw at y canlynol. –

- Ar ddechrau cyfnod Covid-19, cafodd safonau ymarfer eu hadolygu a'u haddasu i adlewyrchu gofynion cadw pellter cymdeithasol a chyfngiadau cysylltiedig a olygai nad oedd gwaith cymdeithasol wyneb yn wyneb yn bosibl
- Mae'r holl blant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod (cyfanswm o 154 ar y pryd ers hynny mae'r nifer wedi cynyddu i 161) yn dod i ofal am nifer o resymau gan gynnwys oherwydd eu bod yn destun gorchymyn llys; effallai eu bod yn byw gyda rhieni maeth, gyda theulu a ffrindiau, gyda'u rhieni neu effallai eu bod yn derbyn gofal mewn lleoliad preswyl. Mae gan bob un ohonynt Weithiwr Cymdeithasol wedi'i neilltuo iddyn nhw a Swyddog Adolygu Annibynnol.
- Lle y bo'n briodol, cadwyd y cyswllt â Gweithiwr Cymdeithasol yn ystod y cyfnod drwy ddulliau digidol – defnyddiwyd Microsoft Teams, Skype, neu negeseuon testun. Mae ymweliadau statudol Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau i gael eu cynnal, er bod y drefn yn wahanol oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol, gyda rhai'n cael eu cynnal yn yr ardd. Mae'r amgylchiadau newydd o anghenraig wedi arwain at arferion mwy creadigol.
- Lle y bo'n briodol, cadwyd y cyswllt rhwng y Gwasanaeth ac ysgolion a hefyd gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Dysgu i sicrhau bod holl blant yr Awdurdod sy'n derbyn gofal yn gallu cael gafaol ar liniaduron ac mae'r cydweithrediad â'r Gwasanaeth Dysgu yn ogystal â'r Gwasanaeth Ieuengctic wedi bod yn rhagorol. Lluniwyd cofrestr o blant sy'n agored i niwed ar y cyd â'r Gwasanaeth Dysgu ac roedd hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a oedd gartref gyda'u rhieni.
- Paratowyd pecynnau gweithgareddau a oedd yn briodol i'w hoedran ar gyfer y plant mewn lleoliadau maeth fel ffordd o gefnogi rhieni maeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi gwneud mwy o ddefnydd o Gronfa Dewi Sant ar gyfer

y rhai sy'n gadael gofal i ddarparu cymorth, er enghraifft, i'r rhai sy'n gadael gofal sy'n wynebu heriau cyflogaeth ac i brynu caledwedd cyfrifiadurol.

- Paratowyd adroddiadau ar unrhyw faterion a gododd o'r ymweliadau statudol a'u darparu'n fisol i Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol/Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Yn yr un modd, addasodd y Tîm Maethu ei arferion gwaith i'r amgylchiadau newydd. Ar y dechrau roedd Gweithwyr Cymdeithasol goruchwyllo yn cynnal cyswllt wythnosol â gofalwyr maeth nes bod y gofalwyr maeth yn teimlo'n gyfforddus gyda'r trefniadau newydd cyn lleihau amler y cyswllt drwy gytundeb. Darparwyd cymorth i bob gofalwr maeth p'un a oedd plentyn/plant dan eu gofal ai peidio ar y pryd. Mewn rhai achosion a lle bo angen, rhoddyd cymorth un i un er enghraifft i leddfu pryderon am Covid-19. Gwnaed trefniadau lle gallai gofalwyr maeth gysylltu â'r Tîm Maethu i wneud unrhyw ymholiadau gan fod gan yr Awdurdod yr wybodaeth a'r adnoddau i allu darparu'r canllawiau a'r ymateb priodol. Dosbarthwyd rhifynnau o'r Cylchlythyr Gofalwyr Maeth yn amlach er mwyn sicrhau negeseuon clir a chyson.
- Yn yr un modd, darparodd Arweinydd y Tîm Lleoli Plant adroddiad misol i Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol/Pennaeth y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd ar unrhyw faterion, pryderon neu bwyntiau allweddol sy'n codi.
- Yn ystod y cyfnod hwn hefyd ac er gwaethaf yr heriau o ran ymateb i Covid-19, parhaodd y Gwasanaeth gyda datblygiadau arfaethedig gan gynnwys Cartrefi Clyd, defnyddio'r fflat hyfforddi ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, a chydweithio â Voices from Care Cymru. Mae gwaith wedi parhau hefyd i ddiweddar polisiau ac i sicrhau sefydlogrwydd lleoliadau a chynlluniau addysg plant sy'n derbyn gofal.
- Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ystod y cyfnod wedi bod yn gyfyngedig ac yn is na'r disgwyliadau. Er hynny, nid covid-19 oedd achos y cynnydd chwaith - byddai'r rhan fwyaf o'r plant sydd wedi dod i ofal yn ystod y cyfnod hwn wedi dod i ofal, boed pandemig ai peidio. Mae AGC wedi nodi bod y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi bod yn isel ac mai ymdrechion Timau Gofal Cymdeithasol Plant i gadw plant yn ddiogel a gartref sydd i gyfri am y ffaith na welwyd y cynnydd disgwyliedig. Yn Ynys Môn er enghraifft, mae'r Tîm Teuluoedd Cydneth a'r Tîm o amgylch y Teulu wedi parhau i weithio drwy gydol y cyfnod.

Wrth ddiolch i Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol am y wybodaeth ddiweddaraf, gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y cynnydd o ran datblygu rhaglen Cartrefi Clyd a ph'un ai a oedd Covid-19 wedi effeithio ar gynlluniau yn hyn o beth. Roedd y Panel hefyd am wybod a oedd unrhyw agweddu ar y dulliau newydd o weithio wedi gweithio'n dda ac a oeddent yn debygol o gael eu cadw pan fyddai pethau'n dod yn ôl i drefn.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Cartref Clyd cyntaf wedi'i agor a bod y preswyllydd cyntaf yno ac yn setlo'n dda. Er bod y pandemig wedi achosi rhywfaint o oedi o ran symud preswylwyr i'r ail Gartref Clyd, mae wedi agor bellach ac mae'r ddau blentyn oedd i fod i gael eu lletya yn yr eiddo bellach wedi symud i mewn ac yn ymgartrefu yn eu cartref newydd. Mae cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer y trydydd Cartref Clyd a hefyd trefnwyd bod yr adnodd i ddarparu gofal seibiant i blant ag anableddau yn agor yn y Flwyddyn Newydd.

O ran arferion gwaith, dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol, o ran rhwngweithio â'r bobl y mae'r Gwasanaeth yn eu cefnogi, na all cyswllt o bell gymryd lle cyswllt uniongyrchol a phan fydd amodau'n caniatáu, y bydd arferion gwaith cymdeithasol yn ailddechrau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae ymateb i'r pandemig wedi dangos manteision gweithio hyblyg ac o gartref ac mae hefyd wedi dangos, er ei bod yn bosibl parhau i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith asesu wyneb yn wyneb ar ôl Covid,

bod modd cynnal rhai asesiadau'n llwyddiannus drwy ddulliau rhithwir. Mae cydweithio â chydweithwyr o wasanaethau eraill a gyda phartneriaid wedi bod yn rhagorol yn ystod cyfnod y pandemig a bydd y Gwasanaeth yn ceisio parhau â'r drefn hon a chryfhau'r cydberthnasau hynny y tu allan i'r sefyllfa frys a thu hwnt. Dywedodd y Rheolwr Integredig (Gwasanaethau Plant) fod y newid i lwyfannau digidol wedi hwyluso'r drefn o gyfrannu i gyfarfodydd rhanbarthol a Chymru gyfan, a bod hynny yn ei dro yn golygu bod llais Ynys Môn yn cael ei glywed yn gryfach ar lefel genedlaethol. Gobeithio y bydd hyn yn parhau ar ôl y pandemig.

**Cytunodd y Panel i nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd ynglŷn â chynnal gweithrediadau'r Gwasanaeth yn ystod y pandemig ac i ddiolch i Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol am yr wybodaeth.**

## **NI WNAED UNRHYW GYNNIG AR GYFER GWEITHREDU YCHWANEGOL**

### **4 RECRIWTIO A CHADW GOFALWYR MAETH**

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr y Tîm Lleoli Plant oedd yn amlinellu'r camau a gymerwyd i gryfhau'r drefn recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth ynghyd â chanlyniad y gwaith hwn i'r Panel ei ystyried. Ategwyd yr adroddiad gan gyflwyniad Powerpoint byr oedd yn crynhoi'r prif bwyntiau.

Cyfeiriodd Rheolwr y Tîm Lleoli Plant at yr ystyriaethau allweddol fel a ganlyn –

- Yn 2018/19, nid oedd strategaeth recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth Cyngor Sir Ynys Môn yn effeithiol gan nad oedd yn gallu unioni'r anghydbwysedd yn y lleoliadau ar gael â'r angen am leoliadau, gan ddibynnu felly ar ofalwyr maeth yn y sector preifat. Dangosir hyn gan y ffaith mai dim ond 3 chartref maeth prif ffrwd a gymeradwywyd yn 2018/19 er i 133 o ymholaied am faethu ddod i law yn y flwyddyn honno.
- Er i nifer yr ymholaied ostowng yn y ddwy flynedd ddilynol (33 yn 2019/20 ac 20 yn 2020/21 ar 26 Hydref 2020), roedd nifer y gofalwyr maeth a gymeradwywyd yn y ddwy flynedd yn uwch - 7 (sydd bellach yn 8 ar gyfer 2020/21 yn dilyn cyfarfod y Panel Maethu ym mis Tachwedd). Y prif reswm am hyn yw bod mwy o recriwtio wedi digwydd a bod hynny wedi arwain at ymholaied o ansawdd gwell ac o ganlyniad, at gymeradwyo nifer uwch o ofalwyr maeth.
- Elfen allweddol o'r newid cadarnhaol yn y drefn recriwtio gofalwyr maeth fu'r Cynnig Craidd sy'n gynllun marchnata penodol a lansiwyd ym mis Ionawr, 2019 i ddenu gofalwyr maeth newydd. Mae'r cynllun yn canolbwytio ar yr hyn y gall yr Awdurdod Lleol ei gynnig drwy ei waith ac mae'n sicrhau bod buddion pwrrpasol i ofalwr maeth yr Awdurdod sy'n cynnwys gostyngiad o 50% yn Nhreth y Cyngor; parcio am ddim ym meysydd parcio'r awdurdodau lleol ar yr Ynys; aelodaeth am ddim i ganolfannau hamdden Awdurdodau Lleol a 10% o lwfans maethu ychwanegol. Mae'r Cynnig Craidd wedi cael effaith ar y gofalwyr maeth gwirioneddol a recriwtiwyd yn llwyddiannus yn y blynnyddoedd dilynol.
- Cymerodd y broses o gymeradwyo gofalwyr maeth, o dderbyn y ffurflen gais hyd at gymeradwyaeth ADM, 307 diwrnod neu 10.1 mis ar gyfartaledd yn 2019. Yr ystod gyfartalog ar gyfer asesiad oedd rhwng 2.6 mis a 17.1 mis gan adlewyrchu rhai anghysondebau a hynny am resymau penodol iawn. Roedd yr amser wedi gostwng i 203 diwrnod ar gyfer 2020 (Ionawr i Hydref 2020) ac nid oedd unrhyw anghysondebau wedi'u nodi. Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi cyrraedd a rhagori ar darged y flwyddyn ariannol hon o gwblhau asesiadau ar gyfer 6 cartref gofalwr maeth, gan fod 8 wedi'u cymeradwyo fis Tachwedd 2020 gyda 6 chais arall yn cael sylw yn y system. Gellir priodoli'r llwyddiant hwn i nifer o resymau gan gynnwys y Cynnig Craidd.

- Mae'r gwaith asesu ychwanegol hwnnw'n cael ei wneud gan y Tîm mewnol a gan aseswyr preifat gyda mynediad at yr aseswyr gan ei gwneud yn bosibl asesu cyn gynted â phosibl. Y nod yw lleihau'r amserlen ar gyfer cwblhau pob asesiad Ffurflen F yn y dyfodol o fewn 6 mis ar gyfartaledd.
- O ran swyddogaethau'r Panel Maethu, mae'r Panel wedi addasu'n dda i'r newid mewn amgylchiadau gan gynnwys cyfarfodydd rhithwir ac mae hefyd wedi gorfol addasu i newidiadau eraill – o ran ei gymorth gweinyddol, penodi Cadeirydd newydd ac ymddeoliad dau o'i aelodau.
- Ym mis Hydref 2018, adroddwyd i'r Panel Rhiantu Corfforaethol fod gan y Cyngor 23 o gartrefi gofalwyr maeth. Eleni mae'r nifer ar y gofrestr wedi codi i 34 - cynnydd o 11 o gartrefi gofalwyr maeth mewn dwy flynedd. O ystyried bod rhai wedi ymddeol hefyd yn ystod y cyfnod hwn, mae'n dal i fod yn gynnydd sydyn yn y cyfnod o ddwy flynedd.
- Yn sgil penodi Gweithiwr Cymorth Unigolion Cysylltiedig ym mis Mehefin, 2020 rhyddhawyd gweithwyr cymdeithasol cymwysedig o rai o'u dyletswyddau cefnogi i ganolbwytio ar asesu a goruchwyliau gofalwyr maeth cyffredinol yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer yr Unigolion Cysylltiedig (o 19 ym mis Hydref 2018 i 24 heddiw) yn ogystal ag yn nifer y Gofalwyr Maeth (o 42 ym mis Hydref 2018 i 58 ym mis Hydref, 2020) yn golygu bod y llwyth gwaith yn parhau i dyfu o ran y gwaith sy'n gysylltiedig â Thîm Maethu Unigolion Cysylltiedig yn enwedig asesu, ac o ran y gwaith sy'n gysylltiedig â chadw (cymorth, hyfforddi a goruchwyliau) Gofalwyr Maeth Cyffredinol. Ystyri'r ateb i reoli'r gofynion yn well yw rhannu'r Tîm Maethu yn Dîm Unigolion Cysylltiedig a Thîm Maethu Cyffredinol, llwybr a gymerwyd eisoes gan ddu awdurdod cyfagos. Y rhesymeg yw y bydd gwahanu'r gwaith Unigolion Cysylltiedig oddi wrth y gwaith Maethu Cyffredinol yn lleihau ei effaith ar reciwtio a chadw Gofalwyr Maeth Cyffredinol. Y weledigaeth yw dilyn engrifftiau eraill o rannu'r Tîm Maethu er mwyn gallu canolbwytio'n llawn ar reciwtio a chadw Gofalwyr Maeth Cyffredinol yr Awdurdod er mwyn gallu diwallu anghenion y dyfodol, fydd yn sylweddol yn ôl y rhagolygon.

Diolchodd y Panel i Reolwr y Tîm Lleoli Plant am yr wybodaeth ac wrth groesawu'r cynnydd a wnaed o ran reciwtio gofalwyr maeth, holodd beth arall y gellid ei wneud i hybu reciwtio ymhellach a ph'un ai a oedd darpar ofalwyr maeth newydd yn cael eu denu o bob rhan o Ynys Môn o gofio'r pwyslais ar ofalu am blant yn eu cymunedau.

Dyweddodd Rheolwr y Tîm Lleoli Plant fod ailddyrannu gwaith o fewn y Tîm Maethu wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi helpu i ganolbwytio ar agweddau penodol; edrychir ar hyn ymhellach yn y flwyddyn nesaf. Dywedodd fod yr asesiadau a gynhaliwyd yn adlewyrchu ceisiadau o bob rhan o Ynys Môn. Nodir pedwar maes yn y tabl yn Ffigur 2 yr adroddiad sy'n rhoi cipolwg yn unig ac sy'n adlewyrchu'r ardaloedd o ble y daw'r chwe chais sydd ar y gweill, a'r camau y mae'r rhain wedi'u cyrraedd ar adeg benodol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y broses reciwtio yn gyson ar draws yr Ynys ac mai un o'r dulliau reciwtio mwyaf effeithiol yw trwy argymhelliaid personol.

Awgrymodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio dros Wasanaethau Cymdeithasol y dylai'r Awdurdod fanteisio ar gyfnod y Nadolig i ddioch i'w holl Ofalwyr Maeth am y gwaith y maent wedi'i wneud yn ystod blwyddyn anodd i bawb. Sicrhodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol y Panel fod y Gwasanaeth yn anfon cerdyn Nadolig yn flynyddol at ei Ofalwyr Maeth ac yn cynnal cystadleuaeth ar gyfer y plant yng ngofal yr Awdurdod i ddylunio'r cerdyn. Eleni bydd y cerdyn yn cael ei anfon yn rhithwir. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn diolch i Ofalwyr Maeth yr Awdurdod mewn bob yn ail rhifyn o'i Gylchlythyr Maethu. Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol fod Gofalwyr Maeth yr Awdurdod wedi gweithio'n arbennig o galed eleni ac o ganlyniad i

gyfyngiadau Covid-19 a'r cyfyngiadau ar weithgareddau cymdeithasol maen nhw wedi bod yn darparu gofal 24/7 am gyfnodau hir. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd gyda chymorth grant i ddarparu'r dechnoleg ddiweddaraf i Ofalwyr Maeth yr Awdurdod i helpu gyda chyfathrebu a hyfforddiant gyda'r bwriad o symud rhywfaint o'r ddarpariaeth gymorth i lwyfan digidol.

**Cytunodd y Panel i dderbyn yr adroddiad ac i nodi ei gynnwys.**

**CAM GWEITHREDU: Anfon Cerdyn Nadolig blynnyddol at Ofalwyr Maeth yr Awdurdod yn enw Cadeirydd y Cyngor a Phennaeth y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd.**

## 5 ARCHWILIAD MEWNOL - SWYDDOGAETH Y PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad drafft y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar ganlyniad adolygiad archwilio o swyddogaeth y Panel RhiantU Corfforaethol i'w ystyried gan y Panel. Ceisiodd yr adolygiad sefydlu a oes gan y Panel drefniadau digonol ar waith i gefnogi, goruchwyliau a hwyluso'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau rhiantU corfforaethol. Hysbyswyd y Panel o statws drafft yr adroddiad archwilio fel y'i cyflwynwyd i'r cyfarfod heddiw y byddai angen cytuno arno'n bendant cyn iddo gael ei gwblhau'n derfynol.

Adroddodd y Prif Archwilydd Mewnol fod yr archwiliad wedi'i gynnal ar gais y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arweinydd y Cyngor sydd hefyd yn Aelod Portffolio dros Wasanaethau Cymdeithasol er mwyn edrych ar effeithiolrwydd cyffredinol y Panel Rhiantu Corfforaethol. Archwiliodd yr archwiliad bedwar maes allweddol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Panel, cadw cofnodion, olrhain gweithredu a rheoli risg. Er bod yr adolygiad archwilio wedi arwain at farn sicrwydd rhesymol ac wedi canfod bod y Panel yn gyffredinol yn gweithredu'n effeithiol a bod ganddo rai trefniadau da ar waith i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau rhiantu corfforaethol, nododd hefyd welliannau y gellid eu gwneud; byddai'r rhain, pan gânt eu gweithredu, yn mynd â'r Panel i'r lefel nesaf o effeithiolrwydd a dyma'r math o drefniadau sydd, o'u meincnodi yn erbyn modelau paneli rhiantu corfforaethol eraill, yn drefniadau sydd yn eu lle gan baneli a ystyrrir yn rhagorol. Codwyd pum mater/risg, ac mae dau ohonynt oherwydd effaith bosibl y risg yn y maes hwn yn cael eu hystyried yn "Fawr". Cytunir ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr (atodwyd cynllun gweithredu drafft i'r adroddiad) i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r meysydd a grynhoir isod

- Er bod cyfansoddiad priodol i'r Panel ar y cyfan, nid yw'r Cyngor wedi diwygio dogfen cylch gorchwyl y Panel yn ffurfiol yn dilyn newidiadau i'w gylch gwaith yn 2017. Mae perygl y bydd diffyg eglurder yn gysylltiedig â'r Panel, y bydd yn rhoi sylw i'r materion anghywir, neu'n methu â chyflawni elfen allweddol o'i rôl os nad yw ei gylch gorchwyl yn cael ei ddiweddu.
- Gall y Panel hefyd elwa ar gynrychiolaeth ychwanegol gan uwch arweinwyr o'r Gwasanaethau Dysgu a Thai. Os nad ydynt yn bresennol, mae perygl y gallai hynny atal effeithiolrwydd y Panel o ran hyrwyddo ac ymgorffori diwylliant o gyfrifoldeb cynhwysol dros rianta corfforaethol.
- Ar hyn o bryd, nid oes gan y Panel gynrychiolaeth ffurfiol gan blant sy'n derbyn gofal yr Awdurdod. Gan fod hyn yn hanfodol i'w effeithiolrwydd parhaus, mae'r Cyngor wedi cydnabod y risg hon ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater.
- Mae angen i'r Cyngor gwblhau a chyhoeddi ei Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal gan gynnwys ymrwymiad neu addewid penodol i'w blant a'i bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Deellir bod hyn yn cael sylw fel rhan o'r gwaith o wella cyfranogiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal y cyfeirir ato yn y pwyt bwled blaenorol.

- Gellid gwella fframwaith gweinyddu a llywodraethu cyffredinol y Panel Rhiantu Corfforaethol drwy adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Gwaith, amserlennu gwaith ymlaen llaw, adroddiadau ac olrhain camau gweithredu. Efallai yr hoffai'r Cyngor ystyried manteision alinio paneli rhiantu corfforaethol a phaneli gwella'r gwasanaethau cymdeithasol yn agosach er mwyn manteisio ar strwythurau llywodraethu presennol yn y maes hwn.

Croesawodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad a chadarnhaodd fod trafodaethau cychwynnol i gytuno ar ymateb i'r cynllun gweithredu, a'i roi ar waith, wedi'i gynnal.

Wrth ystyried yr adroddiad a'i ganfyddiadau, a groesawyd hefyd, roedd y Panel yn cydnabod bod angen iddo ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â'r plant a'r bobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod y mae'n gyfrifol am hybu eu diddordebau a'u lles yn enwedig i glywed eu barn. Bydd y prosiect cydweithredol gyda Voices from Care Cymru y mae wedi'i gefnogi, yn helpu i ddiwallu'r angen hwn. Er ei fod yn weithgor (ond heb bwerau gwneud penderfyniadau) o'r Pwyllgor Gwaith sy'n derbyn ei gofnodion i'w mabwysiadu, derbyniwyd y gellid gwella'r broses adrodd er mwyn rhoi sicrwydd, ac y byddai adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith drwy adroddiad blynnyddol yn effeithiol o ran dod â materion allweddol i sylw'r Pwyllgor Gwaith. Wrth dderbyn y canfyddiadau, roedd y Panel yn hyderus bod ganddo sail i symud ymlaen i fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r materion a nodwyd gan yr adolygiad archwilio a gofynnodd am adroddiad ar gynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth, 2021.

**Cytunodd y Panel i dderbyn canfyddiadau adroddiad yr adolygiad archwilio a'r cynllun gweithredu drafft.**

**CAM GWEITHREDU: Bod Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad ag Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiad diweddar cynnydd ar weithredu Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Archwilio i gyfarfod y Panel ym mis Mawrth 2021.**

## 6 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o dan Adran 100 (A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus a gyflwynwyd.

## 7 ADRODDIAD CYNNYDD ADDYSG PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan yr Uwch Reolwr Lles Addysg a'r Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn nodi cynnydd addysgol disgryblion sy'n derbyn gofal ar Ynys Môn ar gyfer blwyddyn addysgol 2019/20 i'w ystyried gan y Panel.

Arweiniodd yr Uwch Reolwr Lles Addysg y Panel drwy'r adroddiad a oedd yn darparu data mewn perthynas â'r canlynol –

- Canran y disgryblion sy'n derbyn gofal o fewn yr oedran addysg statudol (3-16 oed) ym mlwyddyn addysgol 2019/20 wedi'i rhannu'n garfannau cynradd ac uwchradd.
- Mae cyfradd bresenoldeb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ar lefel gynradd yn dda. Nodwyd bod canran fach o blant sy'n derbyn gofal yn CA3 a CA4 yn cael anawsterau wrth ymgysylltu ag addysg gan arwain at gyfradd presenoldeb is.
- Math a natur yr ymyriadau a ddefnyddir gan ysgolion i gefnogi disgryblion sy'n ei chael yn anodd ymgysylltu ag addysg gan gynnwys darparu cynlluniau cymorth unigol.

- Nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion prif ffrwd mewn awdurdodau eraill am eu bod yn derbyn gofal gan rieni maeth asiantaethau preifat oherwydd nad oes lleoliadau ar gael ar yr Ynys. Mae canran fach o blant yn derbyn gofal y tu allan i'r sir oherwydd anghenion dwys sydd angen darpariaeth breswyl arbenigol. Mae swyddog plant sy'n derbyn gofal yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r lleoliad arbenigol y tu allan i'r sir i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd addysgol priodol yn unol â'u hoedran a'u gallu. Derbynir adroddiad bob tymor ar gyrraeddiaid addysgol pob disgybl y tu allan i'r sir mewn lleoliad arbenigol a chlywir barn y disgyblion drwy ymwelliadau rheolaidd y gweithiwr cymdeithasol.
- Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a Datganiad Cynhwysiant. Mae gan gyfran uchel o blant sy'n derbyn gofal ryw fath o anghenion dysgu ychwanegol sy'n ychwanegol at y trawma o gael eu cymryd i ofal.
- Canran y plant sy'n derbyn gofal a enillodd 5 cymhwyster TGAU neu fwy yn 2019/20 (a oedd oherwydd Covid-219 yn seiliedig ar asesiad y sefydliad yn hytrach nag arholiadau) a nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cofrestru ar gyfer blwyddyn academaidd CA5 ar gyfer 2020/21.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Lles Addysg at y system olrhain cynnydd a gyflwynwyd yn 2019/20 i gasglu adroddiadau gan ysgolion ynglŷn â'r holl blant sy'n derbyn gofal er mwyn monitro eu cynnydd addysgol. Er ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir o ran nodi perfformiad a chynnydd, mae'r system yn faich gweinyddol ac mae angen system fwy hylaw. Manteision olrhain cynnydd yw bod modd nodi'r angen am ymyriad ychwanegol, a thrwy wneud hynny, ei ddarparu'n gynt, ac mae ffocws a defnydd o'r grant Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei gyfeirio at anghenion penodol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Teimlwyd effaith Covid-19 mewn gwahanol ffyrdd gyda rhai plant sy'n derbyn gofal yn ffynnu oherwydd bod pwysau bywyd ysgol wedi'i ddileu tra bod y cyfngiadau symud wedi bod yn anodd i blant hŷn ac yn rhwystr i'w rhyddid gan effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u cyfleoedd profiad gwaith. Erbyn hyn, mae gliniadur ar gael i bob plentyn sy'n derbyn gofal i hwyluso dysgu cyfunol ond i ganran sylweddol o ddisgyblion, mae dysgu rhithwir yn her oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol.

Diolchodd y Panel i'r Swyddog am yr adroddiad a'r wybodaeth a gwnaeth bwyntiau ynglŷn â –

- Defnyddioldeb posibl cynnwys data Prydau Ysgol am Ddim yn y gwerthusiad.
- Cyfngiadau adrodd data ar ei ben ei hun a'r angen i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i nodi tueddiadau neu fylchau ac i gymryd camau ychwanegol lle bo angen i helpu plant sy'n derbyn gofal i gyflawni yn yr ysgol.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, wrth gadarnhau bod cydweithio rhwng y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn dda, ei bod yn gallu bod yn anodd gwneud cymriaethau yn enwedig gan fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint eleni.

**Cytunodd y Panel i dderbyn yr adroddiad ac i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## **NI WNAED UNRHYW GYNNIG AR GYFER GWEITHREDU YCHWANEGOL**

### **8 CYFARFOD NESAF A DREFNWYD**

Nodwyd y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel am 10:00 a.m. ar 21 Mawrth 2021.

*Wrth glo'i'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn ymwneud â gofal a chymorth plant sy'n derbyn gofal yr Awdurdod am eu gwaith caled yn ystod blwyddyn heriol iawn.*

**Annwen Morgan**  
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	25 Ionawr 2021
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Cyng Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd 01248 752108 <a href="mailto:JHuwJones@ynysmon.gov.uk">JHuwJones@ynysmon.gov.uk</a>
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Yn unol â'i Gyransoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddar u'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror – Medi 2021**;

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddar u'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

-

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydy'.

**D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol.

**DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

<b>1</b>	<b>Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys</b>	Ddim yn berthnasol.
<b>2</b>	<b>A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-</b>	
<b>3</b>	<b>A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-</b>	
<b>4</b>	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwrch sut:-</b>	
<b>5</b>	<b>Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg</b>	

**E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?****Beth oedd eu sylwadau?**

<b>1</b>	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)</b>	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).
<b>2</b>	<b>Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)</b>	Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddu.
<b>3</b>	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)</b>	
<b>4</b>	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	

<b>E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
<b>5</b>	<b>Eiddo</b>	
<b>6</b>	<b>Technoleg Gwybodaeth (TG)</b>	
<b>7</b>	<b>Caffael</b>	
<b>8</b>	<b>Sgriwtini</b>	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
<b>9</b>	<b>Aelodau Lleol</b>	Amherthnasol.

**F - Atodiadau:**

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror – Medi 2021.

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

### Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021



Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen

Dylid nodi, foddy bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â 42 blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddarriad yn fisol.

Yn achlysuol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith – **sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid - ar y tudalennau dilynol.**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *kategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portfolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
<b>Chwefror 2021</b>							
1	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd  Cyg Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 15 Chwefror 2021	
2	<b>Cynllun Comisiynu Grant Cymorth Tai</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai  Cyg Alun W Mummery		Pwyllgor Gwaith 15 Chwefror 2021	
3	<b>Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2021/22</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai  Cyg Alun W Mummery	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 15 Chwefror 2021	
<b>Mawrth 2021</b>							
4	<b>Adroddiad Blynnyddol ar Gydraddoldeb 2019/20</b>  Cymeradwyo'r adroddiad	Deilydd Portfolio Gwasanaethau Cymdeithasol	Busnes y Cyngor	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro  Cyg Llinos Medi	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 9 Mawrth 2021	Penderfyniad dirprwyiedig  Mawrth 2021	

Tudalen 43

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Tudalen 44	5 <b>Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch3 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
	6 <b>Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch3 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
	7 <b>Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch3 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
	8 <b>Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22</b>  Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	Cyngor 9 Mawrth 2021

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Tudalen 45	9 <b>Taliadau am Wasanaethau Di- Breswyl 2021/22</b>  Cymeradwyaeth.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Gwasanaethau Oedolion	Iola Richards Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro  Cyg Llinos Medi	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
	10 <b>Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2021/22</b>  Cymeradwyaeth.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Gwasanaethau Oedolion	Iola Richards Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro  Cyg Llinos Medi	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
	11 <b>Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2021/22</b>  Cymeradwyaeth.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Gwasanaethau Oedolion	Iola Richards Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro  Cyg Llinos Medi	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
	12 <b>Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai  Cyg Alun W Mummery	Panel Sgriwtini Cyllid(dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
	13 <b>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2021/22 (S)</b>  Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymhell il'r Cyngor Sir.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 16 Chwefror 2021	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	Cyngor 1 Mawrth 2021

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cygner Llawn (os yn berthnasol)
14	<b>Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Cyllid (13 Tachwedd, 2020)  Panel Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 1 Mawrth 2021	Cyngor 9 Mawrth 2021
15	<b>Cyllideb Gyfalaf 2021/22</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)  Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 16 Chwefror 2021	Pwyllgor Gwaith 1 Mawrth 2021	Cyngor 9 Mawrth 2021
<b>Tudalen 46</b>							
16	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cygner	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd  Cyg Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 22 Mawrth 2021	
17	<b>Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2020/21 (S)</b>  Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid  Cyg Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 8 Mawrth 2021	Pwyllgor Gwaith 22 Mawrth 2021	

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *kategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
18	<b>Codi Tân Galw Gofal – Tenantiaid Tai Cyngor</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai  Cyg Alun W Mummery	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 22 Mawrth 2021 (i'w gadarnhau)	
19	<b>Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith 22 Mawrth 2021	
20	<b>Cwrs Golff Llangefni</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Christian Branch Pennaeth Rheolaiddio a Datblygu Economaidd dros dro  Cyg Carwyn Jones	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 16 Chwefror 2021	Pwyllgor Gwaith 22 Mawrth 2021	
21	<b>Datganiad Polisi Trwyddedu</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Christian Branch Pennaeth Rheolaiddio a Datblygu Economaidd dros dro  Cyg Richard Dew		Pwyllgor Gwaith 22 Mawrth 2021	

Tudalen 47

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *kategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
22	<b>Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2020-2030 – Ystad Mân-ddaliadau</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Priffydd, Gwastraff ac Eiddo	Huw Percy  Pennaeth Priffydd, Gwastraff ac Eiddo  Cyg R G Parry OBE		Pwyllgor Gwaith  22 Mawrth 2021	
<b>Ebrill 2021</b>							
23	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones  Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd  Cyg Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  26 Ebrill 2021	
<b>Mai 2021</b>							
24	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones  Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd  Cyg Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  Mai 2021	
<b>Mehefin 2021</b>							
25	<b>Adroddiad Blynnyddol Safonau'r Gymraeg 2020/21</b>  Cymeradwyo'r adroddiad.	Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith.	Busnes y Cyngor	Huw Jones  Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd  Cyg Ieuan Williams	I'w gadarnhau	Penderfyniad dirpwyledig  Mehefin 2021	

Tudalen 48

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *kategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
26	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democraidd  Cyg Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	
27	<b>Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2020/21 (S)</b>  Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid  Cyg Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol .....	Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	
28	<b>Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch4 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	
29	<b>Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch4 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	

Tudalen 49

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *kategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
30	<b>Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch4 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2021	
<b>Gorffennaf 2021</b>							
31	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd  Cyg Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith Gorffennaf 2021	
<b>Medi 2021</b>							
32	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd  Cyg Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith Medi 2021	
33	<b>Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2021/22 (S)</b>  Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid  Cyg Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol .....	Pwyllgor Gwaith Medi 2021	

Tudalen 50

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror – Medi 2021

Diweddarwyd 14 Ionawr 2021

Y pwnc a'i *kategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
34	<b>Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch1 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith Medi 2021	
35	<b>Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch1 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith Medi 2021	
36	<b>Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch1 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyg Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith Medi 2021	

Tudalen 51

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

This page is intentionally left blank

<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Gwaith; Cyngor
<b>Dyddiad:</b>	25 Ionawr 2021; 2 Chwefror 2021
<b>Pwnc / testun:</b>	Ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r newidiadau i'r Cyfansoddiad o ganlyniad
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	<p>Y Cynghorydd Richard Dew (<i>Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</i>)</p> <p>Y Cynghorydd Carwyn Jones (<i>Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi</i>)</p> <p>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (<i>Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol</i>)</p>
<b>Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Annwen Morgan, Prif Weithredwr
<b>Awdur yr adroddiad:</b>	Annwen Morgan, Prif Weithredwr
<b>Aelodau lleol:</b>	Perthnasol i'r holl Aelodau etholedig

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau****1. CEFNDIR:**

1.1 Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Cyngor newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn adlewyrchu ailstrwythuro mewnol yr uwch dîm rheoli (Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth) gan y cyn Brif Weithredwr yn ystod 2019. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:

- a) Newid i deitlau swyddi a manylebau person ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Pennaethiaid Gwasanaeth;
- b) Dileu'r ddwy rôl Prif Weithredwr Cynorthwyol;
- c) Creu un rôl Dirprwy Brif Weithredwr;
- ch) Dileu dwy rôl Pennaeth Swyddogaeth;
- d) Creu pum rôl Cyfarwyddwr newydd; a
- dd) Newid y llinellau adrodd ar gyfer rhai aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth.

**2. RÔL CYFARWYDDWR LLE A LLESIANT CYMUNEDOL:**

2.1 Yn dilyn ymadawiad y cyn Brif Weithredwr, penodwyd y Dirprwy Brif Weithredwr yn Brif Weithredwr a phenodwyd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol yn Ddirprwy Brif Weithredwr.

2.2 Ers mis Tachwedd 2019, mae rôl Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol wedi bod yn wag, er gwaethaf dwy ymgyrch hysbysebu allanol.

2.3 Yn dilyn yr ymgyrch hysbysebu afluwyddiannus gyntaf, mae dyletswyddau y Cyfarwyddwr wedi bod yn cael eu cyflawni gan ymgeiswyr mewnol a benodwyd yn "Bennaeth Gwasanaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd" [ar lefel is na rôl y Cyfarwyddwr] a swyddog a benodwyd i arwain ar Gynllunio Lle [gan ymgymryd â'r rôl honno yn ogystal â chyflawni tasgau eu swydd gyfredol]. Gwnaed y penodiadau hyn tan Ebrill 2020 yn y lle cyntaf ac fe'u hestynnwyd wedyn tan fis Rhagfyr 2020, er mwyn sicrhau parhad busnes a'r gwytnwchi ddelio â'r argyfwng pandemig, llacio'r cyfyngiadau a'r cyfnod adfer a'i effaith ar wasanaethau'r Cyngor a thrigolion Ynys Môn.

### **3. YSTYRIAETHAU WEDI HYNNY:**

- 3.1 Mae argyfwng y pandemig wedi dangos bod yn rhaid i'r Cyngor fod â swyddogion â chymwysterau addas o fewn meysydd gwasanaeth penodol ar gyfer y dyfodol. Heb os, bydd canllawiau / rheoliadau ar gyfer denu cyllid a grantiau yn y dyfodol yn golygu y bydd yn rhaid i bob Awdurdod Lleol weithredu ac ymateb i'r agenda newid hinsawdd. Mae'r ymateb i'r coronafeirws hefyd wedi dangos yn glir bwysigrwydd cymwyseddau priodol ar gyfer y lefel hon o swyddi.
- 3.2 Mae cyfnod y pandemig hefyd wedi profi pwysigrwydd hanfodol gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i adeiladu gwytnwch cymunedol i ddelio â gwahanol heriau ac, er mwyn gwneud hyn, mae angen amser digonol a rhesymol ar swyddogion i gyflawni'r gwaith. Mae angen capaciti digonol a theg / cytbwys ar draws yr holl wasanaethau i sicrhau gwytnwch CSYM yn y dyfodol o fewn yr haen uwch o reoli ac arweinyddiaeth.
- 3.3 Nid yw'n eglur pa mor hir y bydd y pandemig yn parhau. Heb os, ni fyddwn ni fel Cyngor yn dychwelyd i weithredu yn llawn fel y gwnaethom cyn-pandemic ac felly mae'n rhaid gwneud newidiadau er mwyn gweithredu yn y 'normal newydd' a thra ydym yn dal i fod yn y cyfnod argyfwng.
- 3.4 Er bod trefniadau dros dro wedi gweithio'n dda nid ydynt yn effeithiol yn y tymor hir. Mae gofyn gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r rôl y Cyfarwyddwr a'r swyddi dros dro a grëwyd o ganlyniad i fethiant i reciwtio'n llwyddiannus i'r rôl honno.

### **4. PWYLLGOR PENODI:**

- 4.1 O ganlyniad i'r ystyriaethau uchod, ac oherwydd bod y Cyngor wedi methu â llunio rhestr fer ar ôl hysbysebu'n allanol ddwy waith, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Penodiadau ym mis Rhagfyr 2020 yn gofyn am ei argymhelliaid mewn perthynas â'r ffordd orau ymlaen er mwyn llenwi gwagle yn uwch dîm rheoli'r Cyngor.
- 4.2 Fel Prif Weithredwr mynegais y farn (yn yr adroddiad) mai'r canlynol oedd yr opsiwn gorau: Dileu swydd y Cyfarwyddwr a phenodi un Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r Uwch Dîm yn bodoli. Yn ymarferol, byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr yn arwain ar yr elfen hon o'r swydd yn yr Uwch Dîm. Felly byddai angen ystyried tynnu rhai o ddyletswyddau'r Dirprwy oddi arno a'u hailasesinio - dan ei oruchwyliaeth - a'u cysylltu â'r elfen Cynllunio Lle o'r rôl y Cyfarwyddwr. Mae yna sawl opsiwn ond y symaf yw creu swydd ychwanegol ar haen 9/10 a fyddai'n darparu capaciti a gwytnwch i'r strwythur, a chefnogi'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r swydd newydd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.
- 4.3 Penderfynodd y Pwyllgor Penodi:
  - Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith, ac wedi hynny i'r Cyngor llawn, y dylid dileu'r swydd Cyfarwyddwr hon o Gyfansoddiad y Cyngor;
  - Creu rôl barhaol Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac i'r rôl hon gael ei hysbysebu'n allanol;
  - Sefydlu a hysbysebu'n allanol swydd newydd, sef Swyddog Strategaeth Gorfforaethol.

### **5. NEWIDIADAU Y GELLIR EU GWNEUD I'R CYFANSODDIAD HEB GYMERADWYAETH Y CYNGOR:**

- 5.1 Yn unol â pharagraff 3.5.2.11 y Cyafnsoddiad, “*Bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod i ddiwygio teitlau swyddi, a meysydd cyfrifoldeb yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel yr ystyrient yn angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau, gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ac o ganlyniad i ad-drefnu staff, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog a.151, y Swyddog Monitro, y Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid a'r Aelod(au) Portffolio perthnasol. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath o fewn y gyllideb ac yn cydymffurfio â pholisïau a phrosesau AD y Cyngor ...*”.
- 5.2 Yn unol â pharagraff 3.5.3.6.6 y Cyfansoddiad, mae gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, awdurdod dirprwyol i: “*adolygu a diweddu Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd, i gynnwys unrhyw newidiadau sy'n codi o ddeddfwriaeth ddiwygiedig, deddfwriaeth sy'n cymryd lle un arall neu ddeddfwriaeth newydd; unrhyw ailstrwythuro o'r sefydliad sydd eisoes wedi'i awdurdodi fel bo'r angen ac i gynnwys dirprwyd i swyddogion, sef y Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol, i gael awdurdod dirprwyedig llawn i gyflawni'r swyddogaeth ar ran y Cyngor, oni bai ei fod yn fater a neilltuwyd i'r Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor*”.
- 5.3 Yn unol â'r ddirprwyd ym mharagraff 3.5.2.11, mae gan y Prif Weithredwr yr awdurdod dirprwyedig felly i newid cyfrifoldebau'r UDA a'r Penaethiaid Gwasanaeth (yn amodol ar ymgynghoriad ayyb).

## **6. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD NA ELLIR OND EU GWNEUD AR ÔL I'R CYNGOR EU CYMERADWYO:**

- 6.1 Mae'r Cyfansoddiad yn glir o dan baragraff 2.15.2.1 “*Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig.....*”
- 6.2 Dyna yw sail yr adroddiad hwn - gofyn i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn gymeradwyo strwythur diwygiedig y Cyngor.
- 6.3 Yn y strwythur blaenorol, roedd gradd Prif Weithredwr, ac yna'r Dirprwy Brif Weithredwr; ac wedi'u cynnwys gyda nhw yn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth roedd pum Cyfarwyddwr [Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog a151; Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro; Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc; a'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol]. Roedd pedwar Pennaeth Gwasanaeth (nad oeddent ar yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth). (Gellir gweld hyn yn **Atodiad 1**.)
- 6.4 Yn y strwythur newydd a gynigir (**Atodiad 2**), mae rôl y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol yn cael ei dileu (gan arwain at ddim ond pedwar Cyfarwyddwr ac felly mae gostyngiad yn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth o saith i chwe aelod) ac mae rôl Pennaeth Gwasanaeth yn cael ei chreu [“Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd”] (gan arwain at gynnydd yn nifer y Penaethiaid Gwasanaeth o bedwar i bump).

## **7. ARGYMHILLIAD:**

### **7.1 Bod y Cyngor llawn yn:**

023010/615887

Tudalen 3 o 6

- 7.1.1 Nodi argymhellion y Pwyllgor Penodi a chadarnhau:
- 7.1.1.1 Dileu swydd Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol (swydd sydd hefyd wedi ei hadnabod fel Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn ystod y broses reciriwtio ddiweddar) o Gyfansoddiad y Cyngor;
  - 7.1.1.2 Creu rôl barhaol Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac i'r rôl hon gael ei hysbysebu'n allanol;
  - 7.1.1.3 Sefydlu a hysbysebu'n allanol swydd newydd, sef Swyddog Strategaeth Gorfforaethol.
- 7.1.2 Cadarnhau cynnwys **Atodiad 2**, sy'n adlewyrchu'r diwygiadau uchod i strwythur y Cyngor, yng Nghfansoddiad y Cyngor;
- 7.1.3 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Prif Weithredwr (yn dilyn ymgynghoriad), yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.2.11 o'r Cyfansoddiad, ac o ganlyniad i'r newid strwythurol uchod, yn rhannu'r meysydd cyfrifoldeb perthnasol ymhlið yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth, fel bo'r angen.
- 7.1.4 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro, yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.3.6.6 o'r Cyfansoddiad, yn diwygio'r Cyfansoddiad (gan gynnwys y cynllun dirprwyo i swyddogion) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â'r newid strwythurol uchod a dosbarthiad y cyfrifoldebau ymhlið yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y gwnaed gan y Prif Weithredwr dan 7.1.3 uchod.
- 7.1.5 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro yn gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol eraill i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r argymhellion uchod.

#### **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrrhod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Penodi ar 18 Rhagfyr 2020 ac fel yr amlinellwyd uchod.

Yr opsiwn arall a ystyriwyd gan y Pwyllgor Penodi oedd dileu swydd y Cyfarwyddwr perthnasol a phenodi 2 Bennaeith Gwasanaeth i gymryd y cyfrifoldebau drosodd. Mae'r opsiwn hwn yn ddrutach [Cyfanswm costau dau Bennaeith Gwasanaeth yw £211,479 gan adael diffyg felly o £58,251]. Oherwydd hynny, ynghyd ag anfanteision eraill a nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Penodi, penderfynodd y Pwyllgor wrthod yr opsiwn hwn.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cyngor gymeradwyo:

- gwneud newidiadau i'r strwythur uwch reoli gan gynnwys:
  - o dileu swydd y Cyfarwyddwr perthnasol; a
  - o creu rôl barhaol Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a
- diwygio'r Cyfansoddiad I adlewyrchu'r newidiadau hynny.

Mae gan y Prif Weithredwr yr awdurdod dirprwyedig i newid teitlau swyddi a meysydd cyfrifoldeb. Tra bod rhai o'r newidiadau i'r strwythur staffio yn dod o fewn yr awdurdod dirprwyedig hwn - ac awdurdod dirprwyedig y Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniadau hynny - mae yna newidiadau eraill y mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

Dylai'r Cyfansoddiad gael ei ddiweddar i adlewyrchu strwythur diweddaredig y Cyngor.

#### **C – Pam mae hwn yn penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r Cyfansoddiad yn dweud o dan baragraff 2.15.2.1 "Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig....."

#### **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amherthnasol

#### **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae'r gyllideb gyfredol yn ariannu un swydd Cyfarwyddwr ar swm o £119,228 (yn cynnwys costau pensiwn ac ati).

Cyfanswm cost Pennaeth Gwasanaeth a swyddog gradd 9 yw £165,182

Mae swm o £34,000 ar ôl yn y gyllideb ar gyfer y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn yr ailstrwythuro yn 2019 (y cyfeirir ato ym mharagraff 1 (Cefndir) uchod).

Mae yna ddiffyg felly o £11,954 rhwng cyllido rôl y Cyfarwyddwr ac ariannu'r ddwy rôl newydd.

Mae newidiadau strwythurol wedi eu gwneud i'r uwch dîm rheoli mewn blynnyddoedd blaenorol ac mae'r rhain wedi creu arbedion:

2014/15	£138,000( ailstrwythuro Penaethiaid Gwasanaeth)
2015/16	£300,000(ailstrwythuro'r Uwch Dîm)
2018/19	£45,000 (ar ôl yn sgil cyfuno swyddi Penaethiaid Gwasanaeth)

Ar y sail hon felly, er bod diffyg o ganlyniad i'r newid hwn, erys arbediad cyffredinol yn seiliedig ar ffigyrâu 2015/16.

Mae'n debygol na fydd yr apwyntiadau yn cael eu gwneud nes ar ôl 1 Ebrill 2021. Ar sail hyn felly, bydd y gwir gost ar gyfer 2021/2022 yn llai na'r hyn sydd wedi ei nodi o fewn y gyllideb ar gyfer y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Os bydd angen cyllideb ychwanegol ar gyfer 2021/2022, bydd yr arian yma yn dod allan o arian wrth gefn a bydd angen diwygio cyllideb 2022/2023 fel bo'r angen fel rhan o'r broses arferol o osod y gyllideb.

#### **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys	Bydd y penderfyniad hwn yn golygu y bydd gan y Cyngor swyddogion â chymwysterau addas i cyflawni rolau allweddol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan y Cyngor y capaciti a'r arbenigedd mewnol i arwain yn y meysydd
---	---	--

023010/615887

		<b>Datblygu Economaidd a Rheoleiddio.</b> Mae'r rhain yn elfennau sy'n hollbwysig i'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun pum mlynedd y Cyngor. Bydd gwaith a wneir gan y swyddogion yn y rolau hyn yn gwella bywydau a chyfleoedd cenedlaethau'r dyfodol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-	Na, nid yn uniongyrchol ond bydd yr argymhelliaid yn cyfateb i arbediad o'i gymharu â'r datrysiau amgen megis creu dwy swydd Pennaeth Gwasanaeth newydd
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-	Nac ydym gan na fyddai capaciti ychwanegol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan yn draffti'r ffordd hon ymlaen? Esboniwrch sut:-	Naddo
5	Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg	Dim gan fod y cynnig yn golygu reciwtio yn unol â Pholisiau Cydraddoldeb a laith Gymraeg y Cyngor


<b>DD - Gyda phwy yr ymgynghorwyd?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)</b>	Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
2	<b>Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)</b>	Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)</b>	Drafftiwyd yr adroddiad ar gyfarwyddyd y Prif Weithredwr ac mae'n cadarnhau bod y broses yn cyd-fynd â gofynion y Cyfansoddiad.
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
5	<b>Eiddo</b>	
6	<b>Technoleg Gwybodaeth (TG)</b>	
7	<b>Caffael</b>	
8	<b>Sgriwtini</b>	
9	<b>Aelodau Lleol</b>	

<b>F - Atodiadau:</b>
<b>Atodiad 1</b> Strwythur Cyfredol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth - i'w dynnu o'r Cyfansoddiad
<b>Atodiad 2</b> Strwythur Arfaethedig yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth - i'w gynnwys yn y Cyfansoddiad

<b>FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):</b>


**Cyngor Sir Ynys Môn****Strwythur yr Uwch Dîm Rheoli / Penaethiaid Gwasanaeth**

Tudalen 59



**Cyngor Sir Ynys Môn****Strwythur yr Uwch Dîm Rheoli / Penaethiaid Gwasanaeth**

Tudalen 60



CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Gwaith
<b>Dyddiad:</b>	25 Ionawr, 2021
<b>Pwnc:</b>	Strategaeth Tai Dros Dro 2021
<b>Deilydd(ion) Portffolio:</b>	Y Cynghorydd Alun Mummery
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Ned Michael
<b>Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:</b>	Elliw Llŷr, Rheolwr Strategaeth, Polisi a Chomisiynu, Gwasanaethau Tai 01248 752137
<b>Aelodau Lleol:</b>	Amherthnasol

#### A –Argymhellion a Rhesymau

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo: -

**A1** cymeradwyo Strategaeth Tai Dros dro 2021.

**A2** dull o gyfathrebu wrth ddatblygu'r Strategaeth Tai 2022-27 a chynllun gwaith gyda phartneriaid sydd yn arwain at gyfnod ymgynghori a chymeradwyaeth terfynol

##### 1. Cefndir

###### a) Rol y Strategaeth

Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i asesu'r angen am dai ac i arwain ar waith partneriaeth i sicrhau tai o safon sy'n cwrdd ag anghenion ei ddinasyyddion yn awr ac yn y dyfodol.

Y Strategaeth Dai Leol yw gweledigaeth y Cyngor ar gyfer sut y gellid gwella tai ar gyfer pobl Ynys Môn dros gyfnod o bum mlynedd ac mae'n cynnwys y blaenorriaethau ar gyfer cyflawni hynny. Bydd y Strategaeth yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r anghenion tai ar yr ynys, y materion y mae angen rhoi sylw iddynt a'r prif ganlyniadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflawni.

###### b) Sefyllfa Gyfredol

Ein bwriad wrth gyflwyno'r Strategaeth Tai Dros Dro 2021 yw rhoi dogfen strategol mewn lle sydd yn cydnabod y newidiadau sydd wedi ein hwynebu yn ystod y flwyddyn gan flaenorriaethau'r hyn sydd angen digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf ynghyd ag gwybodaeth ar sut mae Gwasanaethau Tai a'i bartneriaid yn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn parhau i ymateb iddo.

Mae hefyd yn fod i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Ddigartrefedd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2022.

## 2. Amcanion Allweddol

Defnyddiwyd blaenoriaethau'r Strategaeth bresennol ar gyfer y Strategaeth Dros Dro a fydd hefyd yn sail ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-27. Sef:

- Thema 1 – Codi'r catrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn
- Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau
- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
- Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 – Gwirededu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

## 3. Ymgynghoriad

Rhoddwyd ddogfen Strategaeth Tai Interim ar safle we'r Cyngor gan ymgynghori gydag ein prif bartneriaid er mwyn derbyn sylwadau, bydd hefyd yn rhoi cyfle i ni gychwyn y gwaith o ymgysylltu ar Strategaeth ar gyfnod o 2022-27. Cadwyd at brif thema'r Strategaeth flaenorol ar gyfer y flwyddyn hon ac fe defnyddiwyd y cyfnod ymgynghori hwn i ddechrau casglu barn am y brif thema a ddylid eu cynnwys yn y Strategaeth o 2022 ymlaen.

Roedd y cyfnod ymgynghori hwn ar agor am 3 wythnos rhwng y 27ain o Dachwedd 2020 a'r 18fed o Ragfyr 2020. Mae **Atodiad 1** yn dangos adroddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn yr ymgynghoriad.

Derbyniwyd 21 o ymatebion drwy'r holiadur ymgynghori, sydd yn cynnwys ymatebion gan aelodau'r cyhoedd, Cyngorwyr Môn a Rhanndeiliad. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn arddangos cefnogaeth tuag at y Strategaeth Tai Dros Dro 2021, gyda 86% o ymatebwyr yn cytuno bod y materion a'r blaenoriaethau pwysicaf wedi cael eu hadnabod. Yn ogystal mae'r mwyafri o ymatebwyr yn cytuno bod y themau sydd wedi eu cynnwys yn y Strategaeth Dros Dro yn addas ar gyfer y Strategaeth Tai 2022-2027.

Bydd yr ymatebion yma yn sail i ni wrth symud ymlaen gyda Strategaeth Tai 2022-27.

## 4. Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Strategaeth Tai 2022-27

Nod yr ymgynghoriad yw datblygu a derbyn adborth ar y Strategaeth Tai ar gyfer 2022-27 ac adnabod sut gellir cyflawni hyn gyda parterniaid gyda'r bwriad o lunio blaenoriaethau ac adnabod camau gweithredol ymarferol er mwyn delio gyda'r materion hyn.

**a) Cynulleidfa Darged:**

- a) Byddwn yn cynnwys y partneriaid a ganlyn:
- Gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor
  - Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
  - Heddlu Gogledd Cymru
  - Mudiadau Trydydd Sector
  - Shelter Cymru
  - Landlordiaid Cymdeithasol Gwledig; Tai Gogledd Cymru, Clwyd Alyn a Grŵp Cynefin
  - Darparwyr Grant Cefnogaeth Tai
- b) Cwsmeriaid Gwasanaethau Tai
- c) Aelodau Etholedig

Ymgysylltu:

	Disgrifiad	Dull	Dyddiad
1.	Drafft Cyntaf yn barod		Ebrill 2021
2.	Cynnal gweithdy gyda Partneriaid Tai	Sesiynau i gasglu barn partneriaid ar y cynllun gweithredu arfaethedig.	Mai 2021
3.	Ymgynghoriad cyhoeddus drafft terfynol  (6 wythnos)	Ar gael ar-lein. Hyrwyddo ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.  Copïau papur ar gael yn 'Cyswllt Môn', Canolfan JE O'Toole, Llyfrgelloedd.  Gofynnir i bartneriaid annog cwsmeriaid i gymryd rhan.  Hysbysu staff o'r ymgynghoriad drwy'r	Mehefin-Awst 2021

		<p>newyddlen staff.</p> <p>Mynychu grwpiau a cyfarfodydd gwahanol i gasglu barn a hyrwyddo'r ymgynghoriad.</p> <p>Gyrru linc i'r ymgynghoriad ar-lein i bartneriaid, cynghorwyr lleol, cynghorau tref a chymuned, a landlordiaid preifat,</p>	
4.	Drafft terfynol i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dilyn yr ymgynghoriad.		Medi 2021
5.	Cymeradwyaeth gan Bwyllgor Gwaith		Hydref 2021

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac / neu pam y dewiswyd yr opsiwn hwn?**

Nid yw peidio cyhoeddi Strategaeth Tai yn opsiwn gan ei fod yn greiddiol i waith partneriaid Tai a'r Cyngor ar yr Ynys

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Er mwyn sel bendith ar amcanion a weithgaredd ar yr Ynys

**D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

<b>E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)</b>	
2	<b>Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)</b>	
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)</b>	
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Amherthnasol
5	<b>Eiddo</b>	Amherthnasol
6	<b>Technoleg Gwybodaeth (TG)</b>	Amherthnasol
7	<b>CaffaelA</b>	Amherthnasol
8	<b>Sgriwtini</b>	
9	<b>Aelodau Lleol</b>	

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Crynodeb o ymatebion i'r Strategaeth Tai Dros Dro 2021

Atodiad 2 – Strategaeth Tai Dros Dro 2021

**G – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

## **Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth Tai Dros Dro 2021**

### **Rhagfyr 2020**

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad Strategaeth Tai Dros Dro Ynys Môn 2021. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 3 wythnos rhwng 27ain o Dachwedd 2020 a'r 18fed o Ragfyr 2020.

#### **Cefndir:**

Ein bwriad wrth gyflwyno'r Strategaeth Tai Dros Dro 2021 yw rhoi dogfen strategol mewn lle sydd yn cydnabod y newidiadau sydd wedi ein hwynebu yn ystod y flwyddyn, gan hefyd flaenoriaethu'r hyn sydd angen digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf ynghyd a gwybodaeth ar sut mae Gwasanaethau Tai a'i bartneriaid yn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn parhau i ymateb iddo.

Mae hefyd yn fod i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Ddigartrefedd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2022.

Rydym wedi cadw themau'r Strategaeth flaenorol ar gyfer y flwyddyn hon, fel a ganlyn, a byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori hwn i ddechrau casgru barn am y prif themau a ddylid eu cynnwys yn y Strategaeth o 2022 ymlaen.

- Thema 1 – Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn
- Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau
- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
- Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 – Gwireddu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

#### **Methodoleg:**

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Gorfforaethol y Cyngor, gyda linc i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar 'Smart Survey'. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r dulliau canlynol:

Hyrwyddwyd yr holiadur yn gyson i aelodau'r cyhoedd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori o 3 wythnos.


Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnwys yn newyddlen wythnosol staff Cyngor Sir Ynys Mon (Medra Môn).

Anfonwyd linc i'r holiadur ar-lein at:

- Gynghorwyr Lleol Ynys Mon
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestedig sy'n gweithredu ar yr Ynys
- Darparwyr Grant Cymorth Tai
- Staff Gwasanaethau Tai
- Gwasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig
- Uned Polisi Cynllunio Gwynedd a Mon ar y Cyd
- Care & Repair Cymru

### Canlyniadau'r Ymgynghoriad:


Derbyniwyd 21 ymateb i'r holiadur ar-lein. Mae Siart 1 yn dangos i ba grwp yr oedd pob ymatebwr yn berthyn.



Gellir gweld crynodeb o ymatebion i'r holiadur isod.

**Ydi'r Strategaeth Tai Dros Dro wedi adnabod y materion a'r blaenoriaethau pwysicaf sydd angen sylw gan Cyngor Sir Ynys Mon yn ystod y flwyddyn nesaf?**

Fely gwelir yn y siart isod roedd 86% o ymatebwyr o'r farn bod y Strategaeth Tai Dros Dro wedi adnabod y materion a'r blaenoriaethau pwysicaf sydd angen sylw gan yr Adran Dai yn ystod 2021.




## Oes yna unrhyw faterion tai eraill sydd angen sylw gan Cyngor Sir Ynys Môn?

Derbyniwyd sylwadau a oedd yn dangos pryder am y materion isod:

- Angen adeiladu mwy o dai un llawr / bynaglos ar gyfer pobl hyn (x2)
- Mae nifer uchel o dai haf yn yr ardal yn prisio pobl lleol allan o'r farchnad (x2)
- Sut mae'r Cyngor yn mynd i stopio gwresogi tai efo tanwydd carbon?
- Nifer uchel o dai gwag ar yr Ynys
- Ddim yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc presennol. Pam ddim adeiladu estyniad pan mae eiddo yn dod yn wag er mwyn darparu llety ar gyfer teuluoedd sydd angen 4/5 llofft?
- Angen adeiladu tai mewn canolfannau cyflogaeth a poblogaeth, yn lle ardaloedd gwledig.
- Amserlen gwaith cynnal a chadw cynlluniedig yn rhy hir
- Polisi Gosod yn achosi rhwystr i defnyddwyr gwasanaeth mewn llety a chefnogaeth, sydd wedi dod i'r Ynys o Siroedd eraill.

## Ydi'r 6 themâu sydd wedi eu cynnwys ar gyfer y Strategaeth Tai Dros Dro 2020-21 yn addas ar gyfer y Strategaeth Dai 2022-2027?

Fel y gwelir yn y siart isod roedd y mwyafri o ymatebwyr o'r farn bod y 6 themâu yn addas ar gyfer sail y Strategaeth Dai 2022-2027.



## Beth yw'r rheswm dros eich ateb?

Derbyniwyd nifer o sylwadau cefnogol ynglyn a defnyddio'r 6 themau fel sail ar gyfer y Strategaeth Dai 2022-2027.

Fodd bynnag derbyniwyd sylwad gan un ymatebwr a oedd yn pryderu bod Thema 6 (Gwirededu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach) ddim yn addas gan fod yr economi ehangach tu allan i reolaeth lleol.

## **Oes gennych unrhyw sylwadau pellach sy'n ymwneud a'r Strategaeth Tai Dros Dro?**

Derbyniwyd sylwadau a oedd yn cynnwys y canlynol, fel ymateb i'r cwestiwn uchod:

- Angen meddwl mwy fel busnes er mwyn uchafu cyfleoedd i wir gyrraedd anghenion pobl Môn.
- Mae dyfodol yr Ynys yn eich dwylo. Gallwch ddinistrio ei brydferthwch neu datblygu mewn harmoni efo'r Ynys.
- Mae tai ha far yr Ynys yn lleihau y stoc tai sydd ar gael, ac o ganlyniad dylai mesuriadau gael eu rhoi mewn lle i leihau eu niferoedd.

### **Casgliad:**

Derbyniwyd 21 o ymatebion drwy'r holiadur ymgynghori, sydd yn cynnwys ymatebion gan aelodau'r cyhoedd, Cynghorwyr Môn a Rhanddeiliad.

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn arddangos cefnogaeth tuag at y Strategaeth Tai Dros Dro 2020-21, gyda 86% o ymatebwyr yn cytuno bod y materion a'r blaenorriaethau pwysicaf wedi cael eu hadnabod. Yn ogystal mae'r mwyafri o ymatebwyr yn cytuno bod y themau sydd wedi eu cynnwys yn y Strategaeth Dros Dro yn addas ar gyfer sail y Strategaeth Dai 2022-2027.

O'r herwydd argymhellir bod y Strategaeth Tai Dros Dro 2021 yn cael ei gymeradwyo, ynghyd a'r dull o gyfathrebu ar gyfer y Strategaeth Tai 2022-2027.

# Ynys Môn THE ISLE OF Anglesey

## STRATEGIAETH TAI INTERIM 2021



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

[www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Yr hyn a gyflawnwyd ym maes tai	3
3.	Cyd-destun lleol a chenedlaethol	4
Tema 1 -	Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn	10
Tema 2 -	Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau	13
Tema 3 -	Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai	15
Tema 4 -	Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai	17
Tema 5 -	Cartrefi ar gyfer byw'n hirach	19
Tema 6 -	Gwirededu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach	20
Atodiad I		22

## I. Cyflwyniad

Yn y Strategaeth Dai flaenorol 2014-19 cydnabuwyd bod yr angen sylfaenol i gael man y gallwn ei alw'n gartref yn bwysig a bod llawer o ffactorau sy'n gweithredu ar lefel micro a macro yn effeithio ar sut y cyflawnir hyn. Tynnodd sylw at bwysigrwydd tai a'r effeithiau y gall hyn eu cael ar unigolion a theuluoedd o ran creu cyfle i gael sefydlogrwydd a sicrhau cynhwysiant sy'n cyfrannu at y cymunedau ar yr Ynys. Ni fu'r angen i gael cartref erioed yn fwy amlwg nag yn ystod pandemig y coronafeirws lle gwelsom fusnesau a gwasanaethau'n cau a/neu'n addasu dros nos.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth flaenorol, roedd effeithiau Credyd Cynhwysol, Wylfa Newydd a Brexit naill ai'n anhysbys neu'n ansicr. Mae cael Strategaeth sy'n ddigon hyblyg i allu newid a datblygu'n bwysig yn ogystal â chynllunio ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor.

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gallu cynnig amrywiaeth o opsiynau tai yn ogystal â chynnig cyngor a chymorth i unigolion a theuluoedd sy'n byw ar yr Ynys. Dim ond mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, Cymdeithasau Tai ac asiantaethau a phartneriaid eraill y gellir cyflawni hyn.

Mae'r Strategaeth Dros Dro hon yn fod i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Ddigartrefedd gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â rhoi gwybodaeth sut mae Gwasanaethau Tai a phartneriaid yn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn parhau i ymateb iddo.

## 2. Yr hyn a gyflawnwyd ym maes tai

Mae'n bwysig edrych ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y Strategaeth ddiwethaf. Yn ôl adolygiad a gynhalwyd yn ystod 2014 ac cyrraedd i 2019-20:

- Darparwyd 43 o gartrefi newydd y Cyngor rhwng 2015-2020 a phrynwyr 65 o gartrefi ychwanegol
- Darparwyd 321 o dai newydd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid rhwng 2014 a 2019 sydd yn cynnwys rhent cymdeithasol, rhent canolraddol, cymorth prynu, rhentu i brynu ac gofal ychwanegol
- Cymeradwywyd cais cynllunio ar gyfer man aros dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
- Cafodd 439 o gartrefi gwag eu dod yn nol i ddefnydd rhwng 2014-19
- Cwblhawyd Hafan Cefni, Cynllun Gofal Ychwanegol yn Llangefni
- Cwblhawyd Arolwg STAR yn 2019 gydag 88% o denantiaid yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan y Gwasanaeth Tai ac 86% yn fodlon ar ansawdd cyffredinol eu cartref
- Mae 438 o unigolion a theuluoedd wedi cael grant cyfleusterau i'r anabl rhwng 2014-19
- Dengys 2018-19 bod SATC yn cydymffurfio 100%
- Ers cyflwyno un pwynt mynediad ar gyfer Grant Cefnogi Tai yn 2016 mae 3,275 o gyfeiriadau wedi eu derbyn hyd Mawrth 2020

Yn ystod cyfnod y Strategaeth Dros Dro hwn byddwn yn cyflawni'r canlynol:-

- 23 o unedau wedi eu cwblhau gan ein partneriaid Cymdeithasau Tai yn 2019-20
- 49 o unedau disgwyliedig i'w cwblhau gan ein partneriaid Cymdeithasau Tai yn 2020-21
- 93 o unedau disgwyliedig i'w cwblhau gan ein partneriaid Cymdeithasau Tai yn 2021-22
- 38 o unedau Cyngor wedi cychwyn ar safle yn ystod 2020-21
- 40 o unedau Cyngor wedi cychwyn ar safle yn ystod 2021-22
- Hyd at 75 o dai gwag yn ôl i ddefnydd yn ystod 2020-21
- Lleiafswm o 50 tai gwag yn ôl i ddefnydd yn ystod 2021-22

## 3. Cyd-destun lleol a chenedlaethol

Mae hyn yn tynnu sylw at y prif faterion sy'n effeithio ar y Strategaeth.

**Cynllun Corfforaethol y Cyngor** sy'n darparu fframwaith i bob gwasanaeth gyda'r gwasanaeth tai yn chwarae rhan amlwg i gyflawni hyn. Mae'r ddogfen hon hefyd yn darparu fframwaith i wasanaethau gydweithio i gyflawni nod cyffredin.

<https://www.anglesey.gov.uk/en/Council/Measuring-our-performance/Council-Plan-and-performance.aspx>

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Mesur-ein-perfformiad/Cynllun-y-Cyngor-a-pherfformiad.aspx>

Yn eistedd oddi dan y ddogfen hwn mae nifer o Strategaethau eraill sydd yn bwydo i fewn ac yn hwyluso cyflawni y Cynllun uchod.

### Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026

Mabisiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn mis Gorffennaf 2017. Mae hwn yn strategaeth ddatblygu dros gyfnod o 15 mlynedd ar gyfer defnydd tir sy'n canolbwytio ar gael datblygiad cynaliadwy. Mae'r ddogfen hwn yn llywio datblygiadau ar gyfer tai newydd ar yr Ynys, ynghyd a defnyddiau eraill.

### POLISI CENEDLAETHOL:

#### Diwygio Lles

Rhoddyd llawer o gyhoeddusrwydd i'r ffaith bod Diwygio Lles wedi cyflwyno rhai o'r newidiadau a'r effeithiau mwyaf sylfaenol ers cyflwyno'r Systemau Lles yn 1946. Daeth Diwygio Lles i rym ar Ynys Môn ddiwedd 2018 a'i weithredu'n raddol. Sefydlyd Hyb Diwygio Lles gyda Gwasanaethau ac asiantaethau allweddol y Cyngor gyda'r nod o ddarparu ymatebion a mesurau lliniaru priodol. Gwnaed hyn drwy:

- Ddatblygu ymatebion i ganlyniadau uniongyrchol Credyd Cynhwysol
- Ystyried y goblygiadau tymor hir i ddinasyddion a gwasanaethau Ynys Môn, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, amrywiaeth eang o senarios
- Gwella dealltwriaeth leol o sut y bydd Credyd Cynhwysol yn effeithio ar wasanaethau statudol ac anstatudol

- Diweddar ac ymgysylltu gyda phartneriaid allweddol yn ôl yr angen trwy fecanweithiau partneriaeth sefydledig a nodi a gwella meysydd lle nad yw'r fframwaith hwn yn bodoli neu lle mae'n methu â darparu ymateb priodol
- Cynhyrchu a chynnal cynllun gweithredu gyda chyfres o argymhellion pan fo'r Hyb wedi dod i ben)

Ym mis Gorffennaf 2020 comisiynwyd Asesiad Cychwynnol o effeithiau posibl y cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar wasanaethau a chyllidebau CSYM. Yn yr adroddiad hwn tynnwyd sylw at y cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra mewn cyfnod byr iawn yn ystod Covid a'r ffaith bod hyn yn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc a dynion. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at effeithiau cymdeithasol y cynnydd mewn diweithdra sy'n cynnwys problemau iechyd meddwl, cam-drin domestig ac ynysu.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgrifio tai fel conglifaen llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrf cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrrf cyhoeddus i geisio cyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant ym mhopheth a wnânt.

Mae Atodiad I yn tynnu sylw at rai o'r gweithgareddau y mae Tai wedi ymgymryd â nhw sy'n cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Grant Cymorth Tai

Daeth Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru i rym ym mis Ebrill 2020 ac mae wedi disodli'r Rhaglen Cefnogi Pobl flaenorol. Mae'r Grant Cymorth Tai yn gyfuniad o dri grant sy'n bodoli eisoes; Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhent Doeth Cymru.

Rhaglen grant ymyrraeth gynnar yw'r Grant Cymorth Tai i gefnogi gweithgarwch, sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu'n helpu pobl a llai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Nid yw'r Grant Cymorth Tai yn ariannu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd, yn hytrach mae gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai yn ychwanegu at, yn ategu ac yn cefnogi'r gwasanaeth statudol i sicrhau bod y cynnig cyffredinol y mae awdurdodau'n ei ddarparu yn helpu pobl i ddod o hyd i'r cartrefi priodol gyda'r cymorth priodol i lwyddo. Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau lluosog y maent weithiau yn eu hwynebu, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaethau, camddefnyddio sylweddau, traís yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cymorth yn canolbwntio ar yr unigolyn, gyda'r nod o gefnogi pobl i sicrhau a chynnal tai cynaliadwy drwy fynd i'r afael â'r problemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau y maent yn eu hwynebu, helpu i wella eu hiechyd a'u llesiant a/neu eu helpu i symud ymlaen i gael swydd neu hyfforddiant, neu gam yn nes at hynny, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol.

Mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn darparu nifer o wasanaethau i alluogi pobl sy'n agored i niwed i gynnal eu tenantiaethau / haelwydydd a/neu fyw'n annibynnol o fewn y cartrefi a'r cymunedau o'u dewis, cyhyd â phosibl.



## Datgarboneiddio

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Lywodraethau i leihau allyriadau carbon, yng Nghymru bydd hyn yn 80% o leiaf erbyn 2050. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd yn 2019 - Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell Gorffennaf, 2019 - yn rhoi 7 argymhelliaid i Lywodraeth Cymru arwain arnynt sy'n nodi bod:

'Mae gan Gymru rai o'r tai hynaf a lleiaf thermol effeithlon yn y DU ac Ewrop. Adeiladwyd 32% o'r stoc dai yng Nghymru cyn 1919, pan nad oedd unrhyw safonau adeiladu o ran perfformiad thermol. Dim ond 10% o gartrefi yng Nghymru gafodd eu hadeiladu yn ystod y 18 mlynedd diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae gofynion perfformiad ynni wedi newid yn sylweddol.'

Mae gan gynllun diweddar Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel" bennod gyfan ar adeiladau sy'n seiliedig ar bob deiliadaeth a nodir mai prif ffynhonnell allyriadau yw adeiladau preswyl sydd â'r ganran uchaf o gyfanswm allyriadau Cymru.

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan argyfwng hinsawdd ac bydd ein gwaith yn y maes decarboneiddio yn rhan o'r datrysiaid hwn.

### Ail-ddychmygu adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru—Strategaeth dulliau modern o adeiladu ar gyfer Cymru, Chwefror 2020

Strategaeth sy'n nodi'r disgwyliadau sy'n ymwneud â chodi cartrefi gan ddefnyddio Dulliau Modern o Adeiladu sy'n annog datblygwyr i ategu dulliau adeiladu traddodiadol gyda thechnolegau a dulliau newydd.

### Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Hydref, 2019

Mae'n datgan yn glir na ellir atal digartrefedd drwy ddarparu tai yn unig. Ystyr digartrefedd yw sefyllfa lle nad oes gan berson lety neu lle nad yw ei ddaliadaeth yn sicr. Cysgu allan yw pen mwyaf gweledol a difrifol y sbectrwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys unrhyw un sydd heb lety, unrhyw un sy'n methu â chael mynediad i'w lety neu unrhyw un nad yw'n rhesymol iddo barhau i feddiannu llety. Byddai hyn yn cynnwys gorlenwi, 'mynd o sofa i sofa', dioddefwyr camdriniaeth a llawer o senarios eraill. Mae rhywun hefyd yn ddigartref os yw ei lety'n strwythur symudol ac nad oes lle i'w osod. Gall digartrefedd, neu'r risg o wynebu digartrefedd, gael effaith ddinistriol ar unigolion a theuluoedd. Mae'n effeithio ar iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant pobl ac arddatblygiad ac addysg plant, ac mae'n peri risg y bydd sefyllfa unigolion yn gwaethyg tuag at y mathau mwy difrifol o ddigartrefedd.

## Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol

Mabwysiadwyd Strategaeth Ranbarthol gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru gyda'r nod o Leihau Digartrefedd ledled Gogledd Cymru o dan benawdau Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau gyda themâu cyffredin i bob Awdurdod Lleol yn eu hadolygiadau unigol. Yna byddai cynllun gweithredu ranbarthol a lleol yn cynnwys y prif faterion a'r camau gweithredu angenrheidiol. Y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2020-21 oedd ein hymateb i bandemig y coronafeirws.

### Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Nod y Ddeddf hon yw ei gwneud yn symlach rhentu cartref a diogelu hawliau tenantiaid. Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn disodli'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol gyda dim ond dau fath o gcontract meddiannaeth; diogel neu safonol. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd angen ail-gyflwyno pob cytundeb tenantiaeth newydd a phresennol. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu hawliau newydd i ddioddefwyr cam-drin domestig, i bobl mewn tai a rennir ac i denantiaid y mae angen gwneud atgyweiriadau i'w tai.

### Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai

Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a diweddu Cynllun Busnes eu Cyfrif Refeniw Tai bob blwyddyn. Mae hyn yn darparu adroddiad blynyddol ar ein gweithgareddau yn ogystal â throsolwg o ddatblygiadau newydd ein partneriaid.

### Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru

Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn adolygiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalyr. Fe'i cynhyrchwyd gan chwe Chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chefnogaeth lechyd Cyhoeddus Cymru, i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y ddeddf).

## Fforddiadwyedd

Nid yw'r Sector Rhent Preifat ar Ynys Môn yn farchnad arbennig o fforddiadwy gyda chyfran o'r tai o fewn lefelau Lwfans Tai Lleol. Mae prynu cartref yn parhau i fod y tu allan i gyrraedd llawer o brynwyr tro cyntaf oherwydd prisiau uchel o'i gymharu â'r lefelau incwm lleol a'r blaendaliadau sydd eu hangen. Mae hynny, a diffyg argaeledd tai cymdeithasol addas, wedi gweld llawer o'r aelwydydd hyn yn troi at y farchnad rhentu. Mae tua 22% o holl boblogaeth Ynys Môn yn derbyn naill ai Budd-dal Tai neu gymorth tuag at y dreth gyngor, gyda 59.9% o'r aelwydydd hyn o edd gweithio ac yn destun yr ystod gyfan o ddiwygiadau lles. Dangosodd yr adroddiad fod rhent 74.4% o'r aelwydydd hyn yn uwch na'r gyfradd LTLL berthnasol a ddefnyddir i ddibenion dyfarnu Budd-dal Tai. Y gwahaniaeth rhwng y rhent a godir a'r Budd-dal Tai a dderbynir yw £25.74 yr wythnos ar gyfartaledd. Mae mwyafrif yr aelwydydd (79.3%) ym Môn y mae'r cap LTLL yn effeithio arnynt o edd gweithio.

Mae adroddiad a gomisiynwyd ar y Sector Rhentu Preifat yn dangos bod landlordiaid yn codi rhwng 10-20% yn uwch na'r lefelau Lwfans Tai Lleol gan wybod y bydd aelwydydd yn dod o hyd i'r rhent ychwanegol. Mae'n ymddangos bod fforddiadwyedd yn broblem yn enwedig i aelwydydd ar incwm is neu ar fudd-daliadau. Mae rhai landlordiaid yn nodi 'dim DSS' tra bod eraill yn osgoi derbyn tenantiaid ar Gredyd Cynhwysol oherwydd eu bod yn ofni goblygiadau rhent-uniongyrchol. Mae landlordiaid sy'n derbyn tenantiaid ar fudd-daliadau yn cymryd mis o flaendal a / neu angen gwarantwr a all dalu'r rhent llawn.

Cynhaliodd Ynys Môn arolwg o landlordiaid y sector preifat yn ystod 2017. Anfonwyd yr arolwg at 384 o landlordiaid preifat gyda chyfradd ymateb o 11%. I grynhau, roedd y mwyafrif yn berchen ar un tŷ, roedd 74% o'r tenantiaid wedi aros rhwng 1 a 5 mlynedd, roedd 42% yn hawlio budd-dal tai. Gofynnwyd hefyd beth fyddai'n cymhell landlordiaid i'w gosod i denantiaid ar fudd-dal tai. Mewn ymateb, dywedodd 71% y byddent yn gwerthfawrogi rhyw fath o gymorth tenantiaeth, roedd 85% am gael rhyw fath o sicrwydd rhent. Y mathau o broblemau a gofnodwyd oedd ôl-ddyledion rhent, 52% a bod tenantiaid yn achosi difrod i'r eiddo, 48%. Pan gynigiwyd rhestr o gymhellion, gofynnwyd i landlordiaid restru ar sail blaenorhaeth y cymorth ariannol ar gyfer mân welliannau a sicrwydd rhent ar gyfer eiddo gwag hyd nes dod o hyd i denantiaid addas.

## THEMA I – Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn

### PAM FOD HWN YN FATER PWYSIG I FÔN?

- I. Yr effaith y mae prinder tai fforddiadwy'n ei chael ar unigolion a chymunedau
  - a) Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn bryder i lawer o gymunedau gan fod y prinder cartrefi addas sy'n fforddiadwy i bobl leol wedi'i amlyu yn ystod y pandemig Coronafeirws gyda thai'n gwerthu'n gyflymach ar y farchnad agored ac am brisiau uwch ledled yr Ynys. Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid darparu blaendal o 15% wrth i fenthycwyr newid eu hagwedd oherwydd pryderon am brisiau tai ac incwm pobl yn ystod y pandemig. Fel y gwelwyd o'r blaen yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad, mae nerfusrwydd benthycwyr yn cymryd amser i gilio.
  - b) Y cyflog cyfartalog yn Ynys Môn yw £27,280 ac mae digon o dystiolaeth bod cyflogau yng Ngogledd Cymru yr isaf ym Mhrydain. Nodwyd bod cyflogau ym Mharc Gwyddoniaeth M-Sparc yn uwch na'r cyfartaledd yn Ynys Môn a Chymru yn 2020. Ar wahân i'r fenter hon ni fu unrhyw newid yn yr incwm canolrifol ar yr Ynys.
  - c) Pris tŷ ar gyfartaledd yn Ynys Môn ym mis Ionawr 2020 oedd £180,505 o'i gymharu â £175,192 yn 2019 sy'n dangos cynnydd o 3%. Mae adroddiadau ym mis Medi 2020 yn dangos bod rhai pentrefi wedi gweld cynnydd o 21.3% ym mhris cyfartalog tai ers lleddfu cyfyngiadau'r cyfnod clo, gyda llawer yn nodi bod yr angen i weithio gartref a hwylustod hynny wedi ei gwneud yn haws i bobl ar gyflogau uwch brynu tai i fyw ynddynt mewn lleoliadau mwy gwledig.
  - d) Mae'r hawl i brynu wedi'i hatal yng Nghymru ers mis Ionawr 2019 gydag Ynys Môn yn cyflwyno'r newidiadau flwyddyn ynghynt o dan y Ddeddf. Er bod hyn wedi gallu atal y gostyngiad yn nifer yr eiddo rhent cymdeithasol, mae'r angen i ddarparu cartrefi mwy fforddiadwy yn parhau. Mae newidiadau yn y Cyfrif Refeniw Tai yn caniatáu i Awdurdodau Lleol fenthyc a adeiladu cartrefi fforddiadwy sy'n ategu'r gwaith a wnaed eisoes gan y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy. Llety yn y Sector Rhent Preifat yw'r unig opsiwn o hyd i rai pobl gan nad ydyn nhw'n gallu cael mynediad i dai cymdeithasol. Mae llawer o Landlordiaid yn codi mwy na'r Lwfans Tai Lleol ac mae aelwydydd yn gorfol talu'r gwahaniaeth ac felly mae ganddynt lai i'w wario ar eu biliau a chostau eraill. Mae hynny, yn ei dro, yn effeithio ar eu gallu i gynilo arian ar gyfer darparu blaendal pe byddent yn dymuno prynu eiddo.
  - e) Llety yn y Sector Rhent Preifat yw'r unig opsiwn o hyd i rai pobl gan nad ydyn nhw'n gallu cael mynediad i dai cymdeithasol. Mae llawer o Landlordiaid yn codi mwy na'r Lwfans Tai Lleol ac mae aelwydydd yn gorfol talu'r gwahaniaeth ac felly mae ganddynt lai i'w wario ar eu biliau a chostau eraill. Mae hynny, yn ei dro, yn effeithio ar eu gallu i gynilo arian ar gyfer darparu blaendal pe byddent yn dymuno prynu eiddo.

## 2. Tai Gwledig

Fel y nodwyd yn y Strategaeth flaenorol, mae materion penodol mewn perthynas â'r cyflenwad o dai y tu allan i'r prif ganolfannau gwasanaeth yn Ynys Môn (Caergybi, Llangefni ac Amlwch) lle mae prisiau tai yn tueddu i fod yn uwch. Amlygwyd effaith prynu ail gartrefi neu symud i fyw i ardaloedd mwy gwledig yn ystod y pandemig Coronafeirws.

## 3. Llety i Sipsiwn a Theithwyr

Amlygodd yr Asesiad o Anghenion Llety, 2016, y ddarpariaeth ar gyfer safle aros dros dro a safle parhaol.

### Beth sydd angen digwydd erbyn 2021

- Mae'r Cyngor yn cadw'r dystiolaeth ddiweddaraf am lefel yr angen am dai fforddiadwy, gwneir hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth gan Tai Teg a'r Gofrestr Gosodiadau Cyffredin. Bydd adroddiad, sydd i'w chyhoeddi yn fuan, yn rhoi trosolwg o'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr Asesiad o Anghenion ar gyfer gofynion Cynllunio'r Grant Cymorth Tai ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu cartrefi llai yn ei raglen ddatblygu ar y cyd â'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid.
- Mae angen parhau i fynd i'r afael â'r angen am dai gwledig gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid a'n Huned Polisi Cynllunio gyda chymorth yr Hwyluswyr Tai Gwledig. Mae'r dulliau ymgynghori wedi newid oherwydd pandemig y coronafeirws. Gwneir llawer mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol ac ymgynghoriadau wedi'u targedu, enghraifft o hyn yw'r sesiwn holi ac ateb ar gyfer datblygiadau tai fforddiadwy newydd a gynhelir gan Awdurdod Lleol, Cymdeithas Tai a Tai Teg. Gall y Cyngor gael gafael ar gronfeydd benthyca i ddatblygu modelau tai newydd a gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid gall helpu i gynyddu nifer yr adeiladau newydd yn ogystal â phrynu cyn Eiddo'r Cyngor yn ôl. Dros y 3 blynedd nesaf, rydym wedi nodi'r canlynol fel cyfleoedd datblygu posibl, a fydd yn cynyddu stoc tai'r Cyngor o gyfanswm o 176 o unedau:

	Prynu (targeted)	Dechrau codi adeiladau newydd
2020/21	7	38
2021/22	15	56
2022/23	15	40
Cyfanswm	37	134

- Bydd y Grant Tai Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio'n llawn gyda chyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei ddyfarnu o Gam 2 o'r Gronfa Ddigartrefedd Drosiannol a gwneir ceisiadau ar gyfer y Rhaglen Tai Arloesol a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Bydd y Cyngor hefyd yn datblygu tai canolraddol yn ogystal â hyrwyddo'r Cynllun Hunanadeiladu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. O 2021 bydd cynghorau'n gallu manteisio ar ddyraniad y Grant Tai Cymdeithasol.
- Bydd safle dros dro wedi'i gwblhau erbyn dechrau Haf 2021 a bydd Asesiad Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei gynnal yn ystod 2021 i'w gymeradwyo erbyn dechrau 2022.



## THEMA 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau

### PAM FOD HWN YN FATER PWYSIG I FÔN?

#### I. Mae angen mwy o gartrefi pan fo eiddo gwag yn wag

- a) Yn ôl basdata tai gwag ar 1af Ebrill, 2020 roedd yna 666 eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis neu fwy ar Ynys Môn. Mae Tîm Tai Gwag yn ffocysu ar ddelio gyda'r tai mwyaf problemus ar yr Ynys wrth barhau i gynnig grant adnewyddu tai gwag i brynwyr tro cyntaf prynu tŷ gwag sydd angen gwaith, grant adnewyddu i landlordiaid mewn ardaloedd penodol, benthyciadau i berchnogion o dai gwag sydd yn dymuno adnewyddu er mwyn gosod neu werthu a benthyciadau gwella tai i berchnogion tai gwag sydd yn dymuno hunan berchnogi. Yn ychwanegol mae'r tîm yn adnabod cyfleoedd i ailddatblygu safleoedd problemus i'r Rheolwr Datblygu Tai, cael hyd i gyn tai cyngor i'w prynu er mwyn cynyddu stoc cyngor cyfredol ac wedi gallu delio gydag eiddo problemus sydd wedi cael ei adnewyddu a'i gwerthu ymlaen i brynwyr tro cyntaf lleol ar sail rhannu ecwiti.

#### 2. Mae'r angen am gartrefi sector preifat o ansawdd da yn parhau i dyfu

- a) Mae cynllun Rhentu Doeth Cymru wedi hen sefydlu yng Nghymru gyda llawer o landlordiaid wedi cofrestru eu heiddo gan roi sicrwydd i denantiad eu bod yn bodloni'r gofynion. Fel y dengys adroddiadau diweddar, mae'r angen a'r galw am Dai Sector Preifat yn parhau i godi, a bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno tenantiaeth safonol ar draws y sector rhentu.
- b) Mae'r traddodiad o gynnal arolwg o gyflwr stoc wedi'i ail-lunio i gynnwys arolwg o gyflwr ac effeithlonrwydd ynni pob math o dai yng Nghymru. Y bwriad oedd sefydlu cronfa wybodaeth y gellid manylu ynddi ar lefel leol, hyd yma nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. Mae'r adroddiad diweddaraf sydd ar gael ar gyfer gwybodaeth o 2017-18, y prif bwyntiau yw bod amodau tai wedi gwella yng Nghymru gydag effeithlonrwydd ynni ar gyfartaledd yn gwella o Fand E yn 2008 i Fand d yn 2017-18.

#### 3. Tlodi Tanwydd

Mae tlodi tanwydd yn digwydd pan fo raid iaelwyd wario mwy na 10% o'i incwm ar holl danwydd yr aelwyd er mwyn cynnal lefel fodhaol o wres. Gallai hyn ddod yn fwy o broblem yn ystod pandemig y coronafeirws.

#### 4. Mae mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn ddiogel yn eu cymunedau

Ni fu byw mewn tai diogel erioed mor bwysig nag yn ystod pandemig y coronafeirws o ystyried yr angen i allu dilyn Canllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfngiadau symud, gan ddiogelu'r rhai a enwyd fel pobl agored i niwed a'r angen i allu hunanynysu. Yn ystod y misoedd diwethaf bu tensiwn mewn rhai cymunedau sydd wedi arwain at gynnydd mewn adroddiadau i'r Heddlu a Gwasanaethau'r Cyngor megis lechyd yr Amgylchedd.

#### 5. Cydlyniant cymunedol

Fel y nodwyd, mae materion negyddol wedi effeithio ar rai cymunedau yn ystod Covid ond cafwyd ymateb cadarnhaol hefyd gan gymunedau i sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed a phobl y mae angen cymorth arnynt yn gallu cysylltu â rhwydwaith o wirfoddolwyr a oedd yn gallu darparu cymorth emosiynol ac ymarferol yn ystod cyfnod y cyfngiadau. Mae hyn wedi rhoi sail i'r Ynys ddatblygu hyn ymhellach.

#### Beth sydd angen digwydd erbyn 2021

- I. Mae ein Strategaeth Cartrefi Gwag yn parhau i fod yn effeithiol o ran sicrhau bod cartrefi'n cael eu haildefnyddio drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwasanaeth ac yn manteisio ar gyfleoedd ariannu TRIP yn ogystal â chyflwyno model ecwiti a rennir ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf
2. Bod defnydd o'r dreth gan Dai Gwag ac Ail Gartrefi yn cael eu defnyddio ar gyfer hyrwyddo mynediad i dai fforddiadwy
3. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Landlordiaid y Sector Preifat ac mae'n gallu cynnig cronfa atal a chymhelliant i annog landlordiaid i letya teuluoedd ac unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Bydd ychwanegu Cymorth Sector Preifat drwy gyllid Cam 2 yn helpu i ddod o hyd i landlordiaid i weithio gyda ni.
4. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Benthyciad Gwella Tai i Berchnogion Cartrefi er mwyn gwella cyflwr eu heiddo yn ogystal â chynnig Grantiau gydag amodau i Landlordiaid sydd am sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu haildefnyddio.

## THEMA 3 – Atal argywng tai a chynyddu opsiynau tai

### PAM FOD HWNYN FATER PWYSIG I FÔN?

1. Mae nifer o ffactorau cefndir sy'n berthnasol i'r maes gwaith hwn
  - a) Mae'r ffyrdd o weithio'n unol â Deddf Tai 2014 wedi hen sefydlu o fewn Timau Tai erbyn hyn gyda chymorth yn cael ei ddarparu i atal digartrefedd a chynorthwyo gydag atebion. Newidiwyd y Canllawiau yn ystod cyfnod y cyfngiadau er mwyn i Awdurdodau Lleol allu cynnig cartref i bawb oedd yn ddigartref fel y gellid eu hamddiffyn rhag lledaeniad pandemig y coronafeirws.
  - b) Bu cynydd yn y galw am wasanaethau digartrefedd o ganlyniad uniongyrchol i bandemig y coronafeirws a newidiadau yng Nghanllaw Llywodraeth Cymru ar angen â blaenoriaeth. Nid yw'n glir a fydd y newid Polisi hwn yn parhau ar ôl Mawrth 2021 a beth fyddai oblygiadau hyn yn y tymor hir ar ein darpariaeth i bobl ddigartref.
  - c) Gan fod angen i landlordiaid roi mwy o rybudd nag arfer cyn dechrau camau yn y llys mae'n anodd rhagweld pryd y bydd tenantiaid yn cysylltu â'r Gwasanaethau Tai am gyngor a chymorth, mae hefyd yn anodd rhagweld faint sydd mewn trafferthion ariannol ar hyn o bryd wrth i ni weld cynydd yn nifer y bobl sy'n colli eu gwaith.
2. Ar hyn o bryd mae sefyllfa heriol yn wynebu nifer sylweddol o bobl ym Môn sy'n chwilio am eu cartref cyntaf neu sydd angen symud o'u llety presennol.
  - a) Fel y nodwyd eisoes bu cynydd yn y nifer sy'n datgan eu bod yn ddigartref gyda nifer yr aelwydydd a leolir mewn llety brys yn amrywio o 28 – 64 o aelwydydd. Gwaethygwyd hyn gan yr angen i allu symud aelwydydd ymlaen i llety sefydlog yn ogystal â darparu cymorth i'r cartrefi hynny nad ydynt wedi gorfol gadael eu cartref.

### Beth sydd angen digwydd erbyn 2021

1. Bydd parhau i gynnig llety brys yn parhau i fod yn flaenoriaeth gyda'r angen i sicrhau bod pawb sy'n datgan eu bod yn ddigartref yn gallu cael llety
2. Sicrhau bod cyllid cam 2 gan Lywodraeth Cymru i ddelio â Digartrefedd yn ystod cyfnod y cyfngiadau'n cael ei ddefnyddio'n llawn
3. Mabwysiadu Rhaglen Grant Cymorth Tai erbyn Rhagfyr 2021 a fydd yn cael ei hymgorffori yn y Strategaeth Dai
4. Parhau i weithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid, darparwyr cymorth ac asiantaethau eraill i gynnig cymorth i bobl sy'n ddigartref neu'n agored i ddigartrefedd
5. Parhau i weithio gyda landlordiaid y sector rhentu preifat a datblygu cysylltiadau â nhw
6. Bydd yr Hyb Diwygio Lles yn datblygu i gynnwys ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â thlodi
7. Cyflwynir Bwyd da fel ffordd fforddiadwy o ddarparu bwyd a lleihau gwastraff bwyd



## THEMA 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai

### PAM FOD HWNYN FATER PWYSIG I FÔN?

1. Adlewyrchir y gallu i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor gyda llawer o waith a gweithgareddau'r Gwasanaeth Tai a phartneriaid yn cyfrannu at hyn, o Gyfranogiad Tenantiaid i'r Grant Cymorth Tai sy'n grymuso pobl i allu cyfrannu a chymryd rhan yn eu cymuned.
2. Mae cefnogi pobl a chymunedau wedi bod yn bwysig iawn yn ystod newidiadau diweddar fel Diwygio Lles a phandemig y coronafeirws, gyda llawer o bobl yn gallu cael cymorth pan fydd ei angen arnynt. Yn ystod y cyfyngiadau symud, y flaenoriaeth oedd sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sy'n gwarchod eu hunain yn gallu cael gafael ar wasanaethau allweddol fel siopa a dosbarthu moddion. Cydlynwyd hyn drwy wasanaethau cymorth traddodiadol yn ogystal â nifer o wirfoddolwyr mewn cymunedau oedd yn barod ac yn gallu darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn.
3. Mae Grant Cymorth Tai (Cefnogi Pobl gynt) wedi galluogi nifer sylweddol o bobl i dderbyn ymyrraethau amserol a phriodol er mwyn eu galluogi hwy gynnal eu cartrefi ar draws yr holl ystod o ddeiliadaethau gan aros yn annibynnol. Mae rhai o grwpiau mwyaf bregus o fewn ein cymdeithas, megis pobl sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref, pobl sy'n gadael carchar, pobl ag anghenion iechyd meddwl, pobl sy'n camddefnyddio sylweddau a phobl hŷn i enwi dim ond rhai, sydd wedi cael budd o dderbyn cefnogaeth sydd wedi ei dargedu a'i deilwra yn y blynyddoedd diweddar. Yn Hydref 2016, sefydlwyd Un Pwynt Mynediad ar gyfer cyfeiriadau sydd wedi rhoi gwybodaeth data o sylwedd i ni. Ers ei gyflwyno, mae'r nifer canlynol o gyfeiraidau wedi eu cefnogi'n flynyddol, gan ystod eang o ddarparwyr, sydd wedi eu comisiynu'n strategol gennym i ddiwallu anghenion grwpiau defnyddwyr dynodedig, gyda'r pwyslais ar atal digartrefedd ac hyrwyddo annibyniaeth.
4. Ers cyhoeddi'r Strategaeth ddiwethaf, mae Cefnogi Pobl wedi'i ail-frandio'n Grant Cymorth Tai gyda fframwaith canlyniadau newydd. Mae'r fformiwla ar gyfer dosrannu'r grant i Awdurdodau Lleol eto i'w benderfynu.

5. Mae'r data mapio anghenion yn parhau i lywio gwasanaethau wrth symud ymlaen gydag iechyd meddwl, digartrefedd, alcohol a chamddefnyddio cyffuriau yn parhau i fod yn broblem.

6. Drwy weithio gyda Gwasanaethau Plant, caiff Gwasanaethau Cam-drin Domestig eu darparu mewn ffodd gydgysylltiedig drwy gynnig Un Drws Ffrynt i gael mynediad at wasanaethau.

### Beth sydd angen digwydd erbyn 2021?

1. Bu'n rhaid i newidiadau yn y ddarpariaeth cymorth ddigwydd dros nos oherwydd y coronafeirws sydd wedi arwain at ddarparu ffodd wahanol o gynnig gwasanaethau. Gwelsom hefyd nifer o ddarparwyr cymorth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn cael cymorth yn ystod y cyfyngiadau symud gan sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau sylfaenol fel siopa.
2. Mae casgliad yr adolygiad o ailddosbarthu'r Grant Cymorth Tai wedi'i ohirio a rhagwelir y gallai gael ei gyflwyno yn 2022.
3. Mae cydweithio agos â Gwasanaethau Oedolion wedi golygu bod gwasanaethau wedi'u teilwra i gynnig yr opsiynau cymorth a chyllido mwyaf priodol i sicrhau y manteisir yn llawn ar fudd-daliadau'r Grant Cymorth Tai.
4. Drwy weithio'n agos gyda Gwasanaethau Plant, bydd gwasanaethau Cam-drin Domestig yn parhau i gynnig egwyddorion Un Drws Ffrynt wrth sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar wasanaethau a chymorth mewn modd amserol a sensitif.
5. Mae Swyddog lechyd Galwedigaethol newydd ei benodi. Bydd yn helpu i hwyluso'r broses i bobl ag anableddau gael tai fforddiadwy,

## THEMA 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach

### PAM FOD HWN YN FATER PWYSIG I FÔN?

1. Fel y nododd y Strategaeth flaenorol, mae pobl yn byw'n hirach ac felly, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o tua 70% yn nifer y bobl dros 85 oed sy'n byw ar yr Ynys yn y 10 mlynedd nesaf.
2. Mae cyfateb anghenion pobl hŷn â'r stoc tai presennol yn parhau i fod yn her.  
Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i sicrhau bod gan Bobl Hŷn y dewis priodol o dai gyda Chyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Hafan Cefni lle mae 63 o fflatiau un a dwy ystafell wely un ar gael i'w rhentu. Hefyd, ail-fodelwyd Llawr y Dref i gynnig dull byw mwy modern. Datblygwyd unedau byngalos ychwanegol ym Moelfre a Chaergybi.

### Beth sydd angen digwydd erbyn 2021?

1. Bydd achos busnes dros leoliad Cyllun Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol neu Ogledd yr Ynys yn mynd rhagddo
2. Bydd ein darpariaeth o Dai Gwarchod yn parhau i gael ei hadolygu i sicrhau y gallwn gydweithio i gynnig dull hyb o ran gwasanaethau a'n bod yn gallu cael gafaol ar gyllid fel y Gronfa Gofal Canolraddol
3. Anogir pobl hyn i symud i eiddo llai gyda mynediad i'n cynllun cymhelliant lle bo hynny'n berthnasol
4. Bydd gwaith yn parhau i weithio tuag at gynnig gwasanaeth cyson, waeth beth fo'r ddaliadaeth, pan fydd teulu neu unigolyn yn gofyn am Grant Cyfleusterau i'r Anabl

## THEMA 6 –

### Gwired du'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

### PAM FOD HWN YN FATER PWYSIG I FÔN?

1. Gall manteision Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol ddeillio'n uniongyrchol o adeiladu cartrefi newydd. Gall y Cyngor a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid gael effaith uniongyrchol ar hyn drwy adeiladu tai fforddiadwy newydd yn ogystal â chael y Grant Tai Arloesol sy'n hyrwyddo'r defnydd o fesurau sy'n gwneud cartrefi'n fwya effeithlon o ran ynni.
2. Mae angen datblygu tai fforddiadwy a thai ar y farchnad yn briodol i gefnogi twf economiau trefi a chefn gwlaid.
3. Mae gwrthgyferbyniad o hyd rhwng ffyniant economaidd a lefelau amddifadedd cymdeithasol yn rhai o'r cymunedau mwyaf llewyrchus a'r rhai mwyaf amddifad. Mae is-swyddfeydd Cymunedau yn Gyntaf Môn yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith ar draws yr Ynys.
4. Gall y farchnad dai leol fod yn sbardun pwysig i dwf economaidd ac fel y soniwyd eisoes gall datblygiadau newydd gyfrannu'n uniongyrchol at hyn, gall cynnwys:-
  - Rhaglen gwaith cynnal a chadw a gwaith wedi'i gynllunio a'r effaith y gall hyn ei chael yn lleol
  - Addasiadau tai yn defnyddio adeiladwyr a chrefftwyr lleol
  - Gall mesurau effeithlonrwydd ynni fel ECO ac Arbed am Byth gyfrannu at yr economi leol
  - Mae ailddefnyddio cartrefi gwag wedi dangos bod cwmniau masnach lleol yn elwa ar y dyraniad grant a wnaed
5. Gwnaethpwyd y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â Wylfa Newydd ym mis Medi gan Hitachi. Teimlir effaith hyn ar draws yr Ynys ac ymhellach i ffwrdd.

## Beth sydd angen digwydd erbyn 2021?

1. Bydd Gwasanaethau Tai yn parhau i gefnogi cynllun Arbed am Byth ar yr Ynys
2. Mae'r Cyngor yn parhau i annog mentrau sy'n cefnogi busnesau lleol i denu a gcontractau gwaith. Mae Gwasanaethau Tai yn parhau i gefnogi nifer o gwmliau lleol drwy ei gynlluniau cynnal a chadw arfaethedig, ei raglen adeiladu newydd a'r gwaith adnewyddu mewn eiddo a brynnir yn ôl (hen Dai'r Cyngor)
3. Bydd prosiectau Adfywio fel aildefnyddio eiddo gwag yn parhau i gael eu cefnogi tra bydd cyllid ar gael



## Atodiad I

Isod ceir enghreifftiau o sut rydym wedi bodloni saith egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â'n tenantiaid a'n heiddo:

Nod Llesiant	Dystiolaeth
Cymru lewyrchus	<p>Cyfranogiad tenantiaid</p> <p>Ymgysylltu â thenantiaid</p> <p>Cyfeirio tenantiaid at ragleni cyflogadwyedd, fel Trac, Ad-Trac</p> <p>Gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, CAB a'n Tîm Hawliau Lles mewnol i sicrhau y manteisir yn llawn ar yr hawl i gael budd-daliadau</p> <p>Rhaglen hyfforddi denu talent ar gyfer pobl ifanc</p> <p>Comisiynu dulliau drwy raglen Cefnogi Pobl gan sicrhau ein bod yn canolbwytio ar ganlyniadau</p> <p>Ein tîm cynhwysiant ariannol mewnol</p> <p>Rhagleni gwyliau ysgol amrywiol ledled Ynys Môn, mewn partneriaeth â phartneriaid eraill i wella llesiant, cyfleoedd a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol</p>
Cymru gydherth	<p>Grant amgylcheddol gwasanaethau tai</p> <p>Diwrnodau glanhau cymunedol</p> <p>Comisiynu wardeiniaid ynni i sicrhau bod tenantiaid yn cael eu hannog i reoli eu hynni'n effeithiol, gan sicrhau cymorth i gyllidebu a lleihau tlodi tanwydd</p> <p>Sicrhau bod ein tenantiaid yn cael llais ynglŷn â syniadau ac arloesedd i ganiatáu i'n cymunedau ddod yn fwy gwydn</p> <p>Ail-ddatblygu gwahanol lolfeydd cymunedol mewn ystadau tai gwarchod i'w galluogi i ddod yn hybiau cymunedol i denantiaid a phreswylwyr</p>

Nod Llesiant	Dystiolaeth
Cymru o gymunedau cydlynus	<p>Strategaeth cyfranogiad tenantiaid a chynllun gweithredu blynnyddol</p> <p>Gweithio gydag ystod eang o bartneriaid sy'n ymwneud â datblygu cymunedau cydlynus</p> <p>Atal a chanfod troseddau / ymddygiad gwrtgymdeithasol yn gynnar</p> <p>Annog grwpiau tenantiaid a phreswylwyr newydd i gael eu ffurfio er mwyn dod yn hyderus - gan ddarparu cymorth ac arweiniad parhaus gennym ni a phartneriaid fel Medrwn Môn a Menter Môn</p> <p>Datblygwyd cynllun gweithredu troseddau casineb, mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol fel CAB, Cymorth i Ddioddefwyr a Heddlu Gogledd Cymru</p> <p>Cefnogi tenantiaid sy'n dioddef troseddau casineb. Mynd i'r afael â'r rhai sy'n cyflawni troseddau casineb drwy sianeli perthnasol</p>
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	<p>Cadw at Ddeddf yr iaith Gymraeg</p> <p>Dod yn wasanaeth peilot o fewn y cyngor i wella'r Gymraeg lafar mewn busnes o ddydd i ddydd</p> <p>Cefnogi staff i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg</p> <p>Cefnogi staff ail iaith i wella eu sgiliau Cymraeg trwy hyfforddiant, datblygiad a chymorth</p> <p>Sicrhau bod pob tenant yn cael cyfle i siarad yn eu dewis iaith wrth ryngweithio â ni</p> <p>Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi 2019 gydag agoriad swyddogol yr hyb cymunedol, a gyllidwyd yn rhannol gan y Cyfrif Refeniw Tai yn ogystal â chronfeydd Gofal Integredig</p>

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	25.01.2020
Pwnc / Testun:	CYNLLUN BIOAMRYWIAETH CORFFORAETHOL
Deilydd(ion) Portffolio:	CYNGHORYDD RICHARD DEW
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	CHRISTIAN BRANCH
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	John Ifan Williams 01248 752460 JohnWilliams2@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Dim yn berthnasol

**A – Argymhelliaid / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Derbyn a mabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth corfforaethol yn ffurfiol.

Mae'n gyfrifoldeb ac yn ofynnol statudol ein bod gyda Cynllun Bioamrywiaeth corfforaethol wedi'i fabwysiadu.

Mae angen sefydlu cynllun gweithredu i'n galluogi i gydymffurfio a'r dyletswydd osodwyd gan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

Rhaid gosod amcanion i'n galluogi i fesur cynnydd ac adrodd bob tair mlynedd ar sut yr ydym yn cwrdd a'r amcanion hynny a'n dyletswyddau o safbwynt cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Datganwyd argywng hinsawdd gan y Cyngor Sir ym mis Medi 2020. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn y broses o baratoi Cynllun Newid Hinsawdd fydd â chasgliad o weithgareddau i ymateb i sawl agwedd o'r argywng. Mae'r Cynllun Bioamrywiaeth yn un them a maes gweithredu o'r fath.

Fe fydd Adroddiad Blynnyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith o ran cynnydd yn gweithedu'r Cynllun Bioamrywiaeth corfforaethol, gyda adroddiad 6 mis ar gyrhaeddiad yn erbyn disgwyliadau blynnyddol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol.

**B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Dim yn berthnasol

## **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

**Mae cael Cynllun Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor yn ddyletswydd statudol sydd yn cael ei osod gan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

## **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r Cynllun wedi ei baratoi i alinio hefo amcanion Cynllun y Cyngor, yn bennaf amcan 3 (Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol).

O safbwynt llesiant, fel mae Cynllun y Cyngor yn ei egluro, gall annog ein dinasyddion i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol arwain at well iechyd. Mae cydnabyddiaeth bod cael ein trochi mewn bioamrywiaeth am gyfnod pob wythnos yn gallu gwella iechyd ffisegol a meddyliol unigolion.

Mae bioamrywiaeth yn cyflenwi sawl un o'n adnoddau bywyd, sef bwyd, moddion, egni a deunyddiau craidd. Drwy gynnal a gwella bioamrywiaeth, bydd hyn yn sicrhau amodau ffafriol ar gyfer parhau y cyflenwad yma i'r dyfodol.

Mae bioamrywiaeth a'n tirlun unigryw yn creu sail gadarn ar gyfer ein economi. Er enghraifft, o safbwynt twristiaith, mae'n bioamrywiaeth a'n tirlun ymysg y prif nodweddion sy'n denu ymwelwyr i'r Ynys.

Drwy weithredu'r gweithredoedd sy'n cael eu hamlygu yn y cynllun gweithredu sydd ynghlwm i'r Cynllun Bioamrywiaeth, bydd hyn yn atgyfnerthu bioamrywiaeth fydd, yn ei dro, yn gwella'r amgylchiadau gall gyfranu at well llesiant i bobl Môn, parhau'r cyflenwad o adnoddau bywyd yn ogystal a chreu sail gadarn ar gyfer cynnal economi'r Ynys.

## **DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae'r gweithgareddau cydlynau a llywodraethu yn digwydd o fewn adnoddau presennol y Gwasanaeth, ond bydd angen ceisio am arian allannol i weithredu prosiectau penodol.

**Fel mae adran 6 (1) o'r Ddeddf yn ei fynnu, dyletswydd corfforaethol y Cyngor yw**

**sicrhau bod cynnal a gwella bioamrywiaeth yn cael ei weithredu trwy ei holl wasanaethau wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.**

Mae gweithred 6.1 o'r cynllun gweithredu yn gosod amcan i greu grwp o swyddogion ar draws y Cyngor i fonitro sut mae'r Cynllun yn cael ei weithredu, sut rydym yn cwrdd a'r gofynion ac yn adrodd ar y cynydd sy'n deillio o'r amcanion a'u gosodir ynddo. Yn statudol, bu angen adrodd ar y cynydd pob tair mlynedd a bydd y Gwasanaeth yn arwain ar hyn, fel yr amlinellwyd yn y cynllun gweithredu.

Yn ogystal, argymhellir dylid adrodd ar gynnydd yn flynyddol i'r Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau eraill er mwyn sicrhau cyrhaeddiad yn erbyn disgwyliadau. Bydd hyn yn ffordd o fesur perfformiad byddai'n rhoi'r sicrwydd i reolwyr/gwleidyddion bod materion yn ymwneud â ffrydiau gwaith yn cwrdd y disgwyliadau perthnasol ac yn ffordd o adnabod os byddai angen gwneud addasiadau i'r Cynllun.

Bu angen sicrhau bod yr adnoddau gennym i wneud hyn a sicrhau bod nodau ac amcanion y Cynllun yn parhau yn flaenllaw ym meddyliau pob gwasanaeth ac yn cael ei adlewyrchu o fewn eu cynlluniau busnes.

#### E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)

1	<b>Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys</b>	Bydd yn sicrhau y byddai cynnal a gwella bioamrywiaeth yn ystyriaeth bwysig a chanolig i'r broses o wneud penderfyniadau gan y Cyngor Sir a, thrwy wneud hynny, sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol elwa o amgylchedd naturiol amrywiol yr Ynys tra'n sicrhau byddai buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn deillio o'i warchod.
2	<b>A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-</b>	Ar y wyneb, bydd newidiadau i'r ffyrdd mae adnoddau'r Cyngor yn cael eu rheoli a'u cynnal yn gallu arwain at arbedion.

3	A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-	Dim ond yn fewnol ar baratoi'r Cynllun.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwr sut:-	Dim yn uniongyrchol o safbwynt drafftio'r Cynllun.
5	Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg	Dim yn berthnasol.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)	Ystyriwyd yr adroddiad gan yr UDA ar yr 21/12/2020 ar adroddiad diwygiedig ar y 4/1/2021. Cytunwyd mynd a'r addroddiad a'r Cynllun Bioamrywiaeth ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer eu hystyried a mabwysiadu'r Cynllun.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Dim ymateb
3	Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)	Dim ymateb
4	Gwasanaethau Cymdeithasol	Mae'r Cynllun yn darllen yn glir ac i'w weld yn alinio hefo'r gwaith oedd yn cael ei wneud gan y Grŵp Newid Hinsawdd cyn i'r Covid roi stop ar bethau.  Buasem fel gwasanaeth yn hoffi helpu gyda rhai prosiectau yn y dyfodol – fe wnaethom drafod y posibilrwydd i blannu coed am yr holl blant sydd ganddом ar y gofrestr, neu gynnwys gofalwyr maethu i godi ymwybyddiaeth yn ystod Pythefnos Gofal Maethu Cenedlaethol. Neu i holl staff yr adran blannu coeden? Oes yna weithdai fedrwn ni fod yn eu gwneud gyda plant er mwyn codi ymwybyddiaeth fel y gallai nhw helpu yn y dyfodol?
5	Priffyrrd, Gwastraff ac Eiddo (sylwadau gan aelod o'r Adain Eiddo)	Awgrymu dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal dolydd blodau gwylt, nodweddion tirlun, ardaloedd rhywogaeth a bioamrywiaeth ar safleoedd

		<p><b>ysgol newydd.</b></p> <p><b>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a phobl ifanc i arwain, gyda'r gwasanaethau Addysg a Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i fod yn gyfrifol am weithredu. O safbwyt mesuriad perfformiad dylai'r dyletswydd cynnal gael ei gynnwys o fewn cytundeb blynnyddol ar gyfer cynnal safleoedd ysgol.</b></p> <p><b>Y bwriad fyddai cynnal a gwella cynefin.</b></p>
<b>6</b>	<b>Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc</b>	<p><b>Wedi edrych ar y cynllun, mae o'n glir, dim sylwadau pellach, does yna ddim elfen o'r cynllun lle mae'r Gwasanaeth Dysgu yn arwain a ddim diweddarriad o ran gweithrediad o fewn y cynllun ar hyn o bryd.</b></p>

<b>F - Atodiadau:</b>
<b>Cynllun Bioamrywiaeth</b>

<b>FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):</b>
<b>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016</b>
<b>Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022</b>
<b>Cynllun Llesiant Gwynedd &amp; Ynys Môn</b>
<b>Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru</b>
<b>Cynllun Datblygu Lleol Môn and Gwynedd ar y cyd</b>
<b>Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol</b>
<b>Cynllun Rheoli AHNE</b>



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

## **Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Rh&DA)**

**Cyngor Sir Ynys Môn –**

**Adran 6 Deddf Amgylchedd Cymru**

**Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol 2019-2022**

## **Cynnwys**

<b><u>Adran</u></b>	<b><u>Teitl</u></b>	<b><u>Tud</u></b>
	Rhagair	3
1	Cyflwyniad	4
2	Nodau ac Amcanion y Cynllun	4
3	Bioamrywiaeth ar Ynys Môn	5
4	Rhai Enghreifftiau o Fioamrywiaeth ar Ynys Môn (Map)	7
5	Dyletswyddau Cyfreithiol y Cyngor	8
6	Gweithredoedd Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ynys Môn (2019-22)	8
7	Monitro ac Adrodd	17

<b><u>Atodiad</u></b>	<b><u>Teitl</u></b>	<b><u>Tud</u></b>
A	Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	18
B	Amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru	19
C	Dolenni i Gynlluniau a Strategaethau	20
Ch	Cynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth Leol	22

## **Rhagair**

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, gan wreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth yn gadarn yn eu penderfyniadau, cynlluniau a pholisïau dydd i ddydd.

Mae Cynllun Bioamrywiaeth cyntaf Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio cyflawni'r cyfrifoldebau a osodir arno yn hyn o beth trwy nodi camau realistig, cyraeddadwy a mesuradwy i wella bioamrywiaeth yr Ynys a sefydlu fframwaith clir ar gyfer mesur cynnydd a nodi meysydd i'w gwella. Trwy gynnal adolygiadau rheolaidd, byddwn yn gallu diwygio'r Cynllun a'i flaenoriaethau, gan sicrhau y gwneir ymdrech briodol i hyrwyddo gwytnwch ecosystem a all, yn ei thro, barhau i gefnogi bioamrywiaeth yr Ynys.

Mae amgylchedd naturiol amrywiol a llawn cymeriad Ynys Môn yn boblogaidd gyda phobl leol a thwristiaid fel ei gilydd ac, o'r herwydd, mae'n sail i ran fawr o'n heonomi. Mae'n hanfodol, felly, ein bod yn gwneud ein gorau glas i ofalu am yr adnodd unigryw hwn er mwyn cwrdd nid yn unig â'r her yn sgil dirywiad rhywogaethau a chynefinoedd - dirywiad sy'n cael ei gyflymu efallai gan y newid yn yr hinsawdd yr ydym yn ei weld yn digwydd ar hyn o bryd – ond, hefyd, er ein lles cymdeithasol ac economaidd ein hunain.

---

Arweinydd CSYM

Chwefror 2020

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddatblygu i sicrhau bod y Cyngor Sir yn cydymffurfio â gofynion adran 6 (a6) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sef cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, wrth ymgymryd â'i weithgareddau dydd i ddydd.

Mae gan Ynys Môn fioamrywiaeth eang ac amrywiol. Mae'r Ynys yn enwog yn rhanbarthol ac yn genedlaethol am gynefinoedd fel twyni tywod a morfeydd heli, a rhywogaethau fel y wiwer goch a'r frân goesgoch. Yn ogystal, mae'n fyd-enwog o ran ei daeareg ac, o ganlyniad, mae'r ynys wedi ei dynodi'n Geoparc Byd-eang UNESCO. Fel Ynys, mae ein bioamrywiaeth, mewn rhai ffyrdd, yn wahanol i'r fioamrywiaeth a welir mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Nod y Cynllun hwn yw helpu i gynnal a gwella nodweddion Bioamrywiaeth unigryw Ynys Môn, gan nodi amcanion clir a chryno a fydd yn cael eu cyflawni gan y Cyngor rhwng 2019 a 2022.

Ysgrifennwyd amcanion y Cynllun i fod yn **realistig, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy** o fewn yr amserlenni, gyda'r adroddiad cyntaf ar gynnydd y camau gweithredu i'w gyflwyno erbyn diwedd 2019. Mae adroddiad wedi'i ddrafftio ond bydd angen ei ddiweddar uchafbwyd gan y Cyngor rhwng 2019 a 2022.

Mae'r Cynllun yn dilyn canllawiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ystyried amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (CGAN) (<https://gov.wales/nature-recovery-action-plan-2015>). Ar adeg cyhoeddi'r Cynllun hwn, nid oedd y Datganiad Ardal ar gyfer Ynys Môn a'r ardal ehangach ar gael ond disgwyllir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2020.

## 2. Nodau ac Amcanion y Cynllun

### Nod

Nod y Cynllun yw amlinellu gweithredoedd a fydd yn sylfaen i'r Cyngor Sir fedru cynnal a gwella bioamrywiaeth amrywiol a nodedig yr Ynys wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i weithgareddau dewisol a, thrwy wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

### Amcanion

Mae'r CGAN yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (**Atodiad A**) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae chwe amcan unigol wedi eu cynnwys yn y CGAN (**Atodiad B**) gyda golwg ar fynd i'r afael â'r materion sy'n gyrru'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac i gynorthwyo i adfer y sefyllfa. Mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Bioamrywiaeth hwn fel y prif amcanion sy'n gyrru ei weithredoedd. Yr amcanion hynny yw:

- ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth o fewn y broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel;
- diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella'r rheolaeth ohonynt
- cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd newydd;
- mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd;
- gwella ein sylfaen dystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro; a
- sefydlu fframwaith llywodraethu a chefnogaeth gadarn ar gyfer cyflawni.

### 3. Bioamrywiaeth ar Ynys Môn

Bioamrywiaeth ydi'r amrywiaeth naturiol o fywyd sydd gennym ar y ddaear - yr anifeiliaid a'r planhigion sy'n byw o'n cwmpas, y cynefinoedd lle maent yn byw, a phobl. Mae bioamrywiaeth hefyd yn cynnwys yr amrywiaeth o ecosystemau y mae rhywogaethau'n byw ynddynt, o ficro-gynefinoedd pridd hyd at dirweddau cyfan. Mae'n bwysig gwarchod a gwella ein bioamrywiaeth, sydd o gymaint o fudd i ni mewn gwahanol ffyrdd yn ein bywydau pob dydd. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:


- Gwella iechyd a lles trigolion Ynys Môn ac ymwelwyr
- Cyflenwad i'r ecosystem (e.e. dŵr, peillio, maetholion ac ati);
- Cyflenwi Adnoddau Bywyd (Bwyd, Meddyginaeth, Ynni a deunyddiau crai);
- Manteision economaidd trwy ychwanegu gwerth at weithgareddau economaidd lleol a thwristiaeth; a
- Hynodrwydd y dirwedd sy'n cyfrannu at gymeriad yr Ynys.

#### Bioamrywiaeth ar Ynys Môn - cyflwyniad byr

Mae gan Ynys Môn lawer o rywogaethau a nifer o gynefinoedd blaenoriaeth (Atodiad Ch). Mae'r rhain yn cynnwys rhostriroedd yr iseldir a'r arfordir, corslwyni, corstiroedd, coetiroedd llydanddail, gwrychoedd hynafol gyda chyfoeth o rywogaethau, pyllau ac ymylon ffyrdd llawn blodau. Yn ogystal â'r rhain, mae rhai o'r twyni tywod mwyaf yng Nghymru i'w gweld yn ynys Môn.

Ymhliith y rywogaethau nodedig (**Atodiad Ch**) mae nifer o adar, mamaliaid, pryfed a phlanhigion sydd dan fygythiad.

Yn hanesyddol bu **Môr-wenoliaid Gwridog [1]** (môr-wenoliaid bridio prinnaf Prydain) ac **Adar y Bwn [2]** yn bridio ar Ynys Môn, ond mae eu dychweliad fel bridwyr yn parhau i fod yn ansicr ar gyfer y dyfodol. Felly, mae gwella a diogelu cynefinoedd yn hanfodol er mwyn sicrhau y byddant yn parhau i fod ar yr Ynys.



Dychwelodd y **Dyfrgi** i Ynys Môn yn y 1990au, yn dilyn absenoldeb o 20 mlynedd, gyda chymorth y gwelliannau a wnaed i ansawdd dŵr afonydd.

Mae **Gwiwerod Coch** bellach yn gyffredin yn Ynys Môn, gyda chymorth rhaglen ailgyflwyno effeithiol a pharhaus dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Mae rhannau helaeth o'r môr o amgylch Ynys Môn yn rhan o Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer **Llamhidyddion yr Harbwr**. Gellir gweld y rhywogaeth hon oddi ar arfordir y gogledd yn arbennig,

Gellir gweld y glöyn byw **Brith y Gors** hefyd yma sy'n rhywogaeth brin. Yn y gorffennol roedd Ynys Môn yn un o'r cadarnleoedd yn Ewrop ar gyfer y rhywogaeth hon, ond erbyn hyn mae'r niferoedd wedi disgyn a dim ond ychydig sydd ar ôl yma.

Mae gan yr ynys gyfoeth o blanhigion prin, megis ein blodyn sirol, y **Cor-rosyn Rhuddfannog** [4]. Nid yw **Llysiau Lludw Ynys Lawd** [3] ond i'w gweld yn Ynys Lawd, ac nid ydynt yn unman arall yn y byd. Mae planhigion eraill sy'n prinbau ar yr ynys yn cynnwys **Camri**, **Crinllys y Goedwig** a'r **Tegeirian Llydanwyrrd Bach** [5].



Mae cadwraeth weithredol gan sawl sefydliad yn helpu i sicrhau na fydd y rhywogaethau hyn yn diflannu o'n hynys.

Mae cynefinoedd pwysig yn cynnwys rhostiroedd, corstiroedd, traethau tywodlyd, clogwyni, llynnoedd a choetiroedd llydanddail. Mae gan yr Ynys arfordir cyfoethog ac amrywiol. Mae yna systemau twyni tywod o bwys cenedlaethol a rhyngwladol a chorstiroedd mewndirol.


Mae corstiroedd ar Ynys Môn yn isel mewn maetholion, sy'n arwain at ystod ehangach o blanhigion o'i gymharu â chorstiroedd sy'n ferw o faetholion. Y corstiroedd calchaidd prin (llawn calch) [7] yw'r ail fwyaf o ran eu harwynebedd ym Mhrydain ac maent yn gartref i fywyd gwylt sydd wedi mynd yn brinnach yn sgil colli mwy a mwy o'r cynefin hwn dros y blynnyddoedd.

Ymhlieth y rhywogaethau a welir yn y cynefin hwn mae'r gorsfrwynen ddu, tegeirianau amrywiol, planhigion prifysol, gweision y neidr a gloynnod byw. Yn ogystal, gellir gweld gelod meddyginaethol prin sy'n sugno gwaed, yn ogystal â madfallod, brogaod, llyffantod a llawer o adar, gan gynnwys telor y gwair sydd bellach yn aderyn prin.

Yn hanesyddol roedd y gwlyptiroedd hyn yn ymestyn o Falltraeth i Lugwy, ond heddiw maent wedi'u canoli ar safleoedd allweddol [Cors Goch](#) [6], [Cors Erddeiniog](#) Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a [Chors Bodeillio](#).

Isod: 6 (chwth) a 7 (dde)

#### 4. Rhai Enghrefftiau o Fioamrywiaeth ar Ynys Môn



#### Map Key

- 1 Tern Breeding Sites - Skerries, Cemlyn, Ynys Feurig
- 2 Rare Salt Lagoon - Cemlyn
- 3 Local Nature Reserve Woodland - Aberleiniog, Dingle, Menai Bridge
- 4 Limestone Pavement - Din Lligwy
- 5 Anglesey FENS - Cors Godh, Cors Erddeinog, Cors Bodellio
- 6 Red Squirrels - Pentraeth, Newborough Forest, Llyn Cefni Woods, Bodorgan
- 7 Seals & Sea Birds - Puffin Island
- 8 Rare Sea Life and Tidal Flow - Menai Straits
- 9 Woodland - Menai Straits (Land)
- 10 Breeding Birds - Maltraeth Marsh
- 11 Salt Marsh - Newborough, National Nature Reserve
- 12 Sand Dunes - Aberfraw, Newborough, Rhosneigr
- 13 Breeding Swans - Llyn Alaw
- 14 Sea Bird Breeding Site - South Stack (RSPB)
- 15 Coastal Heathland - Ynys Cybi, Amlwch, Llanddona

#### Species

S	Red Squirrel	C	Chough
T	Tern	Sa	Sand Lizard
P	Porpoise	O	Otter
Se	Seal	Cn	Crested Newt

## 5. Dyletswyddau Cyfreithiol y Cyngor Sir

Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Adran 6) mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru :

- Cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni eu cyfrifoldebau a, thrwy wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau;
- Arddangos dull ecosystem trwy ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf;
- Paratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu sut maent yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd;
- Cyhoeddi adroddiad, bob tair blynedd (o 2019), ar y camau y maent wedi'u cymryd i gyflawni'r ddyletswydd hon.

**Beth mae hyn yn ei olygu?** Mae'r gofyn hwn yn golygu bod angen i'r Cyngor Sir ystyried effaith ei holl weithgareddau a'r berthynas â'r amgylchedd naturiol. Ei nod yw cadw ac, os oes modd, gwella bywyd gwylt yn y safleoedd y mae'n berchen arnynt ac y mae'n gweithio gyda nhw, gan ystyried hyn i gyd mewn perthynas â'r bywyd gwylt sydd yn yr ardaloedd cyfagos.

Nod dyletswydd a6 yw sicrhau bod ystyried bioamrywiaeth yn dod yn rhan annatod o'r penderfyniadau a'r camau y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu cymryd mewn perthynas â Chymru.

Gellir gweld dolenni i Gynlluniau a Strategaethau sy'n ymwneud ag Ynys Môn yn **Atodiad C**.

## 6. Gweithredoedd Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ynys Môn (2019-2022)

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru sicrhau datblygu cynaliadwy a rhaid gwneud hyn trwy arddangos y pum ffordd o weithio. Mae'r camau a nodir yn y tabl isod yn dangos sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun hwn, gan gydymffurfio â'r ddyletswydd i ddangos y pum ffordd o weithio ar yr un pryd, sef:

- Meddwl am y tymor hir
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio a
- Cynnwys

Cynllun Bioamrywiaeth Amcan 1		Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth o fewn y broses						
Rhif	Gweithredu	Arweinydd	Gwasanaeth(au)	Blwyddyn			Mesur Perfformiad	Canlyniad
				2020	2021	2022		
1.1	Sicrhau bod gwaith ystyried bioamrywiaeth wedi'i wreiddio wrth lunio polisiau a gwneud penderfyniadau, a hynny trwy'r Cyngor i gyd.	Prif Weithredwr	Pawb	✓	✓	✓	Cyfeirio at ystyried y ddyletswydd bioamrywiaeth mewn dogfennau a chynlluniau polisi corfforaethol a Gwasanaeth perthnasol	Gweithio tuag at gyflawni nod Cymru Gydneth a osodwyd yn Nedd Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
1.2	Ailgychwyn Fforwm Bywyd Gwyllt Ynys Môn fel y Bartneriaeth Natur Leol a sicrhau bod perthynas gref rhwng y Bartneriaeth hon a gwasanaethau'r Cyngor	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	✓	✓	✓	Cyfarfodydd rheolaidd o'r Bartneriaeth Natur Leol	
1.3	Diwygio Amcan 3 Cynllun y Cyngor, sy'n cyfeirio at ddiogelu'r amgylchedd naturiol fel ei fod yn cynnwys cymal penodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Pawb	✓	✓	✓	Diwygio Cynllun y Cyngor yn briodol	
1.3	Mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol i gyflawni'r ddyletswydd gwytnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Pawb	✓			Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Cynllun	Cydymffurfio â'r ddyletswydd gwytnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau

1.4	Cyhoeddi adroddiad ar sut y bodlonir gweithredoedd a nodir yn y Cynllun Bioamrywiaeth neu sut mae gweithio tuag atynt	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Pawb	✓		✓	Cyhoeddi'r adroddiad	
1.5	Ymgysylltu â Phenaethiaid Gwasanaethau i nodi'r gofynion yn y Ddyletswydd Bioamrywiaeth	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Pawb	✓			Camau gweithredu priodol wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth	Cynnwys mein prawf llwyddiant, sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, mewn Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth
1.6	Asesu dogfennau polisi perthnasol ar gyfer cynnwys cyfeiriadau bioamrywiaeth ac awgrymu diwygiadau lle bo angen	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Pawb	✓	✓	✓	Diwygiwyd dogfennau polisi (lle bo angen) i gynnwys cyfeiriad at gynnal a gwella bioamrywiaeth	Cynnwys mein prawf llwyddiant, sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, mewn Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth
1.7	Cysylltu manteision bioamrywiaeth â'r Strategaeth Newid Hinsawdd, yr agenda datgarboneiddio a rhaglenni lleihau / ailgylchu gwastraff	Dirprwy Brif Weithredwr; Pennaeth Gwasanaeth (Priffydd, Gwastraff ac Eiddo)	Pawb	✓	✓	✓	Llai o allyriadau carbon; Cyfradd ailgylchu uwch / llai o safleoedd tirlenwi i leihau allyriadau; Mwy o blannu coed / glasu'r amgylchedd	Cael effaith ar newid ymddygiad
<b>Cynllun Bioamrywiaeth Amcan 2</b>		<b>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella'r rheolaeth ohonynt</b>						
	<b>Gweithredu</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Gwasanaeth(au)</b>	<b>Blynnyddyn</b>			<b>Mesur Perfformiad</b>	<b>Canlyniad</b>
				<b>2020</b>	<b>2021</b>	<b>2022</b>		
2.1	Gwneud cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chanolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cofnod	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	✓			Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ei le	Sicrhau'r dystiolaeth orau a chyfredol i lywio gwaith ffurffio polisi cynllun datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu

2.2	Rhoi pwys sylweddol ar absenoldeb bioamrywiaeth mewn ceisiadau cynllunio.	Rheolwr Rheoli Datblygu	Swyddogaeth Cynllunio	✓	✓	✓	Data monitro dangosyddion perfformiad allweddol	Sicrhau bod bwriadau i ddatblygu tir yn ystyried bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau'n gynnar.
2.3	Cydymffurfio ag amodau cynllunio / rhwymedigaethau cynllunio perthnasol sy'n gofyn am wella bioamrywiaeth mewn cynlluniau a ganiatawyd i ddatblygu tir	Rheolwr Gorfodaeth Cynllunio	Swyddogaeth Cynllunio	✓	✓	✓	Data monitro dangosyddion perfformiad allweddol	
2.4	Rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth pan ymgynghorir â nhw ar geisiadau	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Pawb	✓	✓	✓	Data monitro dangosyddion perfformiad allweddol	Codi ymwybyddiaeth yng hylch deddfwriaeth amgylcheddol
<b>Cynllun Bioamrywiaeth Amcan 3</b>		<b>Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd</b>						
	<b>Gweithredu</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Gwasanaeth(au)</b>	<b>Blwyddyn</b>			<b>Mesur Perfformiad</b>	<b>Canlyniad</b>
				<b>2020</b>	<b>2021</b>	<b>2022</b>		
3.1	Cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth yng nghynlluniau newydd CSYM. Er enghraifft: plannu coed a mannau bywyd gwylt ar gyfer ysgolion newydd. Creu cynefinoedd mewn prosiectau newydd megis	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Prifyrdd, Gwastraff ac Eiddo; Addysg	✓	✓	✓	Sylwi ar gynnydd canrannol y coed a blannwyd, cynefinoedd newydd sydd wedi'u creu ac ati.	Creu, cynnal a gwella cynefin

	pyllau, gwlyptir, plannu coed newydd.							
3.2	Amddiffyn a gwella ymylon lle ceir blodau gwylt	Pennaeth Gwasanaeth (Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)	Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo;	✓	✓	✓	Sicrhau fod pob ymyl lle ceir blodau gwylt wedi'i nodi'n glir i dorwyr ymylon a bod y map gwarchod ymylon prifffyrdd yn gyfredol.	
3.3	Plannu coed newydd yn sgil y clefyd sy'n taro'r Onnen	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Swyddogaeth cynllunio	✓	✓	✓	Cynnydd yn nifer y coed o ganlyniad i blannu rhai newydd ar ôl cael gwared â choed sydd wedi'u heintio, wedi marw neu yn marw	
3.4	Ei gwneud yn ofynnol cynnal / gosod gwrych newydd mewn cynlluniau datblygu a chymryd camau gorfodi os cânt eu symud heb ganiatâd	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Swyddogaeth cynllunio	✓	✓	✓	Cyfngu ar wrychoedd brodorol a gollir ac ailblannu lle bo angen	
3.5	Cymryd camau angenrheidiol i sicrhau fod afonydd a dyfrffyrdd yn lân	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Swyddogaethau Cynllunio, lechyd yr Amgylchedd a Chyrchfan	✓	✓	✓	Mwy o fioamrywiaeth mewn afonydd a dyfrffyrdd ac yn gyfagos iddynt; gwell ansawdd dŵr ymdrochi	
3.6	Annog swyddogion i ystyried effeithiau a bioamrywiaeth a'u lliniaru, e.e. plannu rhywogaethau brodorol yn lle coed os oes angen cael gwared â nhw	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Pawb	✓	✓	✓	Gwell ansawdd cynefin / cynnydd yn y cynefin sydd ar gael o ganlyniad i ddatblygu stad y Cyngor	Cynnal a gwella bioamrywiaeth ar stad Cyngor CSYM

3.7	Cynllun Mabwysiadu Coed	Dirprwy Brif Weithredwr	Swyddogaeth cynllunio	✓			Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Cynllun		
3.8	Nodi cyfleoedd i greu / gwella cynefinoedd stad y Cyngor	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Swyddogaeth cynllunio / Swyddogaeth Eiddo	✓	✓	✓	Cyflwyno cynllun i hawlio cyllid "Glasu Stad y Cyngor" Llywodraeth Cymru		
3.9	Ymgysylltu â grwpiau Gwirfoddoli i fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo bioamrywiaeth a nodi cyfleoedd posibl i weithio'n gydwethredol	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Swyddogaethau Cynllunio a Chyrchfan	✓	✓	✓	Cyfarfodydd rheolaidd o'r Bartneriaeth Natur Leol; Derbyn cyllid grant fel bod modd cyflwyno cynlluniau adfer cynefinoedd	Adfer cynefin sydd wedi dirywio	
<b>Cynllun Bioamrywiaeth Amcan 4</b>		<b>Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd</b>							
	Gweithredu	Arweinydd	Gwasanaeth(au)	<b>Blwyddyn</b>			Mesur Perfformiad	Canlyniad	
				2020	2021	2022			
4.1	Sicrhau bod bwriadau datblygu'n gwneud y defnydd gorau o dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu	Rheolwr Rheoli Datblygu	Swyddogaeth cynllunio	✓	✓	✓	Data monitro dangosyddion perfformiad allweddol	Diogelu gwaith datblygu a threfoli sy'n lleihau'r galw am safleoedd tir glas ac yn ymgorffori bwriadau i wella bioamrywiaeth	
4.2	Sicrhau bod cynigion datblygu'n cynnwys darpariaethau ar gyfer gwella bioamrywiaeth lle bo hyunny'n briodol	Rheolwr Rheoli Datblygu	Swyddogaeth cynllunio	✓	✓	✓	Data monitro dangosyddion perfformiad allweddol		
4.3	Paratoi Cynllun i roi sylw i newid hinsawdd a galluogi'r Cyngor Sir a'r Ynys i addasu i fywyd mewn hinsawdd sy'n newid	Dirprwy Brif Weithredwr	Pawb	✓			Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Cynllun Newid Hinsawdd	Rhoi sylw cadarnhaol i newid hinsawdd a chynhesu byd-eang	

4.4	Parhau i hyrwyddo gwaiith lleihau gwastraff ac ychwanegu at fentrau ailgylchu llwyddiannus y Cyngor	Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)	Swyddogaeth Rheoli Gwastraff	✓	✓	✓	Llai o dunelli o wastraff i'w dirlenwi a mwy o ailgylchu gwastraff trefol	
4.5	Cynyddu fflyd y ceir trydan canolog a blaenoriaethu eu defnyddio dros gerbydau personol pan fyddant ar fusnes y Cyngor	Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)	Pawb	✓	✓	✓	Mwy o gerbydau trydan	
4.6	Gwireddu cyfleoedd ar gyfer llwybrau teithio a ddefnyddir, yn enwedig o ran cyn-goridorau trafnidiaeth	Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)	Swyddogaeth Priffyrdd	✓	✓	✓	Hyd llwybr teithio a ddefnyddir yn hwy	
4.7	Cefnogi prosiectau / mentrau yr ymgwymerwyd â nhw i sicrhau y gwneir i ffwrdd â rhywogaethau ymledol nad ydynt yn frodorol e.e. prosiectau y mae'r Swyddogaeth Cefn Gwlad a'u partneriaid yn eu goruchwyllo	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Swyddogaethau Cynllunio a Chyrchfan	✓	✓	✓	Derbyn yr arian grant fel bod modd rhoi cynlluniau ar waith i leihau nifer y rhywogaethau ymledol nad ydynt yn frodorol	Lleihau nifer y rhywogaethau ymledol nad ydynt yn frodorol
4.8	Anog defnyddio cerrig mân eilaidd/ wedi'u hailgylchu dros ddeunydd sylfaenol lle bo hynny'n briodol wrth ddatblygu	Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru	Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru	✓	✓	✓	Gostyngiad yn nhunelli'r gwastraff anadweithiol i'w dirlenwi / cynnydd mewn cerrig mân eilaidd a werthir	Lleihau'r camfanteisio ar adnoddau naturiol a faint o'r amgylchedd fydd yn dirywio.

Cynllun Bioamrywiaeth Amcan 5		Gwella ein sylfaen tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro						
	Gweithredu	Arweinydd	Gwasanaeth(au)	Blwyddyn			Mesur Perfformiad	Canlyniad
				2020	2021	2022		
5.1	Paratoi a chylchredeg bwletin / cylchlythyr electronig yn tynnu sylw at feysydd perthnasol ar gyfer cydymffurfio â chyfraith bywyd gwylt (holl aelodau a staff etholedig CSYM). Adolygu'r bwletin yn rheolaidd a'i ddiweddar u lle bo angen	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Swyddogaeth cynllunio	✓	✓	✓	Cylchredeg bwletin / cylchlythyr i'r holl aelodau a staff	Codi ymwybyddiaeth bioamrywiaeth ymhliith staff CSYM ac aelodau etholedig
5.2	Cyflwyno hyfforddiant bioamrywiaeth priodol i swyddogion perthnasol ac aelodau etholedig	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Swyddogaeth cynllunio	✓	✓	✓	Ffigurau presenoldeb ar gyfer digwyddiadau hyfforddi perthnasol	
5.3	Cynnal archwiliad bioamrywiaeth o adeiladau a daliadau tir CSYM	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol / Rheolwr Cyfatebol yn y Swyddogaeth Eiddo	Swyddogaethau Cynllunio ac Eiddo	✓			Cwblhau archwiliad	Gwell dealltwriaeth o fioamrywiaeth ar eiddo CSYM a nodi cyfleoedd i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth leol
5.4	Opsiwn i dargedu ardaloedd amlwg a enillwyd yn hytrach na gweithredu dull cyffredinol, e.e. lle gellid gosod blychau ystlumod a blychau nythu ar adeiladau CSYM.	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol / Rheolwr Cyfatebol yn y Swyddogaeth Eiddo	Swyddogaethau Cynllunio ac Eiddo	✓			Camau a gymerwyd i osod "seilwaith" sy'n gwella bioamrywiaeth	

Cynllun Bioamrywiaeth Amcan 6		Sefydlu fframwaith llywodraethu a chefnogaeth ar gyfer cyflawni						
	Gweithredu	Arweinydd	Gwasanaeth(au)	Blwyddyn			Mesur Perfformiad	Canlyniad
				2020	2021	2022		
6.1	Sefydlu grŵp swyddogion rhyng-wasanaeth sydd â chyfrifoldebau i fonitro cynnydd gweithredoedd y Cynllun a chydlynú'r swyddogaeth adrodd.	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant / Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Dat Econ)	Pawb	✓			Cysondeb cyfarfodydd a chynhyrchu adroddiad(au)	Cyngor gwybodus a all gyflawni ei ddyletswydd a6 a hyrwyddo adferiad bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystem
6.2	Ymgymryd â rhaglen o ddiweddarriadau briffio rheolaidd (bob chwarter o leiaf) gyda'r Deiliad Portffolio Amgylcheddol / Hyrwyddwr Bioamrywiaeth	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Swyddogaeth cynllunio	✓	✓	✓	Cysondeb cyfarfodydd gyda'r Deiliad Portffolio	
6.3	Sicrhau mwy o gydweithredu rhwng CSYM a sefydliadau / partneriaethau perthnasol er mwyn gwella'r cydweithredu ar faterion bioamrywiaeth	Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Swyddogaeth cynllunio	✓	✓	✓	Sicrhau cyllid grant i gyflogi Swyddog Bywyd Gwylt Lleol ac ariannu prosiectau bioamrywiaeth lleol trwy'r Bartneriaeth Natur Leol	
6.4	Archwilio cyfleoedd i dîm caffael CSYM gynnwys bioamrywiaeth mewn ystyriaethau caffael e.e. defnyddio cynhyrchion pren o ffynonellau cynaliadwy a defnyddio compost heb fawn.	Swyddogaeth Caffael	Pawb	✓	✓	✓	Symud i system gaffael sy'n cynnwys cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ddod o hyd i ddeunyddiau	

## **7. Monitro ac Adrodd**

Bydd gwaith monitro cynnydd mewn perthynas â'r gweithredoedd yn parhau dros dymor y Cynllun ac, o gofio'r ystod o gamau a gynigir, bydd yn cynnwys adborth gan holl Wasanaethau'r Cyngor Sir y mae'r gweithredoedd yn berthnasol iddynt. Wrth fonitro'n rheolaidd ceir hyblygrwydd o ran rhoi sylw i flaenoriaethau sy'n newid neu fodloni diffygion yn y Cynllun a, thrwy hynny, ei gwneud yn ddogfen ddeinamig a rhagweithiol.

Yn fewnol, byddir yn adrodd i'r fforwm priodol (Cyngor Llawn, y Pwyllgor Gwaith ac ati) ar gynnydd o ran cwrdd â chamau gweithredu a gynlluniwyd ac yn sefydlu grŵp swyddogion rhwng-wasanaeth i gydlynú'r swyddogaeth adrodd. Yn allanol, rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad ar sut mae'n bodloni'r ddyletswydd a6 bob tair mlynedd o 2019 ymlaen.

## **Atodiad A – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Cyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn annog cyrff cyhoeddus i gynllunio yn y tymor hwy, gan weithio mewn ffordd fwy cynaliadwy, gan ystyried yr effaith bosibl ar genedlaethau Cymru yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

Rhaid i gyrrff cyhoeddus gynnal y prif gamau wrth ddatblygu'n gynaliadwy:

- a) Gosod a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sydd wedi'u cynllunio i gynyddu'r hyn a wneir i gyflawni pob nod llesiant, a
- b) Cymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gwrdd â'r nodau hynny.

Sefydlwyd saith nod llesiant er mwyn sicrhau bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n gweithio tuag at yr un weledigaeth.,


### **Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

- Mae bioamrywiaeth i'w weld yn helaeth yn saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn bennaf:

**1) Cymru Gydnerth - cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredu iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).**

**Mae bioamrywiaeth hefyd yn rhan o'r nodau Llesiant eraill:**

- 1) Cymru iachach;
- 2) Cymru sy'n fwy cyfartal;
